

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 8/2018

Dyddiad Cyhoeddi: 05/02/2018

Gwerthusiad o Rwydwaith Seren

Adroddiad Terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Gwerthusiad o Rwydwaith Seren

Awdur: Nia Bryer, OB3 Research gyda chyfraniadau gan Rhys Davies a Suhaer Yunus, ADRC-Wales, Prifysgol Caerdydd

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Heledd Jenkins

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

E-bost: Heledd.Jenkins2@gov.wales

ISBN: 978-1-78903-461-5

© Hawlfraint y Goron 2018

Cynnwys

	Rhestr o dablau	6
	Rhestr o Ffigurau	6
	Geirfa	7
1.	Cyflwyniad	8
	Strwythur yr adroddiad hwn	9
2.	Methodoleg y Gwerthusiad	10
	Dull	10
	Ystyriaethau methodolegol	12
	Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg	12
3.	Cyflwyniad i Rwydwaith Seren.....	16
	Y cyd-destun polisi	16
	Cyd-destun SAU	19
	Ymchwil Llysgennad Oxbridge	20
	Nodau ac amcanion Rhwydwaith Seren	20
	Strwythur a model cyflawni	24
4.	Data Cyhoeddedig	27
	Y cyrhaeddiad gorau mewn arholiadau Safon Uwch	27
	Ceisiadau, cynigion a chofrestriadau ar gyfer Oxbridge	28
	Ceisiadau, cynigion a chofrestriadau i'r prifysgolion gorau eraill.....	31
	Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n mynd i SAU yn y DU.....	32
	Data Ymgeiswyr UCAS.....	33
	Casgliadau.....	34
5.	Cynllun, Sail Resymegol a Thystiolaeth o Angen	36
	Nodau ac Amcanion	36
	Cynllun a Sail Resymegol.....	38
	Cyfatebolrwydd y ddarpariaeth	40
6.	Model cyflawni a rheoli	44
	Ffiniau'r Canolfannau.....	44
	Cydweithio rhwng canolfannau	45
	Cyllid Seren	46
	Rôl y cydgysylltydd	49

	Llywodraethu	49
	Rôl Llywodraeth Cymru	50
	Cyfarfodydd cydlynwyr Rhwydwaith Seren.....	51
	Casglu data ac adrodd arnynt.....	51
	Brilliant Club	54
	Hyrwyddo a Chyfathrebu	55
7.	Ymwybyddiaeth, recriwtio ac ymgysylltu.....	56
	Y rhesymau dros ymgysylltu.....	56
	Meini prawf dethol	57
	Presenoldeb	62
	Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth	64
	Cyfathrebu	67
8.	Y ddarpariaeth a sut mae canolfannau lleol yn gweithio.....	69
	Natur y Ddarpariaeth	69
	Ansawdd y Ddarpariaeth	71
	Meysydd i'w gwella	73
	Amseriad y Ddarpariaeth	74
	Lleoliad a hygyrchedd.....	75
	Amllder y ddarpariaeth	76
	Barn ynghylch sut y rheolwyd y canolfannau.....	77
	Pa mor ddefnyddiol oedd y ddarpariaeth	78
	Y Gymraeg	80
	Cynhadledd Genedlaethol	82
9.	Ymgysylltu â SAU	84
	Natur yr ymgysylltiad	84
	Adborth gan SAU.....	85
	Adborth gan SAU nad oeddent yn ymgysylltu â Seren.....	87
	Y ffordd ymlaen o ran ymgysylltu â SAU	88
10.	Y Gwahaniaeth a Wnaed.....	90
	Effeithiau cadarnhaol.....	90
	Effeithiau anfwriadol	95
11.	Gwerthusiad Terfynol o Effaith.	96
	Cyflwyniad	96

	Ffynonellau Data i Gefnogi'r Gwerthusiad o Seren.....	98
	Adnabod Cyfranogwyr Seren mewn Data Gweinyddol.....	103
	Asesu Effaith y Cynllun Seren	109
	Sylwadau i gloi.....	114
12.	Casgliadau ac Argymhellion	116
	Atodiad A Holiaduron Arolwg	127
	Atodiad B Ffynonellau data	154
	Atodiad C Yr SAU a Gyfwelwyd	157

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Nifer y Cyfranogwyr fesul canolfan Seren	26
Tabl 4.1: Canlyniadau Safon Uwch yn ôl gradd	27
Tabl 4.2: Cyfraddau cynigion a derbyniadau yn ystod 2015/16 ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ym Mhrifysgol Rhydychen o gymharu â rhanbarthau eraill y DU	29
Tabl 4.3: Ymgeiswyr a derbyniadau ym Mhrifysgol Rhydychen mewn perthynas â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru	29
Tabl 4.4: Ceisiadau, cynigion a derbyniadau i Brifysgol Caergrawnt ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru	31
Tabl 4.5: Nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a wnaeth gais am gyrsiau yn ystod 2017/18 gyda dyddiad cau ym mis Hydref 2017	34
Tabl 4.6: Nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a wnaeth gais am gyrsiau meddygaeth yn ystod 2017/18 gyda dyddiad cau ym mis Hydref 2017	34
Tabl 7.1: Uchelgeisiau prifysgol y cyfranogwyr a'r rheini a gymerodd ran yn yr arolygon	56
Tabl 11.1 Trosolwg o ffynonellau data a manylion cohort	105

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 3.1: Lleoliad yr 11 o ganolfannau Seren.....	23
Ffigur 7.1: Y Disgwyliadau o Rwydwaith Seren.....	57
Ffigur 7.2: Dealltwriaeth y cyfranogwyr o Rwydwaith Seren.....	66
Ffigur 8.1: Ymwneud â gweithgareddau Seren	71
Ffigur 8.2: Barn y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg am amrywiol agweddau ar ddarpariaeth Rhwydwaith Seren	72
Ffigur 8.3: Ansawdd darpariaeth Rhwydwaith Seren.....	73
Ffigur 8.4: Pa mor aml yr oedd pobl yn mynychu digwyddiadau Seren lleol	77
Ffigur 8.5: Pa mor ddefnyddiol oedd darpariaeth Rhwydwaith Seren.....	79
Ffigur 10.1: Y gwahaniaeth yn sgil cymryd rhan yn Rhwydwaith Seren	93
Ffigur 10.2: Barn ynghylch sut y bydd cymryd rhan yn helpu cyfranogwyr	94
Ffigur 11.1: Dull Atal Atchweliad a Gwerthuso Seren.....	114

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
AB	Addysg Bellach
BMAT	Prawf Mynediad BioWyddonol
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion
GCA	Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg
GDPR	Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
HEAT	System Tracio Mynediad i Addysg Uwch
HEFCE	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr
HESA	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
LNAT	Prawf Mynediad Cenedlaethol ar gyfer y Gyfraith
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
NPD	Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion
SAB	Sefydliad Addysg Bellach
SAU neu DAU	Sefydliad neu Ddarparwr Addysg Uwch
SHELL	Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
STEMM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth
TEF	Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu
UCAS	Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau
WED	Cronfa Ddata Arholiadau Cymru
WISERD	Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Gorffennaf 2017, penododd Llywodraeth Cymru OB3 Research, ar y cyd â Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) o Brifysgol Caerdydd, i gynnal gwerthusiad o Rwydwaith Seren.
- 1.2 Nod y gwerthusiad yw cynnal gwerthusiad ffurfiannol a gwerthusiad proses o Rwydwaith Seren i fod yn sail i benderfyniadau ynghylch y meini prawf ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc a'r gwaith o ddylunio a chyflawni'r rhaglen ar lefelau cenedlaethol a lleol. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys tair elfen allweddol:
- gwerthusiad ffurfiannol,
 - gwerthusiad proses,
 - paratoi ar gyfer y gwerthusiad terfynol o effaith.
- 1.3 Amcanion cyffredinol y gwerthusiad yw:
- Asesu sut mae pob canolfan Seren yn gweithredu gan gynnwys ystyried y meini prawf ar gyfer ymgysylltu, costau'r rhaglen, lefelau cyfranogi a rhaglen y ddarpariaeth
 - Nodi'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi canolfannau Seren a chyfranogwyr i gyflawn amcanion y fenter
 - Asesu i ba raddau y mae gweithgareddau'r canolfannau yn cyfrannu at amcanion Rhwydwaith Seren
 - Dylunio methodoleg a gwneud argymhellion ar gyfer cynnal gwerthusiad terfynol o effaith y rhaglen.
- 1.4 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn cynnwys cyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn ogystal â phechyn o waith maes gydag ystod o gyfranwyr ym mhob un o'r 11 canolfan Seren. Roedd hefyd yn cynnwys cynnal arolwg o gyfranogwyr, rhieni a chynrychiolwyr o ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) a oedd yn ymwneud â Seren.

Strwythur yr adroddiad hwn

1.5 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn 12 pennod fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o'r fethodoleg werthuso a phroffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolygon
- pennod tri: cyflwyniad i Rwydwaith Seren gan gynnwys y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol, nodau'r rhaglen a'r model cyflawni
- pennod pedwar: adolygiad o ddata cyhoeddedig sy'n nodi'r tueddiadau presennol o ran cyrhaeddiad mewn arholiadau Safon Uwch a cheisiadau a chofrestriadau yn y prifysgolion mwyaf blaenllaw
- pennod pump: canfyddiadau o'r gwaith maes mewn perthynas â cynllun a sail resymegol Rhwydwaith Seren a'r dystiolaeth o angen ar gyfer ymyrraeth
- pennod chwech: canfyddiadau o'r gwaith maes mewn perthynas â'r modelau cyflawni a'r trefniadau rheoli sydd ar waith
- pennod saith: canfyddiadau o'r gwaith maes ynglŷn â lefelau ymwybyddiaeth, dulliau canolfannau o recriwtio ac ymgysylltu â chyfranogwyr, rhieni a lleoliadau addysgol
- pennod wyth: canfyddiadau mewn perthynas â nodweddion darpariaeth pob canolfan a barn ynglŷn â sut mae canolfannau lleol yn gweithio
- pennod naw: canfyddiadau o'r gwaith maes ynghylch sut y mae Rhwydwaith Seren wedi ymgysylltu â SAU
- pennod deg: y gwahaniaeth a wnaeth cymryd rhan yn Rhwydwaith Seren i gyfranogwyr a lleoliadau addysgol
- pennod un ar ddeg: ystyriaeth o ddulliau posibl i'w mabwysiadu wrth ymgymryd â gwerthusiad terfynol o effaith rhwydwaith Seren
- pennod deuddeg: ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer y gwerthusiad hwn.

2. Methodoleg y Gwerthusiad

- 2.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad ac mae'n cynnig barn am gryfder a chyfyngiadau'r dull a fabwysiadwyd. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys proffil o'r cyfranogwyr, rhieni a chynrychiolwyr ysgolion/SAB a ymatebodd i'r tri arolwg ar y we.

Dull

- 2.2 Roedd y gwerthusiad, a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2017, yn cwmpasu'r elfennau canlynol o waith:
- cam cychwynnol gan gynnwys mynychu cyfarfod cychwynnol gyda Grŵp Llywio'r astudiaeth, mynychu cyfarfod cydlynwyr canolfannau Seren ym mis Gorffennaf 2017, cael gafael ar wybodaeth a dogfennau perthnasol mewn perthynas â chanolfannau Seren a pharatoi dogfen cychwyn gwerthusiad
 - ymchwil desg, gan gynnwys adolygiad manwl o lenyddiaeth yn ymwneud â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru a dogfennaeth weithredol y rhaglen
 - adolygiad o ffynonellau data cyhoeddedig sy'n nodi'r tueddiadau presennol o ran cyrhaeddiad mewn arholiadau Safon Uwch, ceisiadau ar gyfer y prifysgolion gorau, cofrestriadau a nifer y myfyrwyr o Gymru a gedwir ar ôl y flwyddyn gyntaf
 - paratoi offerynnau ymchwil, gan gynnwys canllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gydag ystod o gyfranwyr a thri arolwg ar y we i'w defnyddio gyda chyfranogwyr Seren, eu rhieni a chynrychiolwyr ysgolion a SAB sy'n ymwneud â'r fenter. Dyluniwyd yr arolygon ar gyfer cyfranogwyr a rhieni i ddarparu adborth gan y rhai sy'n ymgysylltu â Seren ar hyn o bryd, a'r rhai sydd wedi ymgysylltu â'r fenter yn y gorffennol, ond fe'u hyrwyddwyd yn bennaf i'r rhai a oedd yn ymgysylltu â'r rhaglen y pryd
 - cynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda deg o randdeiliaid polisi a rhanddeiliaid strategol (saith cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru a thri chynrychiolydd o'r ddau asiant a gontractiwyd i gyflawni'r fenter, sef Brilliant Club a Golley Slater)

- cynnal cyfveliadau dros y ffôn gyda chyfanswm o 15 o gynrychiolwyr o 13 SAU. O blith y rhain, roedd pedwar yn gynrychiolwyr o SAU yng Nghymru a 12 yn gynrychiolwyr sefydliadau Grŵp Russell/Ymddiriedolaeth Sutton. Roedd gan y cynrychiolwyr gyfrifoldebau dros recriwtio, allgymorth neu dderbyniadau yn bennaf
- ymgymryd â phecyn o waith maes ansoddol ar draws yr 11 canolfan. Roedd y gwaith maes yn cynnwys:
 - Cyfveliadau gydag 11 o gydlynwyr canolfannau (ac unrhyw staff cymorth lle roedd hynny'n briodol)
 - Cyfveliadau â saith uwch gynrychiolwyr o'r sefydliad lletya neu'r rhwydwaith o ganolfannau. Roedd y rhain yn cynnwys Cadeiryddion Grŵp Strategaeth Canolfannau Seren a/neu reolwr llinell y cydlynnydd
 - Cyfweld â chyfanswm o 77 o gyfranogwyr. O'r rhain roedd 14 yn fyfyrwyr Blwyddyn 12, 60 yn fyfyrwyr Blwyddyn 13 a thri yn gyn-gyfranogwyr
 - Cyfweld â 34 o gynrychiolwyr o ysgolion a SAB a oedd yn ymwneud â'r ganolfan Seren a oedd yn cynnwys grŵp ffocws wedi'i hwyluso gyda chynrychiolwyr o Grŵp Rheoli un o Ganolfannau Seren
 - Arsylwi pum digwyddiad.
- defnyddio tri arolwg dwyieithog ar y we a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru a'u treialu gyda nifer bach o ymatebwyr cyn eu lansio'n llawn. Dosbarthwyd dolen i bob arolwg drwy dudalen Twitter Seren a chan gydlynwyr i ysgolion a cholegau, a gofynnwyd iddynt hefyd ddosbarthu'r arolygon i gyfranogwyr a rhieni. Cafwyd ymatebion gan 168 o gyfranogwyr, 35 o rieni a 23 o gynrychiolwyr SAB/ysgolion.
- cyfweld â phum rhiant naill ai yn ystod ein hymweliadau â'r canolfannau neu drwy drafodaeth ddilynol (gofynnwyd i rieni a oeddent yn fodlon cyfrannu ymhellach fel rhan o'r arolwg ar y we)

- ystyried dulliau posibl o gynnal gwerthusiad terfynol o effaith ar rwydwaith Seren, i gynnwys dulliau Dadansoddi Effaith Wrthffeithiol, a chyflwyno argymhellion ar fethodoleg bosibl i'w mabwysiadu.

Ystyriaethau methodolegol

- 2.3 Nid oedd yn bosibl i'r tîm ymchwil ddosbarthu'r tri arolwg ar y we yn uniongyrchol i gyfranogwyr, rhieni neu gynrychiolwyr ysgolion a SAB gan nad oedd modd rhyddhau'r data cyswllt priodol oherwydd nad yw canolfannau Seren yn casglu data cyswllt yn gyson (nac yn cael y caniatâd angenrheidiol i rannu data o'r fath) ar gyfer cyfranogwyr a'u rhieni. Felly roedd y gwerthusiad yn dibynnu ar gydlynwyr y canolfannau i ddosbarthu'r dolenni gwe i ysgolion a SAB yn ogystal â thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd lefel ymateb dderbyniol i'r arolwg o gyfranogwyr ond roedd yr ymateb i'r ddau arolwg arall yn llai na'r hyn a ddymunwyd. O ganlyniad, dylid cymryd gofal wrth ddehongli data'r arolwg o ysgolion/SAB a'r arolwg o rieni. Er gwaethaf hyn, cafwyd adborth ansoddol gan gynrychiolwyr ysgolion a SAB yn ystod yr ymweliadau â'r canolfannau er mwyn darparu sampl gadarn ar gyfer canfyddiadau'r gwerthusiad. Rhaid cymryd gofal wrth ddehongli barn rhieni a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn, o gofio'r sampl fach a gyfrannodd.
- 2.4 Ni fwriedir i'r adroddiad hwn gynnig asesiad o effaith Rhwydwaith Seren o ran y gwahaniaeth a wnaed i nifer y ceisiadau, y cynigion a'r cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru mewn prifysgolion blaenllaw. Yn hytrach, ei fwriad yw cgynnig tystiolaeth o sut mae canolfannau Seren yn gweithredu o safbwynt y cydlynwyr, yr ysgolion a'r SAB, y cyfranogwyr a'u rhieni. Byddai unrhyw asesiad o effaith y fenter yn gofyn am ddadansoddiad o ddata gwrthffeithiol cadarn ac nid yw hyn wedi'i gynnwys o fewn cwrpas y gwerthusiad hwn.

Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg

- 2.5 Defnyddiwyd tri arolwg ar y we rhwng 18 Medi 2017 a 15 Tachwedd 2017. Cafwyd ymatebion i'r arolwg gan:
- 168 o gyfranogwyr. O blith y rhain, roedd y mwyafrif yn astudio pynciau Safon Uwch ym Mlwyddyn 13 mewn ysgol (110 neu 66 y

cant), roedd 18 (11 y cant) yn astudio pynciau Safon Uwch mewn coleg AB neu chweched dosbarth mewn ysgol ac roedd 31 (19 y cant) yn astudio pynciau Safon Uwch ym Mlwyddyn 12 mewn ysgol

- 35 o rieni. O blith y rhain, roedd gan y mwyafrif blentyn yn astudio pynciau Safon Uwch ym Mlwyddyn 13 (23) neu Flwyddyn 12 (naw) mewn ysgol ac roedd gan dri blentyn yn y brifysgol
- 23 o gynrychiolwyr ysgolion a SAB. O blith y rhain, roedd pawb heblaw un yn gweithio mewn ysgol.

- 2.6 Roedd cyfranogwyr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolygon wedi bod yn ymwneud â phob un o'r 11 canolfan Seren ond roedd nifer yr ymatebion ar gyfer y canolfannau a oedd yn cwmpasu ardaloedd Lliw-Tawe, Castell-nedd Port Talbot/Powys/Pen-y-bont ar Ogwr a'r pum sir a wasanaethwyd gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn isel iawn - dim mwy na chwe ymateb ar gyfer pob ardal. Roedd cynrychiolwyr ysgolion/SAU a gymerodd â'n yn yr arolwg yn cwmpasu naw o'r 11 canolfan Seren (nid Castell-nedd Port Talbot/Powys/Pen-y-bont ar Ogwr na GCA) ond dim ond un ymateb a gafwyd ym mhob achos mewn tair ardal lle roedd canolfan.
- 2.7 Cwblhaodd mwyafrif y cyfranogwyr (139 neu 83 y cant), y rhieni (28) a'r cynrychiolwyr ysgolion a SAB (16) yr arolwg yn Saesneg. Roedd traean (59 neu 35 y cant) o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystyried eu bod yn rhugl yn y Gymraeg ac roedd 16 y cant (26 o ymatebwyr) arall yn gallu siarad eithaf tipyn o Gymraeg.
- 2.8 Roedd dwy ran o dair (108 neu 64 y cant) o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn ferched ac roedd traean (54 neu 32 y cant) yn ddynion. Roedd llond llaw wedi dewis peidio â dweud neu wedi rhoi ateb arall i'r cwestiwn hwn.
- 2.9 Dywedodd mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn fam i'r plentyn (31) a dywedodd pedwar mai hwy oedd tad y plentyn.
- 2.10 Dywedodd y mwyafrif (101 neu 60 y cant) o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg bod ganddynt riant neu warcheidwad a oedd â gradd neu gymhwyster uwch a dywedodd 26 o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg bod

ganddynt gymhwyster ar y lefel hon. Roedd mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg (17 o'r 26) wedi astudio mewn SAU yng Nghymru ac roedd wyth wedi astudio mewn sefydliad y tu allan i Gymru¹. Dim ond un o'r rhain a oedd wedi astudio yn un o sefydliadau Oxbridge.

- 2.11 Mae Tabl 2.1 yn cyflwyno'r math o ysgol yr oedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi ei mynychu ac yn dangos y cafwyd ymatebion gan drawsddoriad o ysgolion.

Tabl 2.1: Y math o ysgol a fynychwyd

	Y Cyfranogwyr a Gymerodd Ran yn yr Arolwg
Cyfrwng Cymraeg	39 (23%)
Dwyieithog	28 (17%)
Cyfrwng Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg	29 (17%)
Cyfrwng Saesneg	70 (42%)
Ddim yn gwybod / Dim ateb	2 (1%)
Cyfanswm	168 (100%)

Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

- 2.12 Roedd mwyafrif (66 y cant neu 110) y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn astudio pynciau Safon Uwch ym Mlwyddyn 13 mewn ysgol a dywedodd yr un gyfran (23) o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg bod eu plentyn yn astudio pynciau Safon Uwch ym Mlwyddyn 13 mewn ysgol. Roedd cyfran lai o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn astudio pynciau Safon Uwch ym Mlwyddyn 12 mewn ysgol (31 neu 19 y cant) neu mewn coleg AB neu chweched dosbarth mewn ysgol (18 neu 11 y cant). Roedd nifer bach (wyth neu 5 y cant) o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg eisoes yn astudio mewn prifysgol ac roedd hyn hefyd yn wir am y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg (roedd gan dri ohonynt blentyn yn astudio mewn prifysgol). O blith yr wyth cyfranogwr a oedd eisoes yn y brifysgol, roedd tri ohonynt yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru ac roedd pump yn astudio y tu allan i Gymru.
- 2.13 Y pynciau Safon Uwch mwyaf cyffredin a astudiwyd gan y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg oedd Mathemateg (97 neu 58 y cant), Cemeg (77

¹ Roedd dau wedi astudio mewn sefydliad yng Nghymru yn ogystal â'r DU.

neu 46 y cant), Gwyddorau Biolegol (68 neu 41 y cant), Hanes (52 neu 31 y cant), Ffiseg (50 neu 30 y cant) a Saesneg (38 neu 23 y cant).

2.14 O ran cymwysterau blaenorol, gofynnodd yr arolwg i'r cyfranogwyr nodi nifer y graddau A* ac A a gawsant yn eu harholiadau TGAU. O blith y 167 o gyfranogwyr a ddarparodd ddata fel rhan o'r arolwg:

- Roedd 69 y cant (116 o gyfranogwyr) wedi cael o leiaf 10 gradd A* neu A yn eu harholiadau TGAU
- Roedd 90 y cant (116 o gyfranogwyr) wedi cael o leiaf 8 gradd A* neu A yn eu harholiadau TGAU
- Roedd 10 y cant (17 o gyfranogwyr) wedi cael 7 gradd A* neu A neu lai yn eu harholiadau TGAU, gyda thri o'r rhain wedi cael llai na 5 gradd A.
- Ar gyfartaledd, roedd pob cyfranogwr a arolygwyd wedi cael ychydig dros 6 gradd A* ac ychydig o dan 4 gradd A yn eu harholiadau TGAU

2.15 O ran proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o ysgolion a SAB (23 i gyd), roedd pawb ond un yn gweithio mewn ysgol. Roedd deg yn gweithio mewn ysgol cyfrwng Saesneg a phedwar mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd y mwyafrif (15) yn Benaethiaid chweched dosbarth tra bod ymatebwyr eraill i'r arolwg yn dal swyddi Dirprwyon/penaethiaid cynorthwyol neu gydlynnydd Mwy Abl a Thalentog (MATH). Roedd maint eu sefydliadau'n amrywio o 500 i 2,000 o ddisgyblion (ac eithrio'r coleg) ac roedd nifer y cyfranogwyr Seren ym Mlwyddyn 13 yn amrywio o dri i 75, gyda chyfartaledd o 15 cyfranogwr.

3. Cyflwyniad i Rwydwaith Seren

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi cyflwyniad i Rwydwaith Seren. Mae'n ystyried:

- Y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol pan ddatblygwyd y rhaglen
- Y cyd-destun SAU y mae'n gweithredu ynddo
- Nodau ac amcanion y rhaglen
- Strwythur a model cyflawni'r rhaglen
- Ei phrif gyflawniadau hyd yma.

Y cyd-destun polisi

3.2 Mae Rhwydwaith Seren wedi'i greu ac yn cael ei gyflawni yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar godi proffil byd-eang Addysg Uwch yng Nghymru², gan wella cyfran y graddedigion sy'n aros yng Nghymru³ ac ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch yn fwy cyffredinol.

3.3 Un o'r amcanion sylfaenol a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yw mynd i'r afael â phrinder cyfleoedd addysgol a gwella safonau mewn ysgolion⁴. Yr hyn sy'n berthnasol i Rwydwaith Seren yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella lefel cyrhaeddiad mewn TGAU a lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng yr holl ysgolion. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi 'anghenion myfyrwyr Cymru a'u galluogi i gymryd rhan mewn addysg uwch⁵. Mae'n cydnabod bod cyfraddau cyfranogi Addysg Uwch ymhlith pobl ifanc o gymunedau difreintiedig yn rhy isel ac y dylid cymryd camau i 'wella canran y myfyrwyr sydd, ar ôl graddio, yn aros yng Nghymru i weithio⁶.

3.4 Yn ei Datganiad Polisi ar Addysg Uwch (2013) mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei gweledigaeth a'i blaenoriaethau ar gyfer y sector yn y dyfodol. Mae

² Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

³ Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru (2013) ar Addysg Uwch. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

⁵ Ibid., t.27

⁶ Ibid., t.27

un o'r amcanion allweddol yn ymwneud ag ehangu mynediad i Addysg Uwch fel bod 'bawb sydd â'r potensial i elwa beth bynnag eu hoed, rhyw, modd a lefel o astudio, gwlad eu tarddiad a'u cefndir'⁷ yn gallu cymryd rhan. Mae'r datganiad polisi hefyd yn nodi y 'dylai prifysgolion yng Nghymru geisio dod yn brif ddewis o ran cyrchfan i fyfyrwyr o Gymru, y DU a phob rhan o'r byd.'⁸.

- 3.5 Rydym o'r farn bod gan Rwydwaith Seren y potensial i wneud cyfraniad tuag at bolisïau Llywodraeth Cymru o ran ehangu mynediad i Addysg Uwch a chyfranogiad yn y maes. Fodd bynnag, gellid ystyried bod y fenter, sydd wedi'i chynllunio i ddewis a chefnogi'r myfyrwyr mwyaf galluog yn academiaidd er mwyn rhoi gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol iddynt a gwella eu siawns o fynd i brifysgolion o fri, yn tywys polisi Llywodraeth Cymru i gyfeiriad ychydig yn wahanol i'r polisiau presennol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ehangu mynediad i Addysg Uwch ymhlith myfyrwyr difreintiedig a chefnogi sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i ddod yn ddewis cyntaf i fyfyrwyr o Gymru a thu hwnt. Mae'n werth nodi hefyd na chyfeirir yn uniongyrchol at Rwydwaith Seren yn unrhyw un o bolisïau addysgiadol neu Addysg Uwch prif ffrwd Llywodraeth Cymru a adolygwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

Polisi ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog (MATH)

- 3.6 Yn 2008, lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a chynghor⁹ ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru ar ddiwallu anghenion addysgol dysgwyr MATH. Mae'r cylchlythyr ar y canllawiau yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i feithrin lefelau cyflawniad uchel ar gyfer pob myfyriwr
- 3.7 Yn 2010, darparwyd cynghor pellach i ysgolion ac awdurdodau lleol drwy 'Cwricwlwm i bob dysgwr'¹⁰. Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi deunyddiau ar gyfer athrawon dysgwyr ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.

⁷ Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru (2013) ar Addysg Uwch. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, t. 15

⁸ Ibid., t.15

⁹ Cyflawni'r Her - Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalented

¹⁰ Cwricwlwm i bob dysgwr; Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2010)

Cyllid myfyrwyr a chyllid addysg uwch

- 3.8 Mae Rhwydwaith Seren yn cael ei gyflawni yn nghyd-destun hinsawdd sy'n newid o ran cymorth i fyfyrwyr a allai ddylanwadu ar benderfyniadau pobl ifanc i symud ymlaen i Addysg Uwch ac o bosibl ar y brifysgol y byddant yn ei dewis.
- 3.9 Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Syr Ian Diamond i arwain adolygiad annibynnol o gyllid addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad ym mis Medi 2016¹¹. Argymhellodd yr adolygiad y dylid ail-weithio'r pecyn cymorth i fyfyrwyr fel bod 'system syml sy'n cydnabod costau cyfannol astudio addysg uwch (AU) i fyfyrwyr' yn cael ei mabwysiadu. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn a chytunodd y dylai'r cymorth i israddedigion ganolbwyntio ar well cymorth cynnal a chadw ar gyfer myfyrwyr amser llawn a rhan-amser¹².
- 3.10 Derbyniodd Llywodraeth Cymru hefyd argymhelliad yr adolygiad y byddai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a fyddai'n cychwyn ar eu cyrsiau AU o ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2018/19 yn gymwys i gael benthyciadau â chymhorthdal i dalu costau llawn ffioedd prifysgol waeth ble y maent wedi penderfynu astudio yn y DU. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru: 'Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod ganddi gyfrifoldeb i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, lle bynnag y maen nhw'n dewis astudio, ac rydym yn derbyn yr argymhelliad y dylai cymorth i fyfyrwyr fod yn gludadwy ac ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis astudio yn unrhyw le yn y DU'¹³.
- 3.11 Mae gan y datganiad hwn oblygiadau pwysig i Rwydwaith Seren gan y bydd y cyfranogwyr yn parhau i allu dewis y brifysgol y maent yn ei ffafrio heb gael eu cyfyngu'n ariannol gan drefniadau cyllid myfyrwyr.

¹¹ <http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?lang=cy>

¹² Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Adolygiad o Gyllid Myfyrwyr a Chyllid Addysg Uwch yng Nghymru t.3 <http://gov.wales/docs/dcells/publications/161117-response-to-recommendations-cy-v2.pdf>

¹³ Ibid., t.10

Cyd-destun SAU

- 3.12 Yn draddodiadol, mae prifysgolion mwyaf blaenllaw y DU wedi cael eu diffinio fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yng Ngrŵp Russell neu grŵp o 30 Ymddiriedolaeth Sutton. Mae aelodau Grŵp Russell yn cynrychioli 24 o brifysgolion sydd wedi'u hunan-ddethol¹⁴ sy'n cael eu hystyried yn brifysgolion ymchwil blaenllaw ledled y DU. Mae un aelod o'r grŵp yn brifysgol yng Nghymru. Sefydliad elusennol yw Ymddiriedolaeth Sutton a sefydlwyd ym 1997 er mwyn gwella mynediad i bobl ifanc o gefndiroedd incwm isel a chymedrol i'r prifysgolion gorau. Yn 2011, nododd Ymddiriedolaeth Sutton y 30 o brifysgolion mwyaf detholgar yn y DU er mwyn cefnogi myfyrwyr i gael mynediad iddynt. O blith 24 o brifysgolion Grŵp Russell, mae 22 hefyd wedi'u cynnwys yn y grŵp o 30 o brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton, ac eithrio Prifysgol Queen Mary Llundain a Phrifysgol Queen's Belfast. Mae wyth prifysgol yn ymddangos yn 30 o brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton nad ydynt yn aelodau o Grŵp Russell¹⁵.
- 3.13 Mae amryw o dablau cynghrair prifysgolion hefyd yn chwarae rhan wrth ddiffinio prifysgolion blaenllaw'r DU - gyda phob un yn mabwysiadu gwahanol fethodolegau ar gyfer creu safleoedd prifysgol. Maent yn cynnwys The Complete University Guide a luniwyd gan Mayfield University Consultants, The Times Higher Education World University Rankings, rhestr safleoedd prifysgolion Quacquarelli Symonds (QS) a thabl cynghrair y Guardian.
- 3.14 Yn ogystal, mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) a gyflwynwyd yn ddiweddar sy'n asesu ansawdd addysgu israddedig ar draws SAU yn ddull arall o ddiffinio prifysgolion blaenllaw. Dyfarnwyd gwobr aur, arian, efydd neu dros dro i bob SAU a gymerodd ran yn yr asesiad¹⁶. Ar ôl iddo gael ei dreialu

¹⁴ Prifysgol Birmingham, Prifysgol Bryste, Prifysgol Caergrawnt, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Durham, Prifysgol Caeredin, Prifysgol Caerwysg, Prifysgol Glasgow, Coleg Imperial Llundain, King's College Llundain, Prifysgol Leeds, Prifysgol Lerpwl, Ysgol Economeg a Gwyddorau Gwleidyddol Llundain, Prifysgol Manceinion, Prifysgol Newcastle, Prifysgol Nottingham, Prifysgol Rhydychen, Prifysgol Queen Mary Llundain, Prifysgol Queen's Belfast, Prifysgol Sheffield, Prifysgol Southampton, Coleg Prifysgol Llundain, Prifysgol Warwick a Phrifysgol Caerefrog

¹⁵ Prifysgol Caerfaddon, Prifysgol Caerhirfryn, Prifysgol Caerlŷr, Prifysgol Reading, Holloway Brenhinol, Prifysgol Llundain, Prifysgol St Andrews, Prifysgol Strathclyde a Phrifysgol Surrey

¹⁶ <http://www.hefce.ac.uk/lt/tef/data/>

yn 2016, mae'n debyg y bydd mwy o brifysgolion yn cymryd rhan yng nghynllun dyfarnu'r TEF yn y blynnyddoedd i ddod.

Ymchwil Llysgennad Oxbridge

- 3.15 Sefydlwyd Rhwydwaith Seren i ymateb yn uniongyrchol i'r angen i atal y gostyngiad yn nifer y ceisiadau llwyddiannus a wneir gan fyfyrwyr yng Nghymru i Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Yn ystod 2013, cafodd Paul Murphy AS, cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ei benodi'n Llysgennad Oxbridge ar ran Llywodraeth Cymru a rhoddwyd iddo'r gorchwyl o ymgymryd â gwaith ymchwil i ddeall y ffactorau a oedd yn gyfrifol am y gostyngiad a chyflwyno cyfres o argymhellion i fynd i'r afael â'r materion hyn. Canfu'r adolygiad nad oedd Cymru yn elwa ar gael nifer bach o ysgolion a oedd yn cyflenwi nifer bach o ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt fel yr oedd yn digwydd mewn rhanbarthau eraill yn y DU. I fynd i'r afael â'r materion sylfaenol hyn, yn ei adroddiad terfynol argymhellodd Llysgennad Oxbridge y 'dylid sefydlu rhwydwaith genedlaethol o hybiau partneriaeth. Dylai'r rhain sicrhau bod ysgolion a cholegau'n gallu dysgu oddi wrth ei gilydd, a rhannu adnoddau i gefnogi eu myfyrwyr mwyaf galluog yn academiaidd'. Arweiniodd yr argymhelliad hwn at osod y sylfeini ar gyfer sefydlu Rhwydwaith Seren.

Nodau ac amcanion Rhwydwaith Seren

- 3.16 Mae Rhwydwaith Seren yn canolbwyntio ar gefnogi'r myfyrwyr Safon Uwch mwyaf disglair yn academiaidd i gael graddau uwch a chyrhaeddiad gwell a mynd ymlaen i brifysgolion mwyaf blaenllaw'r DU, y cyfeirir atynt yn aml fel y rhai yng Ngrŵp Russell/30 o brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton. Yn wreiddiol cafodd nodau'r fenter eu diffinio gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

'Nod y Rhwydwaith Seren yw ysbrydoli myfyrwyr ynglŷn â'u dyheadau a rhoi cymorth i fyfyrwyr ac athrawon i sicrhau y gall pobl ifanc disgleiriaf Cymru gyrraedd eu potensial a chael eu derbyn i brifysgolion gorau'r DU.'¹⁷

- 3.17 Mae'r rhaglen yn ceisio cyflawni nifer o amcanion, gan gynnwys:

¹⁷ Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Estyn am y sêr: Rhwydwaith Seren a cheisiadau i Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt o Gymru' t.4

- Herio myfyrwyr i ymestyn eu gwybodaeth y tu hwnt i'r cwricwlwm Safon Uwch, drwy gynnal gweithdai ar bynciau penodol;
- Cynnig cyngor ymarferol a chymorth ar wneud cais UCAS a pharatoi ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau;
- Cysylltu myfyrwyr â phrifysgolion gorau'r DU, gan roi gwybodaeth am gyrsiau, ysgolion haf a gweithdai;
- Cefnogi ysgolion ac athrawon o ran darparu gwybodaeth, cyngor a gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr disglair¹⁸.

3.18 Fel y dangosir yn Ffigur 2.1, mae Rhwydwaith Seren yn cynnwys 11 o ganolfannau daearyddol sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Lansiwyd tair canolfan beilot gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ym mis Ionawr 2015¹⁹ ar gyfer ardaloedd Sir y Fflint/Wreccsam, Abertawe a Rhondda Cynon Taf/Merthyr Tudful. Dewiswyd yr ardaloedd hyn fel ardaloedd peilot ar y sail eu bod eisoes wedi dangos arferion da o ran cynorthwyo myfyrwyr i wneud cais am leoedd ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Yn achos canolfan Abertawe, er enghraifft, roedd y rhwydwaith yn adeiladu ar fenter HE+ a oedd yn bodoli eisoes²⁰.

3.19 Sefydlwyd y naw canolfan arall yn ystod 2015/16, gyda'r olaf yn cael ei sefydlu ym mis Tachwedd 2016. Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau'n gwbl weithredol erbyn y flwyddyn academiaidd 2016/17 a dywedwyd bod mwy na 2,000 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn Seren yn ystod 2016/17²¹. Bydd rhaglen academiaidd lawn yn cael ei darparu gan bob un o'r 11 canolfan am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn academiaidd 2017/18.

3.20 Mae ffiniau daearyddol y canolfannau'n amrywio. O blith yr 11 canolfan, mae pedair yn canolbwyntio ar un ardal awdurdod lleol, mae pump yn cwmpasu

¹⁸ Ibid., t.4

¹⁹ <http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/Seren/oxbridge-project/news-and-events/Seren-supporting-wales-brightest/?lang=cy>

²⁰ Prosiect cydweithredol rhwng Prifysgol Caergrawnt a'i Cholegau yw HE+, sy'n gweithio gydag ysgolion a cholegau mewn 14 rhanbarth o'r DU, gyda'r nod o annog a pharatoi mwy o fyfyrwyr sy'n alluog yn academiaidd i wneud ceisiadau cystadleuol i'r prifysgolion gorau, gan gynnwys Prifysgol Caergrawnt.

²¹ Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Estyn am y sêr: Rhwydwaith Seren a cheisiadau i Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt o Gymru' t.2 <https://seneddresearch.blog/2017/07/06/reach-for-the-stars-the-seren-network-and-welsh-oxbridge-applications/>

dwy ardal awdurdod lleol ac mae un yn cwmpasu pum ardal awdurdod lleol. Mae'r sefydliadau lletya ar gyfer pob canolfan Seren yn cynnwys naw awdurdod lleol, un consortiwm addysgol rhanbarthol a choleg AB.

- 3.21 Fel y pwysleisiwyd yn araith y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau yn ystod y digwyddiad lansio, un o fwriadau Seren oedd creu ateb cynaliadwy, hirdymor i her gymhleth ac anodd. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y bydd y canolfannau'n creu system lle mae holl ysgolion a cholegau Cymru yn dysgu oddi wrth ein gilydd ac yn rhannu adnoddau i gefnogi eu myfyrwyr mwyaf galluog yn academaidd.

Ffigur 3.1 Lleoliad yr 11 o ganolfannau Seren



Strwythur a model cyflawni

- 3.22 Mae pob canolfan Seren yn cynnwys partneriaeth o ysgolion a cholegau Addysg Bellach sy'n manteisio ar fewnbwn gan brifysgolion blaenllaw. Mae pob canolfan yn cael swm cyfartal o gyllid gan Lywodraeth Cymru a dyfarnwyd cyfanswm o £50,000 yr un iddynt am y cyfnod cyflawni cychwynnol, sef dwy flynedd (h.y. £25,000 y flwyddyn).
- 3.23 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i bob un o'r canolfannau wrth iddynt sefydlu eu strwythurau a'u darpariaeth, ar ffurf 'Memorandwm Cydddealltwriaeth'. Roedd y canllawiau hyn yn cwmpasu agweddau megis llywodraethu, cyfrifoldebau cyllido, cyfathrebu a dethol cyfranogwyr. Fodd bynnag, nid oedd wedi'i anelu at roi arweiniad i'r canolfannau ynghylch cynnwys y ddarpariaeth.
- 3.24 Awgrymodd y canllawiau y gallai pob canolfan ystyried mabwysiadu tair lefel o drefniadau llywodraethu, ond roedd yn gwarantu hyblygrwydd i bob canolfan drefnu hyn fel y bo'n briodol:
- Lefel rheolwyr - bwrdd prosiect sy'n cynnwys uwch reolwyr o ddetholiad cynrychioliadol o sefydliadau a fyddai'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn i roi arweiniad a goruchwyliaeth ar lefel uchel
 - Lefel llywio - grŵp llywio yn cynnwys nifer bach o ymarferwyr a fyddai'n datblygu cynlluniau ar gyfer gweithgareddau'r ganolfan
 - Lefel partner - lle y byddai pob partner sy'n ymarferydd yn cwrdd yn rheolaidd, o bosibl yn dymhorol, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gan y grŵp llywio, er mwyn ymgynghori â hwy ar gynigion a meysydd gwaith posibl ar ran y grŵp llywio.
- 3.25 Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob canolfan sefydlu ei pholisïau awdurdodi cyllid ei hun a diffiniodd rai o'r gofynion cyfathrebu y dylai eu mabwysiadu o ran cyfathrebu â myfyrwyr, rhieni ac ysgolion/colegau. Nododd yr arweiniad hefyd fod disgwyl i ganolfannau wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer nodi a dethol myfyrwyr i gymryd rhan a gallent osod eu trothwyon eu hunain o ran cyflawniadau academiaidd cymwys. At hynny, roedd y canllawiau'n awgrymu y gallai

canolfannau ddymuno gwneud presenoldeb yn orfodol ar gyfer nifer cychwynnol o sesiynau er mwyn sicrhau y byddai myfyrwyr yn gwneud dewisiadau gweithredol ynglŷn â pharhau i gymryd rhan.

- 3.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adnoddau ychwanegol i gefnogi Rhwydwaith Seren i gyflawni ei waith dros oes y rhaglen. Cafodd Golley Slater ei gontractio o'r cychwyn i ddarparu gwasanaethau cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus i'r fenter ac mae rôl y cwmni wedi cynnwys darparu cefnogaeth i ddigwyddiadau lansio canolfannau, paratoi deunydd hyrwyddo ac astudiaethau achos yn ogystal â chyflwyno ymgyrch gyfathrebu yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, contractiwyd y Brilliant Club i ddarparu gwasanaethau cymorth ychwanegol ac mae ei waith wedi cynnwys datblygu dwy raglen ar gyfer Cynadleddau Cenedlaethol (Mawrth 2017 a Rhagfyr 2017²²) a chefnogi gwaith y canolfannau (e.e. trefnu siaradwyr gwadd o SAU).

Ymgysylltiad gan gyfranogwyr

- 3.27 Cynyddodd nifer y cyfranogwyr a oedd yn ymgysylltu â chanolfannau Seren o 1,529 yn ystod 2015/16 i 2,059 yn ystod 2016/17. Fel y dangosir yn Nhabl 3.1, mae nifer y cyfranogwyr sy'n ymgysylltu ar lefel canolfan yn amrywio o tua 100 i bron 300 o fyfyrwyr.

²² Ar y cyd â Cazbah

Tabl 3.1: Nifer y Cyfranogwyr fesul canolfan Seren

Canolfan	Blwyddyn Gyntaf - Cohort Blwyddyn 12 (2015/16)	Ail Flwyddyn - Cohort Blwyddyn 12 (2015/16)
Sir y Fflint / Wrecsam	82	107
Lliw-Tawe	291	286
Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful	135	120
Sir Benfro / Sir Gaerfyrddin	304	295
GCA	258	252
Caerdydd	/	174
Castell-nedd Port Talbot, Powys a Phen-y-bont ar Ogwr	240	247
Conwy / Sir Ddinbych	127	122
Ynys Môn / Gwynedd	92	125
Ceredigion	/	109
Bro Morgannwg	/	202
CYFANSWM	1,529	2,059

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Awst 2017)

4. Data Cyhoeddedig

- 4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r tueddiadau o ran y cyrhaeddiad gorau mewn arholiadau Safon Uwch, y ceisiadau i'r prifysgolion gorau a'r cynigion ganddynt, y cofrestriadau yn y prifysgolion gorau a chadw myfyrwyr ar ôl y flwyddyn gyntaf mewn perthynas â disgyblion o Gymru dros y blynyddoedd diwethaf. Y bwriad yw amlinellu ac archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael o ran y sail resymegol ar gyfer ymyrraeth a chyflwyno'r cyd-destun y mae Rhwydwaith Seren yn gweithredu ynddo. Mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o dueddiadau hanesyddol diweddar mewn perthynas â cheisiadau, cynigion a chofrestriadau yn y prifysgolion gorau sy'n cael eu gwneud gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Ni ellir priodoli unrhyw un o'r newidiadau neu'r arsylwadau a drafodir yn y bennod hon i waith Rhwydwaith Seren gan mai dim ond yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18 y daeth y fenter yn gwbl weithredol.

Y cyrhaeddiad gorau mewn arholiadau Safon Uwch

- 4.2 Mae dros un rhan o bump o fyfyrwyr 17 mlwydd oed sydd yn astudio mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru yn ennill y radd uchaf mewn arholiadau Safon Uwch ond bu gostyngiad graddol yng nghyfran y myfyrwyr sy'n cael gradd A neu A* mewn arholiadau Safon Uwch ers cyrraedd penllanw o 25 y cant yn 2009 i'r lefel isaf, sef 22 y cant, yn 2016, fel y dangosir yn Nhabl 4.1.

Tabl 4.1: Canlyniadau Safon Uwch (myfyrwyr 17 mlwydd oed yn unig) yn ôl gradd

Cyrhaeddiad mewn arholiadau Safon Uwch	Gradd A*	Gradd A	Graddau A* ac A
2008/09	ddim ar gael	25%	25%
2009/10	6%	18%	24%
2010/11	6%	18%	24%
2011/12	6%	18%	24%
2012/13	6%	17%	23%
2013/14	7%	17%	24%
2014/15	7%	16%	23%
2015/16	6%	16%	22%

- 4.3 Mae data cyhoeddedig yn dangos bod cyfran y myfyrwyr o Gymru sy'n cael y graddau uchaf mewn arholiadau Safon Uwch yn is nag yn Lloegr (sef 26 y cant²⁴) ac mae'r bwlch hwn wedi ehangu dros amser.

Ceisiadau, cynigion a chofrestriadau ar gyfer Oxbridge

- 4.4 Yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16, gwnaed cyfanswm o 426 o geisiadau gan ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen²⁵ ar gyfer cyrsiau a oedd yn dechrau ym mis Hydref 2016. Roedd hyn yn cyfrif am 3.5 y cant o'r holl geisiadau a wnaed i'r sefydliad yn ystod y flwyddyn honno²⁶. Gwnaed cyfanswm o 101 o gynigion (cyfradd cynigion o 23.7 y cant) a chofnodwyd 86 o dderbyniadau terfynol²⁷ (cyfradd derbyniadau gyffredinol o 20.2 y cant o gymharu â nifer y ceisiadau a wnaed). Mae'r sefydliad yn cyfrifo mai cronfa bosibl yr ymgeiswyr o Gymru ar gyfer 2015/16 oedd 1,320²⁸ felly roedd cyfran y myfyrwyr 'cymwys' a oedd yn gwneud cais i'r brifysgol yn 32.3 y cant tra bod y gyfran o 'fyfyrwyr cymwys' a gafodd gynnig lle yn 7.7 y cant.
- 4.5 O gymharu â rhanbarthau eraill y DU, roedd y gyfradd cynigion ar gyfer ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru ym Mhrifysgol Rhydychen yn ystod 2015/16 yn is na chwech o'r naw rhanbarth yn Lloegr ac roedd y gyfradd derbyniadau yn is na phump o'r naw rhanbarth yn Lloegr fel y dangosir yn Nhabl 4.2.

²³ <https://statswales.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Advanced-Level-and-Equivalent/alevelentriesandresultspupilsaged17only-by-subjectgroup-gender> fel ar 20 Tachwedd 2017

²⁴ <https://www.gov.uk/government/news/guide-to-as-and-a-level-results-for-england-2017> fel ar 2 Chwefror 2018

²⁵

https://public.tableau.com/views/UoO_UG_Admissions/UKRegion?%3Aembed=y&%3Adisplay_count=yes&%3AshowTabs=y&%3AshowVizHome=no [fel ar 20 Tachwedd 2017]

²⁶ Gwnaed cyfanswm o 12,193 o geisiadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU

²⁷ Mae cynnig yn cyfeirio at ymgeiswyr a gafodd gynnig i astudio o'r brifysgol a byddai'n cynnwys ymgeiswyr a wrthododd y cynnig yn ddiweddarach, a aeth i sefydliad gwahanol, a fethodd â bodloni amodau'r cynnig pan gawsant eu canlyniadau ac a gafodd eu gwrthod o'r herwydd, a wrthododd gynnig diwygiedig, neu a dynnodd eu cais yn ôl ar ôl cael cynnig

²⁸ Y rhai a gyflawnodd AAA+ mewn arholiadau Safon Uwch

Tabl 4.2: Cyfraddau cynigion a derbyniadau yn ystod 2015/16 ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ym Mhrifysgol Rhydychen o gymharu â rhanbarthau eraill y DU

	Cyfradd Cynigion (%)	Cyfradd Derbyniadau (%)
Dwyrain Lloegr	27.3%	24.9%
De-ddwyrain Lloegr	26.1%	26.6%
De-orllewin Lloegr	25.6%	22.3%
Llundain Fwyaf	24.4%	20.9%
Swydd Efrog a'r Humber	24.1%	20.5%
Gogledd-ddwyrain Lloegr	23.8%	20.1%
Cymru	23.7%	20.2%
Gogledd-orllewin Lloegr	23.5%	20.6%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	21.9%	19.6%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	21.4%	18.7%
Gogledd Iwerddon	18.9%	16.8%
Yr Alban	18.6%	17.8%

Ffynhonnell: Prifysgol Rhydychen (2017)²⁹

- 4.6 Rhwng 2006/07 a 2012/13, gostyngodd nifer y ceisiadau a wnaed gan ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen, ond ers hynny maent wedi cynyddu, fel y dangosir yn Nhabl 4.3. Gellir gweld patrwm tebyg ar gyfer nifer yr ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru sy'n cael cynnig dros y cyfnod hwn. Ers 2012/13, mae nifer y ceisiadau, y cynigion a'r derbyniadau terfynol a wnaed i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn y sefydliad wedi amrywio.

Tabl 4.3: Ymgeiswyr a derbyniadau ym Mhrifysgol Rhydychen mewn perthynas â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru

	Ceisiadau	Cynigion	Cyfradd Cynigion (%)	Derbyniadau Terfynol	Cyfradd Derbyniadau (%)
2006/07	446	91	20.4%	83	18.6%
2007/08	401	92	22.9%	84	20.9%
2008/09	486	85	17.6%	78	16.0%
2009/10	436	79	18.1%	74	17.0%
2010/11	476	83	17.4%	74	15.5%
2011/12	425	80	18.8%	75	17.6%
2012/13	384	59	15.4%	55	14.3%
2013/14	411	86	20.9%	80	19.5%

²⁹

https://public.tableau.com/views/UoO_UG_Admissions/UKRegion?%3Aembed=y&%3Adisplay_count=yes&%3AshowTabs=y&%3AshowVizHome=no [fel ar 18 Rhagfyr 2017]

2014/15	394	90	22.8%	77	19.5%
2015/16	426	101	23.7%	86	20.2%

Ffynhonnell: Prifysgol Rhydychen (2017)³⁰

- 4.7 Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2015/16, gwnaed 276 o geisiadau gan fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt ar gyfer cyrsiau a oedd yn dechrau ym mis Hydref 2016 neu drwy fynediad gohiriedig i gysiau a oedd yn dechrau ym mis Hydref 2017. Roedd y rhain yn cyfrif am 1.6 y cant o'r holl geisiadau a wnaed i'r sefydliad. Gwnaed cyfanswm o 71 o gynigion (cyfradd cynigion o 25.7 y cant sy'n cynrychioli 1.6 y cant o'r holl gynigion a wnaed gan y sefydliad). Derbyniodd cyfanswm o 57 o fyfyrwyr le i astudio yn y sefydliad (cyfradd derbyniadau o 20.7 y cant) a oedd yn unol â chyfartaledd y sefydliad o 20.6 y cant ar gyfer y DU (gan gynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon) ond yn is na'r cyfraddau derbyniadau ym mhob rhanbarth yn Lloegr. Mae'r gyfran hon hefyd yn llawer is na'r cyfartaledd o 22.6 y cant dros y cyfnod 2008-2012 a gwmpesir gan adroddiad Murphy.
- 4.8 Wrth archwilio'r data dros amser rhwng y blynyddoedd academiaidd neu 2010/11 a 2015/16 nid oes patrwm amlwg i'w weld o ran nifer y ceisiadau, heblaw ei fod yn cyrraedd uchafbwynt yn ystod 2015/16. Mae'r gyfradd llwyddiant wedi amrywio yn yr un modd dros y cyfnod o chwe blynedd a ddangosir yn Nhabl 4.4, gan gyrraedd uchafbwynt yn ystod 2013/14, sef 26 y cant a gostwng i 20.7 y cant erbyn 2015/16.

30

https://public.tableau.com/views/UoO_UG_Admissions/UKRegion?%3Aembed=y&%3Adisplay_count=yes&%3AshowTabs=y&%3AshowVizHome=no [fel ar 20 Tachwedd 2017]

Tabl 4.4: Ceisiadau, cynigion a derbyniadau i Brifysgol Caergrawnt ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru

	Ceisiadau		Cynigion		Derbyniadau a Chyfraddau Llwyddiant		
	Nifer	Fel % o'r holl geisiadau a wnaed i Gaergrawnt	Nifer	Fel % o'r holl gynigion a wnaed gan Gaergrawnt	Nifer	Fel % o'r holl dderbyniadau yng Nghaergrawnt	Cyfradd llwyddiant ³¹ %
2010/11	247	1.6	ddim ar gael	ddim ar gael	57	1.7	23.1
2011/12	269	1.7	ddim ar gael	ddim ar gael	60	1.7	22.3
2012/13	255	1.6	ddim ar gael	ddim ar gael	50	1.5	19.6
2013/14	269	1.6	83	2.0	70	2.0	26.0
2014/15	257	1.6	76	1.8	63	1.8	24.5
2015/16	276	1.6	71	1.6	57	1.6	20.7

Ffynhonnell: Prifysgol Caergrawnt³²

Ceisiadau, cynigion a chofrestriadau i'r prifysgolion gorau eraill

- 4.9 Gan ddefnyddio data Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS), mae'r data a gasglwyd fel rhan o astudiaeth Llysgennad Oxbridge yng Nghymru³³ yn dangos bod tua 78.8 y cant o fyfyrwyr sy'n cael y graddau uchaf yng Nghymru (h.y. y rhai sy'n cael AAA neu uwch mewn arholiadau Safon Uwch) rhwng 2008 a 2013 wedi mynd ymlaen i astudio yn un o brifysgolion Grŵp Russell. Yn gyffredinol, aeth 23.2 y cant o'r rhai a oedd yn cyflawni ar lefel uchel i Brifysgol Caerdydd, aeth 55.6 y cant i un o brifysgolion Grŵp Russell y tu allan i Gymru, aeth 6.2 y cant i brifysgol arall yng Nghymru ac aeth 15 y cant i brifysgol arall yn y DU.
- 4.10 Awgryma'r sylw diweddar yn y cyfryngau³⁴ y bu gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yn un o brifysgolion Grŵp Russell

³¹ Derbyniadau o ran myfyrwyr sy'n hanu o Gymru fel cyfran o'r holl geisiadau a wnaed gan ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru

³² <http://www.undergraduate.study.cam.ac.uk/apply/statistics> [fel ar 20 Tachwedd 2017]

³³ Llysgennad Oxbridge yng Nghymru 'Dadansoddiad o gyrchfannau Addysg Uwch y rhai sy'n cyflawni ar lefel uchel yng Nghymru rhwng 2008-13' S Gallagher (Mehefin 2014) t.4

³⁴ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41097647>

dros y tair blynedd diwethaf. Roedd cyfanswm o 6,900 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf wedi cofrestru yn un o brifysgolion Grŵp Russell yn ystod 2012/13 ond roedd hyn wedi gostwng i 6,260 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn ystod 2015/16 - gostyngiad o 640 o fyfyrwyr neu 10 y cant³⁵. Fodd bynnag, dylai'r lleihad hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun gostyngiad tebyg o 10 y cant yn nifer y myfyrwyr sy'n huanu o Gymru a gofrestrodd ar gyrsiau Addysg Uwch yn fwy cyffredinol yn ystod y cyfnod hwn. Ar ben hynny, dylid ystyried y gostyngiad hefyd yng nghyd-destun gostyngiad ym mherfformiad prifysgolion Grŵp Russell ar draws y tablau cynghrair cenedlaethol – o blith y prifysgolion hynny yng Ngrŵp Russell (ac eithrio Oxbridge) yn Lloegr sy'n agos i Gymru yn ddaearyddol, prin iawn yw'r rhai sydd bellach yn ymddangos yn rheolaidd yn y cohort o brifysgolion gorau yn y tablau cynghrair cenedlaethol³⁶.

Myfyrwyr sy'n huanu o Gymru sy'n mynd i SAU yn y DU

- 4.11 Yn 2015/16 roedd 35,525 o fyfyrwyr o Gymru wedi'u cofrestru ar gyrsiau israddedig Addysg Uwch ar draws SAU yn y DU. O blith y rhain, roedd 18,800 yn astudio ar gyfer gradd gyntaf amser llawn. Er bod nifer y myfyrwyr sy'n huanu o Gymru sydd wedi cofrestru ar gyrsiau israddedig AU wedi gostwng yn raddol ers 2008/09 (o 42,245), mae nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sydd wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau gradd gyntaf amser llawn wedi aros yn debyg (17,570 yn 2008/09)³⁷.
- 4.12 O ran lle yr oeddent yn dewis astudio, dywedodd WISERD y bu gostyngiad yn nifer a chyfran y myfyrwyr israddedig sy'n huanu o Gymru sy'n astudio yng Nghymru: o 75 y cant o'r holl fyfyrwyr israddedig sy'n huanu o Gymru yn 2007/08 (31,320) i 69 y cant yn 2012/13 (27,589)³⁸. Ar gyfer y flwyddyn

³⁵ Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

³⁶ E.e. <https://www.thecompleteuniversityguide.co.uk/league-tables/rankings>; <https://www.theguardian.com/education/ng-interactive/2016/may/23/university-league-tables-2017>

³⁷ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Welsh-Domicile-Enrolments-at-UK-HEIs/firstyearenrolmentsduringtheyearatukheis-by-lefel-modeofstudy-yearofstudy> fel ar 31 Hydref 2017

³⁸ WISERD (2015) Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru, Adroddiad i CCAUC, Caerdydd: WISERD t.10

academaidd 2015/16, dywedodd Llywodraeth Cymru fod dwy ran o bump o israddedigion sy'n hanu o Gymru yn astudio yn Lloegr³⁹.

- 4.13 Mae'r data sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru⁴⁰ sydd wedi cofrestru mewn SAU yn y DU dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014/15 a 2016/17 yn dangos bod 34,740 o fyfyrwyr wedi cofrestru yn un o SAU Cymru (gyda Phrifysgol De Cymru (8,185), Prifysgol Caerdydd (5,855) a Phrifysgol Abertawe (5,430) yn denu'r nifer mwyaf o fyfyrwyr yn ystod y cyfnod hwn). Ar gyfer SAU y tu allan i Gymru, denodd Prifysgol Caer (1,395), Prifysgol Lerpwl John Moores (1,330), Prifysgol Lerpwl (855), Prifysgol Fetropolitan Manceinion (765), Prifysgol Manceinion (695), Prifysgol Caerwysg (700), Prifysgol Bryste (695), Prifysgol Birmingham (590) Prifysgol Plymouth (570) a Phrifysgol Caerfaddon (540) y nifer mwyaf o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

Data Ymgeiswyr UCAS

- 4.14 Mae data a gyhoeddwyd gan UCAS⁴¹ ar nifer y ceisiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18 ar gyfer cyrsiau gyda dyddiad cau ym mis Hydref 2017 ac sy'n dechrau yn rhymor yr hydref 2018 (h.y. y rhan fwyaf o gyrsiau Meddygaeth/Deintyddiaeth/Milfeddygol a chysiau ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt) yn dangos gostyngiad graddol rhwng 2013/14 a 2016/17 yn nifer yr ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru, fel y dangosir yn Nhabl 4.5. Cofnodwyd cynydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru ar gyfer y cyrsiau hyn ar gyfer 2017/2018, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd y cynnydd blyneddol hwn o chwech y cant yn unol â chynnydd tebyg ar lefel y DU⁴².
- 4.15 Gwnaeth y mwyafrif helaeth (99 y cant) o'r ymgeiswyr a oedd yn byw yng Nghymru yn 2017/18 gais i o leiaf un darparwr yn Lloegr (1,420) ac roedd 32 y cant (460) wedi gwneud cais i o leiaf un darparwr yng Nghymru ac 8 y cant (110) wedi gwneud cais i o leiaf un darparwr yn yr Alban.

³⁹ <http://gov.wales/statistics-and-research/students-higher-education-institutions/?lang=cy> fel ar 31 Hydref 2017

⁴⁰ Data HESA a oedd ar gael i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac a rannwyd gyda'r tîm ymchwil

⁴¹ <https://www.ucas.com/file/130736/download?token=EDhCX9xV> fel ar 20 Tachwedd 2017.

⁴² Ar lefel y DU cofnodwyd cynnydd o 8 y cant o 14,450 yn ystod 2016/17 i 15,620 yn ystod 2017/18.

Tabl 4.5: Nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a wnaeth gais am gyrsiau yn ystod 2017/18 gyda dyddiad cau ym mis Hydref 2017

	Nifer
2013/2014	1,480
2014/2015	1,400
2015/2016	1,370
2016/2017	1,360
2017/2018	1,440

Ffynhonnell: UCAS⁴³

- 4.16 Wrth ystyried y data ar gyfer cyrsiau Meddygaeth yn unig, gwelwyd tueddiad at i lawr tebyg yn nifer yr ymgeiswyr rhwng 2013/14 a 2016/17, gyda chynnydd bach iawn o 2 y cant rhwng 2016/17 a 2017/18 o'i gymharu ag 8 y cant yn gyffredinol ledled y DU⁴⁴, fel y dangosir yn Nhabl 4.6.

Tabl 4.6: Nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a wnaeth gais am gyrsiau meddygaeth yn ystod 2017/18 gyda dyddiad cau ym mis Hydref 2017

	Nifer
2013/14	710
2014/15	660
2015/16	570
2016/17	570
2017/18	580

Ffynhonnell: UCAS⁴⁵

Casgliadau

- 4.17 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod sail resymegol clir ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargedu at gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n gwneud cais am le, ac sy'n sicrhau lle, i astudio yn un o sefydliadau Oxbridge, o gofio tanberfformiad Cymru o'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU. O ran y sefyllfa waelodlin yn ystod 2015/16, gwnaeth 702 o fyfyrwyr gais i astudio yn Oxbridge a derbyniodd 143 o fyfyrwyr le yno. Dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2013/14 a 2015/16, derbyniodd 435 o fyfyrwyr le i astudio yn Oxbridge.
- 4.18 Mae'r dystiolaeth ar gyfer ymyrraeth yn llai pendant ar gyfer cefnogi myfyrwyr i gael lle yn y prifysgolion gorau eraill, o gofio bod tri chwarter y

⁴³ <https://www.ucas.com/file/130736/download?token=EDhCX9xV> fel ar 20 Tachwedd 2017.

⁴⁴ Ar lefel y DU cofnodwyd cynnydd o 8 y cant o 14,450 yn ystod 2016/17 i 15,620 yn ystod 2017/18.

⁴⁵ <https://www.ucas.com/file/130736/download?token=EDhCX9xV> fel ar 20 Tachwedd 2017.

myfyrwyr sy'n cyflawni ar y lefel uchaf eisoes yn cofrestru yn un o brifysgolion Grŵp Russell ond mae'r duedd at i lawr yn nifer yr ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio ar gyfer Meddygaeth yn awgrymu bod angen ymyrraeth wedi'i thargedu i gefnogi myfyrwyr sy'n ymgeisio am leoedd penodol, cystadleuol mewn prifysgolion.

5. Cynllun, Sail Resymegol a Thystiolaeth o Angen

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried:

- Nodau ac amcanion Rhwydwaith Seren, eu priodoldeb a sut mae'r rhain wedi newid dros amser
- Barn y cyfranwyr ar gynllun a sail resymegol y fenter
- I ba raddau y mae'r rhaglen wedi ategu ymyriadau presennol.

Nodau ac Amcanion

5.2 Roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr at y gwerthusiad hwn (yn enwedig swyddogion Llywodraeth Cymru, cydlynwyr Canolfannau a chynrychiolwyr ysgol/SAU) yn aml yn sylwi mai un o nodau sylfaenol Seren oedd annog cyfranogwyr i anelu'n uwch, codi'u dyheadau a rhoi'r hyder iddynt deimlo'n 'ddigon da' i wneud cais i brifysgolion o fri. Awgrymwyd yn gyson hefyd bod Seren yn ymwneud ag 'ehangu gorwelion' pobl ifanc, a oedd mewn rhai achosion yn golygu eu hannog i ystyried gwneud cais i ystod ehangach o sefydliadau mwy cystadleuol nag y byddent wedi'i hystyried fel arall. Ar gyfer rhai canolfannau, roedd hyn yn golygu 'agor llygaid myfyrwyr' i sefydliadau gwahanol i'r rhai a oedd yn lleol iddynt.

5.3 Derbyniwyd yn gyffredinol gan bob math o gyfrannwr a gymerodd ran yn y gwerthusiad, gan gynnwys cyfranogwyr a rhieni, fod Seren yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhai â chyrhaeddiad academiaidd uchel, fel yr aseswyd gan eu graddau TGAU. Fodd bynnag, nid oedd nifer bach o gynrychiolwyr SAU o reidrwydd yn derbyn yr amcan hwn, gan awgrymu y dylai Seren gefnogi'r rhai o 'gefndiroedd difreintiedig' i astudio mewn addysg uwch. Roedd y rhan fwyaf o swyddogion Llywodraeth Cymru, Cydlynwyr Canolfannau a chynrychiolwyr ysgolion/SAB yn cytuno bod y gynulleidfa darged ar gyfer Seren yn briodol er bod nifer bach yn cwestiynu a ddylai'r fenter fabwysiadu meini prawf i ddethol y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig yn unig. At hynny, roedd nifer o'r cyfranwyr (yn enwedig ysgolion a chyfranogwyr) o'r farn y byddai darpariaeth Seren yr un mor ddefnyddiol i fyfyrwyr Safon Uwch eraill a oedd, yn eu barn hwy, yn llai tebygol o bontio i AU na chyfranogwyr Seren. Yn wir, dadleuodd sawl ysgol, SAB a chyfranogwr fod llawer o

fyfyrwyr a oedd wedi cyflawni canlyniadau TGAU ychydig yn is na'r trothwy a osodwyd yn lleol ar gyfer eu canolfan yn ystyried gwneud cais i brifysgolion yng Ngrŵp Russell neu Ymddiriedolaeth Sutton ac y gallent elwa o'r cymorth a oedd ar gael.

- 5.4 Datgelodd y gwaith maes ddiffyg consensws ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar draws Llywodraeth Cymru, SAU, cydlynwyr canolfannau a'u rheolwyr llinell, ysgolion a chynrychiolwyr SAB a rhywfaint o amwysedd ynghylch nodau ac amcanion y fenter o ran y 'nod terfynol' ar gyfer cyfranogwyr. I ryw raddau awgrymwyd bod mwy o eglurder dros amser ond roedd gan rai o swyddogion Llywodraeth Cymru, SAU a chynrychiolwyr ysgolion/SAB bryderon ac amheuan ynghylch y prifysgolion targed yr oedd Seren yn canolbwyntio arnynt.
- 5.5 Roedd pob math o gyfrannwr⁹ (gan gynnwys cyfranogwyr, rhieni, cydlynwyr canolfannau, ysgolion a chynrychiolwyr SAB) hefyd yn pwysleisio'n gyffredin mai un o amcanion sylfaenol Seren oedd darparu profiadau uwch-gwricwlaidd i gyfranogwyr a fyddai'n eu rhoi mewn sefyllfa gryfach i ymgeisio am leoedd mewn Addysg Uwch ac astudio yn y maes, gan fynd i'r afael â rhai o'r 'bylchau' y credwyd eu bod yn bodoli yn y cwricwlwm addysgol presennol. Yn hyn o beth, cydnabuwyd yn eang gan gynrychiolwyr ysgolion a SAB y byddai Seren yn canolbwyntio ar ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol sydd eisoes ar gael i fyfyrwyr Mwy Abl a Thalentog (MATH).
- 5.6 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru, ysgolion a chynrychiolwyr SAB yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno canolfannau lleol hefyd yn cydnabod mai un o agweddau hollbwysig Seren oedd datblygu capasiti a gwybodaeth ymarferwyr addysgol i allu cefnogi disgyblion yn well yn eu sefydliadau eu hunain.
- 5.7 Mynegwyd barn fwy cymysg gan yr holl gyfranwyr ynghylch a ellid disgwyl i Seren wneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad cyfranogwyr mewn arholiadau Safon Uwch, gyda llawer o gydlynwyr, ysgolion a chynrychiolwyr SAB o'r farn bod hyn yn amcan afrealistig ar gyfer y fenter tra bod eraill yn dadlau nad oedd erioed wedi bod yn amcan yn y lle cyntaf.

Cynllun a Sail Resymegol

- 5.8 Awgrymodd adborth gan randdeiliaid fod Seren wedi'i sefydlu mewn ymateb i ymgyrch wleidyddol yn hytrach na'i bod yn fenter sy'n deillio o bolisi Llywodraeth Cymru. Yn hyn o beth, nodwyd bod Seren yn dilyn trywydd polisi eithaf diddorol a gwahanol i'r hyn a amlinellwyd ym mholisiau addysg ac ehangu mynediad Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd adeg ei sefydlu.
- 5.9 Ers ei sefydlu, mae'r cyfrifoldeb dros Rwydwaith Seren wedi symud o'r Adran Addysg i'r Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL) o fewn Llywodraeth Cymru a gofynnodd rhai rhanddeiliaid a oedd hyn wedi bod yn briodol. Awgrymodd ychydig o randdeiliaid fod y fenter yn dal i fod yn 'faes polisi cyfnewidiol' ac nid yw wedi'i ymgorffori'n ddigonol o fewn polisiau cyfredol Llywodraeth Cymru. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod hyn yn gryfder gan ei fod wedi cynnig cryn hyblygrwydd i'r fenter 'gael ei thraed dani' yn ystod y cyfnod ymsefydlu ond yn gyffredinol derbyniwyd y gellid adlewyrchu Seren yn well ym mholisiau prif ffrwd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a bod angen egluro'r cysylltiadau â pholisiau MATH.
- 5.10 O ran ei sail resymegol sylfaenol, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr o Lywodraeth Cymru, ysgolion, SAB a'r rhai'n ymwneud â darparu canolfannau Seren yn cyfeirio at y ffaith bod yr angen am Seren wedi ei seilio i raddau helaeth ar ddata Oxbridge a'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais i astudio yn y sefydliadau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y dengys adroddiad Murphy. Ar lefel fwy lleol, awgrymodd y gwaith maes fod yr angen am Seren yn amrywio'n ddaearyddol a thrwy nodweddion yr ysgolion/SAB. Er enghraifft, roedd cydlynwyr a chynrychiolwyr ysgolion/SAB ar draws canolfannau yn y cymoedd yn fwy tebygol nag eraill o bwysleisio bod gan y cyfranogwyr ddyheadau is o ran Addysg Uwch tra bod yr un math o gyfranwyr o ganolfannau yn y de-orllewin yn fwy tebygol o nodi bod myfyrwyr yn llai tebygol o fod yn barod i deithio ymhell i fynychu AU, gan ddewis yn hytrach SAU ar hyd coridor yr M4.
- 5.11 Nodwyd yn gyffredin bod Seren wedi datblygu'n gyflym yn ystod y cyfnod cynllunio a sefydlu i gwmpasu agenda llawer ehangach na dim ond cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru yn sefydliadau Oxbridge, yn bennaf oherwydd bod rhaglen gyflawni a oedd yn canolbwyntio ar Oxbridge yn unig yn cael ei

hystyried yn rhy elitaidd ac arbenigol. Yn wir, awgrymodd sawl rhanddeiliad fod yr agenda wedi cael ei hehangu cyn cyhoeddi adroddiad Murphy a bod ffocws y fenter bob amser wedi cynnwys SAU Grŵp Russell ac Ymddiriedolaeth Sutton.

- 5.12 Awgrymodd y gwaith maes gyda'r rhai sy'n ymwneud â chanolfannau lleol, er bod y cysyniad gwreiddiol ar gyfer Seren wedi bod yn seiliedig ar sefydliadau Grŵp Russell/Ymddiriedolaeth Sutton, roedd y ffocws o ran cyflawni wedi ymwneud â 'chael lle i gyfranogwyr ar y cwrs gorau iddyn nhw' bob tro. Canfu'r gwaith maes hefyd bod consensws cyffredin bod Seren yn ymwneud â 'chyfeirio myfyrwyr tuag at y prifysgolion gorau' ond derbyniwyd bod diffinio sefydliad a chyrsgiau 'tariff uchel' neu 'ddetholgar' neu 'flaenllaw' yn fwy goddrychol. Yn fwy diweddar, gwelwyd bod yr SAU targed hefyd wedi dod i gynnwys sefydliadau tariff uchel y tu allan i'r DU e.e. sefydliadau yng Nghynghrair Ivy⁴⁶.
- 5.13 Ategodd yr adborth gan gyfranwyr a oedd yn ymwneud â chyflawni nodau Seren y darlun cymysg hwn. Ystyriwyd mai blaenoriaeth sylfaenol i Seren oedd sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn astudio yn sefydliadau Oxbridge, ond bod cefnogi disgyblion i astudio mewn prifysgolion neu ar gyrsgiau tariff uchel eraill yn amcan yr un mor amlwg i'r rhai a oedd yn ymwneud â chyflawni gweithgareddau'r canolfannau.
- 5.14 Credwyd bod y ffaith bod swyddogion Llywodraeth Cymru a'r rhai a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth yng nghanolfannau Seren yn derbyn yn gynyddol bod Seren yn ymwneud â chefnogi'r disgyblion academaidd mwyaf disglair i sicrhau lle mewn sefydliadau blaenllaw a/neu ar gyrsgiau tariff uchel yn arwain at oblygiadau mawr o ran y dull y gellid ei fabwysiadu i werthuso gwir effaith Seren o gofio y bydd diffinio'r canlyniadau hyn yn heriol. Yn wir, dadleuwyd yn aml gan fod diffinio sefydliadau blaenllaw yn rhywbeth goddrychol iawn, bod y meini prawf gwreiddiol a fabwysiadwyd i ddewis y brifysgol yng Ngrŵp Russell ac Ymddiriedolaeth Sutton yn 'hen ffasiwn o bosibl' bellach. Awgrymwyd y dylai dulliau eraill, megis y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (y TEF) a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr

⁴⁶ Wyth sefydliad Addysg Uwch o Ogledd-ddwyrain yr Unol Daleithiau.

(HEFCE), hefyd gael eu hystyried ar gyfer y dyfodol wrth i'r fframwaith gael ei gydnabod a'i ddefnyddio'n well.

- 5.15 Trafododd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr o Lywodraeth Cymru, ysgolion/SAB a'r rhai sy'n ymwneud â rheoli a chyflwyno'r ddarpariaeth yng nghanolfannau Seren a ddylai SAU Cymru fod yn rhan o Seren gan ystyried y tensiwn posibl a allai godi yn sgil eu cynnwys. Yn wir, gwelwyd y gallai eu cyfranogiad wanbau llwyddiant Seren, pe bai llwyddiant y fenter yn cael ei fesur yn nhermau nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Grŵp Russell neu Ymddiriedolaeth Sutton.
- 5.16 Canfu'r gwaith maes fod canolfannau Seren yn ddibynnol iawn ar SAU Cymru i gefnogi eu darpariaeth yn lleol ac mae adborth yn awgrymu bod eu cyfranogiad yn cefnogi, yn hytrach na llesteirio, Rhwydwaith Seren i gyflawni ei amcanion. Er nad oedd yr SAU yng Nghymru a gyfwelwyd yn gyfforddus iawn gyda'r ffaith bod Seren yn canolbwyntio ar brifysgolion Grŵp Russell/Ymddiriedolaeth Sutton, roedd eu pryderon wedi lleihau dros amser yn sgil gallu ymgysylltu â chanolfannau lleol. Dadleuodd rhai cyfranwyr ei bod 'fwy na thebyg yn iawn' bod SAU yng Nghymru wedi gallu ymgysylltu â Seren, er nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu amcanion y fenter neu wedi'u nodi fel buddiolwyr a dargedwyd.
- 5.17 Maes arall sy'n achosi tensiwn mewn perthynas â chynllun Seren a godwyd yn ystod y gwaith maes oedd priodoldeb amcan y fenter o annog myfyrwyr o Gymru i astudio y tu allan i Gymru. Nid oedd rhai o'r ysgolion, SAB a SAU a gyfwelwyd yn teimlo'n gyfforddus iawn ynghylch y cysyniad hwn ac roedd wedi creu heriau i rai canolfannau lleol gan fod eu sefydliadau partner yn cael eu rhwygo rhwng yr angen i godi dyheadau myfyrwyr ar y naill law a cheisio cadw myfyrwyr i astudio a gweithio'n lleol ar y llaw arall.

Cyfatebolrwydd y ddarpariaeth

- 5.18 Datgelodd y gwaith maes, yn gyffredinol, y credwyd bod darpariaeth canolfannau Seren yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at ymyrraeth bresennol a oedd eisoes ar gael ar draws ysgolion a cholegau, ond gwelwyd bod lleiafrif o ysgolion a cholegau eisoes yn cynnig profiadau tebyg i'w myfyrwyr.

- 5.19 Dadleuodd y cyfranwyr a oedd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ar draws y canolfannau fod Seren wedi bod yn allweddol o ran ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol, gyda'r lefel fwyaf o werth ychwanegol yn bodoli ar gyfer ysgolion nad oedd ganddynt record arbennig o gryf neu gynnig ar waith i gynorthwyo myfyrwyr i wneud cais i sefydliadau Oxbridge. Efallai fod hyn ar ei fwyaf amlwg ym Mro Morgannwg lle yr ystyriwyd bod gan rai ysgolion gysylltiadau cryf iawn â sefydliadau Oxbridge a Grŵp Russell ac ystyried felly bod y prif werth ychwanegol ar gyfer yr ysgolion hynny nad oedd ganddynt gysylltiadau o'r fath. Awgrymodd y rhai a oedd yn ymwneud â'r rhwydwaith lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr ysgolion, yn ogystal â SAU a oedd wedi bod yn ymwneud â'r ganolfan, fod Seren wedi creu 'sefyllfa gyfartal' rhwng ysgolion a cholegau yn hyn o beth.
- 5.20 Awgrymodd cynrychiolwyr ysgolion a SAU fod rhai elfennau o ddarpariaeth Seren (megis dosbarthiadau meistr academiaidd a mynediad i gynrychiolwyr SAU) yn ychwanegu'r gwerth mwyaf at eu hysgolion a'u colegau, gan mai prin iawn oedd yr elfennau hyn a ddarparwyd gan yr ysgolion a'r colegau eu hunain. Credwyd bod dull gweithredu Seren o ddod â disgyblion o wahanol ysgolion ynghyd hefyd yn ychwanegu gwerth, yn enwedig o ran y ffordd y gallai hyn gynnig cyfleoedd i ddisgyblion mwy 'ynysig' rwydweithio a helpu i oresgyn yr hyn a ystyriwyd yn arbenigedd a chapasiti anghyson ar draws rhwydwaith cymorth ysgolion a cholegau. At hynny, pwysleisiwyd bod Seren wedi creu strwythur clir a chyson ar gyfer darpariaeth, er enghraifft:
- 'nid oedd dim byd pendant ar gael o'r blaen. Gwnaethom rywfaint o waith yn ein hysgol ni, ond mae Seren wedi ei atgyfnerthu, gan ehangu'r cwmpas a'i ymestyn'.
- 5.21 Credwyd mai'r prif faes o ran dyblygu oedd mewn perthynas â chynghor ar wneud cais i SAU, gan gynnwys cynghor ar gwblhau datganiadau personol, o gofio bod rhai ysgolion a cholegau a gyfrannodd at y gwerthusiad yn dweud eu bod eisoes yn darparu'r math hwn o gymorth i'r holl ddisgyblion yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn symud ymlaen i Addysg Uwch. Hefyd, gwelwyd bod perygl i ddarpariaeth Seren ddyblygu darpariaethau eraill sydd eisoes ar gael megis arddangosfeydd rhanbarthol UCAS ar Addysg Uwch. Mewn rhai achosion, roedd sefydliadau partner canolfannau wedi gwneud penderfyniad

i beidio â chanolbwyntio ar faterion cyllid myfyrwyr gan fod ysgolion a cholegau eisoes yn ymdrin yn ddigonol â hyn.

- 5.22 Roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr ysgolion a cholegau a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn yn croesawu'r cynnig ychwanegol y gallai eu disgyblion fanteisio arno o gofio bod y gofynion arnynt, fel Pennaeth Chweched Dosbarth fel arfer, i gynorthwyo disgyblion yn feichus ac yn dreth ar amser. Roeddent hefyd yn cydnabod nad oedd ganddynt hwy, fel athrawon, y wybodaeth neu'r arbenigedd priodol bob tro i gynghori disgyblion, yn enwedig os nad oedd fawr ddim neu ddim o'u myfyrwyr wedi gwneud cais i sefydliadau Oxbridge o'r blaen. Ar y cyfan, dim ond ambell gynrychiolydd ysgolion a gyfwelwyd a oedd o'r farn mai prin oedd y gwerth yr oedd Seren yn ei ychwanegu at yr hyn a ddarparwyd ganddynt eisoes - roedd y rhain yn tueddu i fod yn achosion lle roedd ysgolion yn ystyried bod ganddynt eisoes nifer iach o fyfyrwyr sy'n symud ymlaen i brifysgolion da neu ysgolion nad oedd ganddynt unrhyw fyfyrwyr a oedd yn ystyried gwneud cais i Oxbridge.
- 5.23 Mae'r canfyddiadau'r arolwg o gynrychiolwyr ysgol/SAB yn ategu'r safbwyntiau hyn:
- Roedd 19 o'r ymatebwyr yn cytuno bod y ddarpariaeth Seren a oedd ar gael drwy eu canolfan leol yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at yr hyn a oedd ar gael yn eu hysgol neu goleg
 - Roedd saith o'r ymatebwyr o'r farn bod Seren wedi disodli'r ddarpariaeth a oedd ar gael o'r blaen. Awgrymwyd y byddai ysgolion, yn yr achosion hyn, wedi cynnig y ddarpariaeth yn fewnol eu hunain
 - Roedd saith o'r ymatebwyr o'r farn bod Seren wedi dyblygu'r ddarpariaeth a oedd eisoes ar gael i ddisgyblion yn eu hysgol neu goleg. Yn hyn o beth, awgrymwyd bod darpariaeth Seren yn cynnig 'cyfleoedd ychwanegol' i ddisgyblion a oedd eisoes wedi cael cymorth gydag 'ymarfer ar gyfer cyfweliad a chymorth gyda datganiad personol' yn yr ysgol.
- 5.24 Ar draws tair ardal y canolfannau lle y bu rhywfaint o ddarpariaeth debyg yn y gorffennol, dadleuwyd bod cyflwyno Seren wedi galluogi partneriaid i ehangu'r ddarpariaeth (fel arfer i fwy o ysgolion neu golegau) a'u galluogi i

gryfhau ac ehangu eu cysylltiadau â nifer ehangach o SAU, nid sefydliadau Oxbridge yn unig.

6. Model cyflawni a rheoli

- 6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y model cyflawni a fabwysiadwyd ar draws canolfannau Seren gan gynnwys eu ffiniau, y defnydd o gyllid, trefniadau llywodraethu a chydweithio. Mae hefyd yn ystyried y trefniadau cenedlaethol a sefydlwyd i reoli Seren gan gynnwys rôl Llywodraeth Cymru, trefniadau monitro ac adrodd, y Rhwydwaith cydlynwyr a'r defnydd o ddarparwyr dan gontract.

Ffiniau'r Canolfannau

- 6.2 Yn y mwyafrif o achosion, roedd yr ystod eang o gyfranwyr i'r gwerthusiad hwn o'r farn bod y ffiniau daearyddol a sefydlwyd ar gyfer yr 11 canolfan wedi bod yn briodol a bod y trefniadau a fabwysiadwyd yn ymddangos fel pe baent yn gweithio o safbwynt ysgolion, colegau a chyfranogwyr. Yn gyffredinol, datgelodd y gwaith maes nad oedd unrhyw neges glir ynghylch a oedd y canolfannau hynny a oedd yn canolbwyntio ar un awdurdod lleol neu'r rhai a oedd yn cwmpasu dwy ardal awdurdod lleol neu fwy yn perfformio yn well na'r llall o ran diwallu anghenion cyfranogwyr ac ysgolion/SAB ond roedd eu nodweddion a'u trefniadau llywodraethu'n amrywio.
- 6.3 Awgrymodd yr arolwg o gynrychiolwyr ysgolion/SAB (17 o ymatebwyr) fod y ffiniau daearyddol a osodwyd ar gyfer eu canolfan leol yn briodol. Dim ond un a oedd yn anghytuno ac nid oedd gan bump ohonynt farn y naill ffordd neu'r llall. Roedd y prif faterion a godwyd mewn perthynas â ffiniau daearyddol yn ymwneud ag amseroedd teithio hir a phellteroedd maith, a oedd yn creu problemau i'r ysgolion hynny nad oeddent wedi'u lleoli'n ganolog o fewn ardal y ganolfan ddiffiniedig.
- 6.4 Yr unig eithriad oedd canolfan Castell-nedd Port Talbot/Pen-y-bont ar Ogwr/Powys lle nad oedd y rhai a gyfwelwyd yn ystyried ei bod yn briodol neu'n gweithio mor effeithiol â'r lleill. Mae diffyg data arolwg gan gyfranogwyr, rhieni neu gynrychiolwyr ysgolion/SAB sy'n ymwneud â'r ganolfan hon yn ei gwneud hi'n anodd cadarnhau'r farn hon ond efallai bod y ffaith nad yw'r ganolfan hon wedi aeddfedu i'r un graddau ag eraill yn brawf ynddo'i hun. Derbyniwyd bod y model hwn wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â ffiniau un SAB, sy'n pontio'r ffin rhwng Powys a Chastell-nedd Port Talbot, yn

hytrach nag unrhyw sail resymegol strategol arall. Ystyriwyd bod y ganolfan wedi wynebu heriau sylweddol o ran sefydlu darpariaeth, gyda nifer o gyfranwyr lleol yn cyfeirio at ansicrwydd cychwynnol ynghylch yr hyn y dylai'r ganolfan fod yn ei ddarparu. Er yr awgrymwyd bod y cynnydd wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, roedd yn dal i fod yn her cynnig darpariaeth ddi-dor ar draws yr ardal gyfan. Yn gyffredinol, derbyniwyd bod ffin y ganolfan yn rhy eang yn ddaearyddol ac y byddai'n elwa o gael ei hadolygu.

- 6.5 Dywedodd y rhanddeiliaid na ddylai'r heriau a wynebir gan ganolfan Castell-nedd Port Talbot/Pen-y-bont ar Ogwr/Powys arwain at ddiystyru'r cysyniad o ganolfan 'ranbarthol' gan fod y profiadau ar draws canolfan y GCA yn Neddwyrair Cymru yn llawer mwy positif o gymharu. Credwyd mai'r prif ffactorau a oedd i gyfrif am lwyddiant un model 'rhanbarthol' o'i gymharu â'r llall oedd ffin ranbarthol fwy cydlynol a oedd yn cyd-fynd â ffin y sefydliad arweiniol a dyblygu'r un rhaglen o ddarpariaeth mewn sawl lleoliad ar draws yr ardal.
- 6.6 Ac eithrio yn achos y GCA, sef y sefydliad sy'n lletya'r ganolfan Seren, ystyriwyd bod cyfraniad consortia addysgol eraill yn eithaf prin ac felly nid oedd y cyfranwyr a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn eu canolfan leol yn ystyried bod cyfatebiaeth o ran ffiniau consortia addysgol wedi cael unrhyw ddylanwad sylweddol ar ddarpariaeth Seren.

Cydweithio rhwng canolfannau

- 6.7 Datgelodd y gwaith maes rywfaint o dystiolaeth o gydweithio ar draws canolfannau Seren ac roedd hyn yn fwyaf amlwg ar draws y tri lleoliad yng ngogledd Cymru. Yn y rhanbarth hwn cyfarfu'r cydlynwyr o'r tair canolfan yn rheolaidd i drafod eu darpariaeth arfaethedig, i ddatblygu prosesau cyffredin (e.e. ffurflen ganiatâd gyffredin i gyfranogwyr) a chaniatáu i gyfranogwyr o ganolfannau cyfagos fynychu digwyddiadau'r canolfannau. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys cydweithio rhwng canolfannau Rhondda Cynon Taf/Merthyr Tudful a Chaerdydd a Bro Morgannwg.
- 6.8 Hyd yma mae cydweithio wedi cael ei ysgogi gan gydlynwyr y canolfannau ac mae wedi canolbwyntio ar gynnig cyfleoedd i gyfranogwyr o ganolfannau cyfagos fynychu digwyddiad a drefnwyd gan ganolfan arall. Mewn rhai

achosion, mae cydlynwyr canolfannau mwy hirsefydlog wedi darparu cyngor a chymorth i ganolfannau newydd yn ystod eu cyfnod sefydlu.

- 6.9 Derbyniwyd yn gyffredinol, er mai datblygiad cymharol ddiweddar oedd cydweithio rhwng canolfannau, bod hyn yn flaenoriaeth i Seren yn y dyfodol agos. Awgrymwyd y gellid gwneud mwy o ymdrech i gynllunio darpariaeth ar y cyd a lledaenu gwybodaeth am ddigwyddiadau canolfannau mewn ffordd fwy trefnus e.e. sicrhau bod gwybodaeth am bob digwyddiad mewn canolfannau ar gael drwy un wefan Seren.
- 6.10 Yn gyffredinol, nid oedd yr adborth gan y cyfranogwyr a'r rhieni a gyfwelwyd yn dangos bod llawer o dystiolaeth eu bod wedi gallu cael mynediad i unrhyw ddarpariaeth Seren o ganolfannau cyfagos ac eithrio un rhiant â phlentyn a oedd yn astudio yn Rhondda Cynon Taf a ddywedodd fod ei merch wedi gallu ymuno mewn digwyddiad a gynhaliwyd mewn ysgol yng Nghaerdydd gan ei bod yn un o gyfranogwyr Seren. Yn wir, roedd y cyfranogwyr a gyfwelwyd a oedd yn byw ger ffin eu canolfan yn dweud yn achlysurol y byddai wedi bod yn fwy cyfleus iddynt fynychu digwyddiadau a gynhaliwyd yn eu canolfan gyfagos, ond nad oeddent wedi cael y cyfle i wneud hynny.

Cyllid Seren

- 6.11 Canfu'r gwaith maes fod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio gan ganolfannau lleol at amrywiaeth o ddibenion:
- Mae pob canolfan yn defnyddio'r cyllid i dalu am y costau teithio sy'n gysylltiedig â chludo cyfranogwyr i ddigwyddiadau lleol
 - Mae pob canolfan yn defnyddio'r cyllid i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau (e.e. mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu talu am leoliad, ond mewn ardaloedd eraill roedd yn cynnwys costau arlwy)
 - Mewn o leiaf bum achos, defnyddir y cyllid naill ai i gyflogi neu contractio gwasanaethau cydlynnydd pwrpasol
 - Dywedodd y rhan fwyaf o ganolfannau eu bod yn defnyddio'r cyllid i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â chludo cyfranogwyr i ddiwrnodau

Prifysgol, cyrsiau preswyl a'r Gynhadledd Seren genedlaethol a gynhaliwyd yng nghanolbarth Cymru

- Mewn o leiaf ddwy ganolfan, mae'r sefydliad arweiniol wedi dyrannu cyllid i gael cymorth gweinyddol i'r Cydlynnydd penodedig. Yn nodweddiadol, mae'r unigolion hyn yn dyrannu nifer bach o oriau'r wythnos i Seren
- Mewn o leiaf ddwy ganolfan, defnyddiwyd y cyllid i brynu adnoddau ar gyfer cyfranogwyr e.e. prynu'r cyhoeddiad 'Oxford: A very short introduction'
- Mewn o leiaf ddau achos, defnyddiwyd y cyllid i dalu am ffioedd a/neu gostau teithio siaradwyr gwadd a oedd yn mynychu digwyddiadau'r canolfannau
- Mewn un achos, dyrannwyd cyllid i gomisiynu hyfforddiant i athrawon a oedd yn golygu cynnal deuddeg o sesiynau hyfforddi i staff addysgu ar offer dysgu a pharatoi ar gyfer arholiadau.

6.12 Darperir buddsoddiad sylweddol ar ffurf nwyddau gan sefydliadau lletya a phartneriaid eraill megis ysgolion a SAB i 'gryfhau' yr adnoddau sydd ar gael ar lefel canolfannau unigol. Er y bu'n amhosibl i'r astudiaeth hon gasglu data ariannol am werth y buddsoddiad hwn ar ffurf nwyddau, yn y rhan fwyaf o ganolfannau, roedd y cyfraniad ar ffurf nwyddau gan ysgolion a SAB yn cynnwys:

- mynychu cyfarfodydd rheoli a chyfarfodydd strategol Seren a chyfrannu atynt
- cydgysylltu a chyfathrebu â chyfranogwyr a rhieni ar ran y cydlynnydd y ganolfan
- cyfrannu at gynnal digwyddiadau llwyddiannus, gan gynnwys cludo cyfranogwyr i ddigwyddiadau ac, ar adegau, cyfrannu at y digwyddiadau eu hunain
- darparu safleoedd er mwyn cynnal digwyddiadau yn rhad ac am ddim.

- 6.13 Yn ogystal, mae SAU yn neilltuo swm sylweddol o gefnogaeth ar ffurf nwyddau i fenter Seren o ran mynychu digwyddiadau lansio yn ogystal â darparu dosbarthiadau meistr a sesiynau gwybodaeth ac arweiniad eraill. Gellid dadlau y byddai rhywfaint o'r ymrwymiad hwn wedi bod ar gael yn flaenorol i ysgolion unigol fel rhan o waith allgymorth a recriwtio SAU. Fodd bynnag, mae adborth gan SAU a gyfwelwyd yn awgrymu bod Seren wedi arwain at gynnydd yn yr adnoddau y mae SAU blaenllaw yn eu dyrannu i Gymru yn awr, yn bennaf drwy eu hymdrechion mewn perthynas â gwaith allgymorth a recriwtio.
- 6.14 Roedd y cyfranwyr a oedd yn ymwneud â chydgyssylltu canolfannau lleol yn ystyried bod buddsoddiad ariannol cychwynnol Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol o ran 'sefydlu'r ganolfan' gan ei fod yn eu galluogi i oresgyn unrhyw gyfyngiadau ariannol y gallai ysgolion a cholegau eu hwynebu mewn perthynas ag ymwneud â'r fenter. Cydnabuwyd yn gyffredinol bod lefel y cyllid a ddarparwyd dros y cyfnod o ddwy flynedd yn fach ond yn ddigonol serch hynny ar gyfer y rhan fwyaf o ganolfannau. Yn wir, mewn rhai achosion cyfeiriodd rhanddeiliaid at danwariant gan nifer bach o ganolfannau nad oeddent yn dibynnu ar yr arian i dalu costau'r cydlynnydd neu'r lleoliad.
- 6.15 Roedd y ddwy brif thema arall yn ymwneud â chyllid a godwyd yn ystod y gwerthusiad yn ymwneud â swm yr arian a ddyrannwyd fesul ardal a gofynion cyllido hirdymor. Nodwyd er bod y dull gor-symf a fabwysiadwyd ar hyn o bryd i ddyfarnu swm cyfartal o arian i'r canolfannau wedi bod yn briodol ar y cychwyn, awgrymodd ambell un o swyddogion Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg canolfannau lleol bod angen mireinio hyn ar gyfer y dyfodol i ystyried ffactorau megis nifer y cyfranogwyr a gefnogir ar draws pob canolfan a chostau ychwanegol cyflwyno darpariaeth ar draws ardal wledig fawr. O ran gofynion cyllido yn y dyfodol, cyflwynodd y cyfranwyr a oedd yn ymwneud â chanolfannau lleol ddadl gref y byddai angen cylch arall o gymorth ariannol i sicrhau parhad hirdymor darpariaeth Seren, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle roedd y ganolfan ond wedi bod yn weithredol am ryw flwyddyn. Mynegwyd peth pryder y gallai gweithgaredd canolfannau ddiflannu pe bai cyllid yn cael ei dynnu'n ôl yn rhy gynnar yn eu hanes.

Rôl y cydlynnydd

- 6.16 Mewn dwy ganolfan, mae rôl y cydlynnydd yn rôl sy'n cael ei chyflawni ar y cyd gan fwy nag un person gan fod y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol. Mewn un o'r achosion hyn, mae pedwar unigolyn yn ymgymryd â'r rôl gydag un yn gweithredu fel cydlynnydd arweiniol. Ym mhob achos arall, mae rôl y cydlynnydd yn cael ei chyflawni gan un unigolyn, naill ai ar sail gyflogedig neu dan gontract.
- 6.17 Yn gyffredinol, dadleuodd y rhanddeiliaid fod arbenigedd ac ymrwymiad y cydlynnydd wedi bod yn allweddol i lwyddiant neu fethiant canolfan leol, a bod hyn wedi cael mwy o ddylanwad na ffactorau eraill, megis y math o sefydliad lletya. Roedd o leiaf ddau gydlynnydd yn raddedigion Oxbridge eu hunain ac roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod hyn wedi bod o fantais. Yn fwy cyffredinol, dywedodd un cyfrannwr:
- 'mae cryfder a phersonoliaeth cydlynnydd y ganolfan yn allweddol, mae angen iddynt fod yn llawn brwdfrydedd'.
- 6.18 Ystyriwyd mai'r prif gyfyngiad ar rôl y cydlynnydd oedd yr amser y gallai unigolyn ei neilltuo i'r rôl. Yn aml, roedd dyletswyddau'n gysylltiedig â Seren yn un o lawer o gyfrifoldebau a gyflawnwyd gan y cydlynwyr. O ganlyniad, datgelodd y gwaith maes fod yr amser yr oedd pob cydlynnydd Seren yn ei ymrwymo yn amrywio.

Llywodraethu

- 6.19 Roedd mwyafrif helaeth y cyfranwyr a gafodd eu cyfweld yn ystod yr ymweliadau â'r canolfannau yn meddwl bod trefniadau llywodraethu priodol ac effeithiol ar waith i reoli'r ddarpariaeth yn y ganolfan leol. Roedd nifer o gyfranwyr o'r fath wedi croesawu canllawiau Llywodraeth Cymru ar y materion hyn yn ystod y cyfnod sefydlu. Awgrymwyd hefyd fod y memoranda cyd-ddealltwriaeth a fabwysiadwyd ar y cychwyn gan sefydliadau partner wedi helpu i gadarnhau rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid.
- 6.20 Ym mhob canolfan ond un lle roedd y sefydliad arweiniol yn gyfrifol am y ddarpariaeth gynllunio, adroddwyd bod ysgolion a cholegau partner yn cwrdd yn rheolaidd i gynllunio'r ddarpariaeth ar y cyd ac ystyriwyd bod hyn yn gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o ganolfannau. Yn y ganolfan lle nad oedd

gwaith cynllunio ar y cyd yn digwydd i'r un graddau, awgrymwyd nad oedd y sefydliad arweiniol wedi llwyr goleddu'r egwyddorion yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhwydwaith Seren. Mewn canolfan arall, gwelwyd bod y ffin ddaearyddol fawr yn ei gwneud yn anodd i bartneriaid fynychu cyfarfodydd grŵp llywio ac nad oedd presenoldeb da gan aelodau o bob ardal awdurdod lleol o ganlyniad.

Rôl Llywodraeth Cymru

- 6.21 Roedd mwyafrif helaeth y cyfranwyr ar draws y canolfannau Seren yn cymeradwyo penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Rhwydwaith Seren ac roeddent yn ganmoliaethus am y gwaith paratoi cychwynnol a wnaed i helpu i sefydlu canolfannau lleol. Mewn sawl achos credwyd bod hyn wedi cynnwys cefnogaeth amhrisiadwy i helpu i drefnu digwyddiadau lansio canolfannau ac i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gan wahanol bartneriaid a sefydliadau lletya. Roedd llawer o'r cyfranwyr o'r farn bod y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i roi cryn dipyn o ddisgresiwn i ganolfannau lleol ddatblygu eu dull gweithredu a'u rhaglen eu hunain yn gryfder.
- 6.22 Er gwaethaf hyn, roedd cryn dipyn o'r cyfranwyr a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth mewn Canolfannau lleol yn feirniadol o'r diffyg cyfarwyddyd ac arweiniad mewn perthynas â gweithredu a chyflawni a gynigwyd i ganolfannau lleol ers hynny, gyda rhai yn priodoli hyn i brinder staff o fewn tîm Llywodraeth Cymru.
- 6.23 Derbyniwyd yn gyffredinol bod gan Lywodraeth Cymru rôl o ran pennu fframwaith gweithredu cyffredin ar gyfer Rhwydwaith Seren ar gyfer y dyfodol, ar yr amod na fyddai hyn ar draul gallu cyflwyno darpariaeth hyblyg a fyddai'n diwallu anghenion cyfranogwyr ar lefel leol. Awgrymwyd y gallai'r fframwaith gweithredu hwn gynnwys pennu'r gofynion cyfranogi sylfaenol a chytuno arnynt e.e. nifer y digwyddiadau neu'r oriau y byddai disgwyl i'r cyfranogwyr eu mynychu er mwyn cael tystysgrif presenoldeb, a fframwaith monitro ac adrodd cyffredin.

Cyfarfodydd cydlynwyr Rhwydwaith Seren

- 6.24 Mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr canolfannau, ond nid pob un, yn mynychu cyfarfodydd cydlynwyr Rhwydwaith Seren sy'n cael eu cynnal bob mis yng nghanolbarth Cymru. Roedd y mwyafrif o gydlynwyr a oedd wedi mynychu'r cyfarfodydd yn ystyried eu bod yn werthfawr ond roedd nifer bach o'r farn eu bod yn llai defnyddiol. At ei gilydd, ystyriwyd bod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol er mwyn rhannu profiadau, yn enwedig o ran y cydlynwyr mwyaf profiadol yn rhannu syniadau gyda'r rhai sydd â llai o brofiad. Gwelodd ambell un fod y grŵp yn gweithio'n fwy effeithiol dros amser:
- 'Rydym nawr wedi dechrau deall ein gilydd fel grŵp a rhannu ein gobeithion a'n hofnau yn ehangach'.
- 6.25 O ran ymestyn defnyddioldeb y cyfarfodydd, awgrymwyd y byddai'r cydlynwyr yn gwerthfawrogi mwy o gyfleoedd i rwydweithio'n anffurfiol â'i gilydd. Awgrymwyd hefyd y gallai'r agenda ganolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â phroblemau penodol e.e. casglu data monitro cyfranogwyr, cyfleoedd cydweithio yn ogystal â nodi arferion da. At hynny, awgrymwyd y gallai fod lle i ddefnyddio fideo-gynadledda mewn rhai cyfarfodydd i leihau'r gofynion teithio ar gyfer cydlynwyr.

Casglu data ac adrodd arnynt

- 6.26 Credwyd mai un gwendid mawr ar draws Rhwydwaith Seren oedd diffyg prosesau cyffredin i gasglu data a gwybodaeth am gyfranogwyr er mwyn caniatáu unrhyw archwiliad ystyrlon o setiau data'r cyfranogwyr. Ar lefel canolfannau, mae data cyfranogwyr (e.e. cyflawniadau mewn arholiadau TGAU, presenoldeb mewn digwyddiadau Seren a cheisiadau i SAU) yn aml yn cael eu cadw gan wahanol bartneriaid ar draws ystod o wahanol ffynonellau ac nid ydynt fel arfer yn cael eu casglu mewn un set ddata a reolir gan y cydlynwyr. Yn gyffredinol, nid oes gan ganolfannau brosesau ar waith i ganiatáu olrhain taith cyfranogwr pan fydd wedi gorffen ymwneud â'r rhaglen.
- 6.27 Yn absenoldeb unrhyw brosesau cyffredin, mae canolfannau unigol wedi ceisio defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys:

- Yn ddiweddar, mae rhai canolfannau wedi gofyn i'r cyfranogwyr lenwi ffurflenni cofrestru yn eu digwyddiad Seren cyntaf a chasglu manylion disgyblion a rhieni a bydd cydlynnydd y ganolfan yn cadw'r data hwn
- Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau'n ceisio cadw cofnod o faint o gyfranogwyr sy'n mynychu digwyddiadau amrywiol ac, mewn rhai achosion, yn casglu gwybodaeth am bwy a fynychodd (mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan yr ysgolion/colegau mewn rhai achosion a chan y cydlynnydd mewn achosion eraill - nid yw'n bob amser yn cael ei rhannu)
- Mae rhai canolfannau wedi ceisio creu cronfa ddata o gyfranogwyr Seren gyda'r bwriad o'i phoblogi yn ystod y flwyddyn, ond mewn un achos adroddwyd bod y gronfa ddata yn 'anghyflawn'
- Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i gydlynwyr canolfannau ddibynnu ar dderbyn data dienw, wedi'i gyfuno gan ysgolion a cholegau, tra bod eraill yn gallu cael gafael ar ddata adnabyddadwy er mwyn casglu tystiolaeth am berfformiad y ganolfan a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Mewn un achos, dywedodd cydlynnydd y ganolfan ei fod wedi cael mynediad i gronfeydd data cynhwysfawr yn ddiweddar gan bob ysgol a choleg ar gyrhaeddiad y cyfranogwyr mewn arholiadau UG
- Dywedodd nifer o ganolfannau fod ganddynt brosesau ar waith i gasglu adborth gan gyfranogwyr ynghylch ansawdd a pherthnasedd y digwyddiadau a fynychwyd ganddynt gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella'r ddarpariaeth.

6.28 O ran y math o ddata a oedd ar gael i'r gwerthuswyr, canfuwyd bod rhai canolfannau'n gallu rhannu gwybodaeth am nifer y cyfranogwyr a oedd wedi mynychu amrywiol ddigwyddiadau ond mewn achosion eraill roedd gan gydlynwyr canolfannau gronfa ddata ganolog a oedd yn cynnwys enwau'r cyfranogwyr a'r digwyddiadau yr oeddent wedi'u mynychu. Adeg ein gwaith maes, roedd y rhan fwyaf o ganolfannau hefyd yn gallu rhannu data ar nifer y cyfranogwyr Seren a oedd wedi gwneud cais i astudio yn sefydliadau Oxbridge ac ar gyfer cyrsiau meddygol, deintyddol a milfeddygol (a gallai rhai

ddarparu ffigurau cymharol ar gyfer ceisiadau a chofrestriadau'r flwyddyn academaidd flaenorol).

- 6.29 Roedd un ardal wedi cynnal dadansoddiad manwl o'i chohort cyntaf o gyfranogwyr Seren a oedd yn dangos bod 4 y cant o'r rhai a gofrestrodd mewn sefydliadau Addysg Uwch wedi cael lle yn un o sefydliadau Oxbridge a bod 63 y cant wedi cael lle yn un o 30 o brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton. Roedd y cyfranogwyr a oedd yn weddill wedi cael lle mewn prifysgol arall yng Nghymru (20 y cant) neu mewn prifysgol arall yn Lloegr neu'r Alban nad oedd yn rhan o grŵp Ymddiriedolaeth Sutton (17 y cant).
- 6.30 Nid oedd gan y canolfannau a sefydlwyd yn fwyaf diweddar unrhyw ddata ar gynigion neu gofrestriadau AU gan fod eu cohort cyntaf ym Mlwyddyn 13 ar hyn o bryd ac ni fyddent yn cofrestru yn y brifysgol tan hydref 2018. At hynny, prin iawn oedd y data a oedd ar gael ar draws y canolfannau ar gadw cyfranogwyr mewn Addysg Uwch. Lle roedd tystiolaeth ar gael, roedd yn anecdotaidd iawn.
- 6.31 Rhoddwyd dau reswm am y diffyg casglu data ac adrodd presennol. Yn gyntaf, nododd cynrychiolwyr y canolfannau lleol nad oedd Llywodraeth Cymru erioed wedi gofyn i'r canolfannau hynny fabwysiadu unrhyw brosesau casglu data cyffredin na rhannu unrhyw ddata am gyfranogwyr gyda hwy fel cyllidwyr. O ganlyniad, mae pob canolfan wedi cyflawni'r gwaith mewn gwahanol ffyrdd ac wedi rhoi gwahanol raddau o flaenoriaeth iddo. Dywedodd ambell un ei fod wedi ymateb i geisiadau ad-hoc am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru e.e. data ar nifer y ceisiadau i sefydliadau Oxbridge. Roedd ambell gydlynnydd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â rhai o'r canolfannau, wrthi'n adolygu prosesau casglu data ar gyfer y fenter ac yn croesawu dull gweithredu cyffredin ar gyfer y dyfodol.
- 6.32 Yn ail, adroddwyd bod rhai sefydliadau'n amharod i rannu data gyda sefydliad lletya Seren. Mewn un canolfan o'r fath, nid oedd y gydlynnydd yn gallu cael mynediad i ddata am gyfranogwyr gan ysgolion partner oherwydd eu hamharodrwydd i rannu data. Awgrymwyd y gellid goresgyn yr heriau hyn pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau llymach ar y data am gyfranogwyr y mae'n rhaid eu casglu a'u rhannu gyda chydlynnydd y ganolfan.

Brilliant Club⁴⁷

- 6.33 Mae'r graddau y mae canolfannau lleol wedi ymgysylltu â gwasanaethau a chymorth y Brilliant Club wedi amrywio, gyda chanolfannau mwy newydd yn ymgysylltu'n fwy na rhai sydd wedi'u hen sefydlu, yn gyffredinol. Mae'r adborth yn awgrymu bod cynrychiolwyr o'r Brilliant Club wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau lansio canolfannau ac wedi hwyluso gweithdai yn y rhain, yn ogystal â rhannu adnoddau gyda Rhwydwaith Seren.
- 6.34 Mae rhai canolfannau wedi manteisio ar fewnbwn y Brilliant Club wrth drefnu digwyddiadau lleol megis digwyddiad i gyfranogwyr ar ddull Cornell o gymryd nodiadau tra bod eraill wedi cwestiynu'r gwerth ychwanegol y gallai'r darparwr ei gynnig iddynt. Yn wir, awgrymodd cynrychiolwyr y canolfannau hyn ei bod yn well ganddynt ddefnyddio eu cysylltiadau AU a'u hadnoddau mewnol eu hunain i gynnal digwyddiadau, yn hytrach na'r rhai sydd ar gael drwy'r Brilliant Club.
- 6.35 Lle mae canolfannau wedi ymgysylltu â'r Brilliant Club, mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr (gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, SAU a chydlynwyr) yn credu ei fod wedi darparu gwasanaeth da i Seren. Er enghraifft, dywedodd dwy ganolfan eu bod yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau â SAU a rannwyd â hwy a gwnaeth canolfan arall sylwadau cadarnhaol am y gwaith ymgysylltu a wnaeth gyda blynyddoedd 9 a 10 yn eu hardal. Gwnaeth ychydig o gyfranwyr sylwadau cadarnhaol am raglen y Gynhadledd Genedlaethol yr oedd y Brilliant Club wedi'i threfnu a'i hwyluso ym mis Mawrth 2017, gydag un yn crynhoi ei gyfraniad fel a ganlyn:
- 'mae'n broffesiynol a slic iawn - mae wedi gwneud gwyrthiau i Seren. Mae gan ei bobl nhw angerdd'.
- 6.36 Roedd y brif feirniadaeth a fynegwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth y darparwr o Gymru a diffyg darpariaeth yn y Gymraeg. Dywedodd un cyfrannwr o'r fath:

⁴⁷ Sefydlwyd y Brilliant Club yn 2011 fel elusen i gefnogi disgyblion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i symud ymlaen i brifysgolion detholgar iawn. Gweler <http://www.thebrilliantclub.org/>

'dydyn nhw ddim yn deall y gofynion o gwbl o ran natur yr ardal a'r nawws ieithyddol ... mae popeth yn uniaith Saesneg gyda nhw'.

Hyrwyddo a Chyfathrebu

- 6.37 Dros gyfnod y gwerthusiad, casglwyd peth adborth am yr ymdrechion hyrwyddo a chyfathrebu cenedlaethol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru drwy ei contractiwr, Golley Slater. Roedd ymwybyddiaeth weddol dda ymhlith y cydlynwyr o'r ymdrechion a wnaed i hyrwyddo'r fenter drwy'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, ond roedd gan ysgolion, colegau, rhieni a chyfranogwyr lai o wybodaeth am yr ymdrechion hyn, o bosibl oherwydd lefelau isel o ymwybyddiaeth a defnydd.
- 6.38 Awgrymwyd bod y fenter wedi gallu sefydlu brand cadarnhaol yn ystod ei chyfnod cyflawni cychwynnol ond y byddai'n cymryd peth amser i hyn gael ei adnabod yn well ymysg y cynulleidfaoedd targed. Awgrymodd rhai y byddai'n ddefnyddiol pe bai pob canolfan wedi mabwysiadu'r brand 'Seren', gan ddweud bod un yn parhau i ddefnyddio ei hunaniaeth flaenorol fel menter HE+⁴⁸.
- 6.39 Lle roeddent yn teimlo eu bod yn gallu gwneud sylwadau, roedd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r rhai a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth mewn canolfan farn gadarnhaol am y gwaith a wnaed gan y contractiwr: 'Mae Golley Slater wir eisiau i'r rhaglen lwyddo ac mae wedi arwain ar elfen gyfathrebu'r rhaglen'.
- 6.40 Er gwaethaf hyn, roedd ambell gyfrannwr yn ymwybodol iawn, hyd yn oed er gwaethaf ymdrechion cyfathrebu eang y fenter, bod y cyfryngau'n parhau i ganolbwyntio ar y nifer o fyfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais i sefydliadau Oxbridge ac yn cofrestru ynddynt.

⁴⁸ <https://www.gcs.ac.uk/news/college-launches-he-new-academic-year> [fel ar 14 Tachwedd 2017]

7. Ymwybyddiaeth, recriwtio ac ymgysylltu

- 7.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes yn nhermau rhesymau'r cyfranogwyr dros ymgysylltu â Seren a sut y cawsant eu nodi a'u recriwtio, y meini prawf dethol a fabwysiadwyd ar draws canolfannau Seren a phresenoldeb mewn digwyddiadau. Mae'r bennod hefyd yn archwilio themâu megis dulliau cyfathrebu canolfannau Seren a lefelau ymwybyddiaeth ymhlith gwahanol grwpiau megis ysgolion, SAB, cyfranogwyr a rhieni.
- 7.2 Mae'r bennod yn gwneud defnydd helaeth o ganfyddiadau'r tri arolwg ar y we. Cafwyd ymatebion gan 168 o gyfranogwyr, 35 o rieni a 23 o ymatebwyr o SAB/ysgolion.

Y rhesymau dros ymgysylltu

- 7.3 Fel y dangosir yn Nhabl 7.1, roedd gan bron i draean o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn astudio mewn ysgol neu leoliad AB uchelgeisiau i astudio yn un o brifysgolion Oxbridge ac roedd gan dros eu hanner uchelgeisiau i astudio mewn prifysgol flaenllaw arall (h.y. prifysgol yng Ngrŵp Russell neu un o 30 o brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton)⁴⁹. Roedd barn rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg am ddyheadau eu plentyn yn debyg iawn o ran cyfran.

Tabl 7.1: Uchelgeisiau prifysgol y cyfranogwyr a'r rheini a gymerodd ran yn yr arolygon

	Cyfranogwyr a Gymerodd Ran yn yr Arolwg	Rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg
Astudio ym mhrifysgol Caergrawnt neu Rydychen	47 (30%)	10
Astudio mewn prifysgol flaenllaw arall	94 (59%)	19
Astudio mewn prifysgol arall	14 (9%)	2
Gwneud rhywbeth arall	3 (2%)	1


Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail = 159 o gyfranogwyr yn yr ysgol / coleg ar hyn o bryd a 32 o rieni â phlentyn yn yr ysgol/coleg)

- 7.4 Fel y dangosir yn Ffigur 7.1, roedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn gobeithio y byddai cyfranogiad yn Rhwydwaith Seren yn eu helpu i gael mwy o wybodaeth am brifysgolion blaenllaw a chael mynediad i gymorth

⁴⁹ Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg i ddewis un ymateb.

er mwyn gwneud cais i'r sefydliadau hyn. Roedd gan oddeutu draean o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ddisgwyliadau y byddai Rhwydwaith Seren yn eu helpu i wneud cais am a/neu sicrhau lle i astudio yn Oxbridge. Roedd gan y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg ddisgwyliadau tebyg i'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg mewn perthynas â rhwydwaith Seren ond roedd eu disgwyliadau y byddai'r fenter yn helpu eu plentyn i ddarganfod mwy am opsiynau gyrfa yn y dyfodol yn uwch na disgwyliadau'r cyfranogwyr, gyda dwy ran o dair o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg (23) yn nodi hyn fel disgwyliad.

Ffigur 7.1: Y Disgwyliadau o Rwydwaith Seren



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

7.5 Ategodd y gwaith maes ansoddol ganfyddiadau'r arolwg bod cyfranogwyr wedi ymgysylltu â Seren am amryw o resymau. Y rhesymau y cyfeiriwyd atynt amlaf yn nhrافodaethau'r grwpiau ffocws oedd:

- eisiau darganfod mwy am brifysgolion da a sut i fynd ati i wneud cais iddynt
- beth sy'n gwneud datganiad personol da a
- cymorth i wneud cais i brifysgol tariff uchel.

Meini prawf dethol

7.6 Mae pob canolfan yn recriwtio cyfranogwyr ar ddechrau Blwyddyn 12 ac mae'r meini prawf a fabwysiedir yn seiliedig ar y cyflawniad academiaidd

uchaf yn lleol mewn arholiadau TGAU. Mewn un ganolfan (GCA) rhoddir cwotâu ar gyfer cyfranogwyr i bob ysgol a choleg ac o ganlyniad roedd y meini prawf dethol yn amrywio'n sylweddol rhwng un lleoliad a'r llall. Mae gan ysgolion a cholegau rôl hanfodol wrth gasglu a darparu'r data angenrheidiol i ganiatáu i gyfranogwyr gael eu dethol. Yn aml gall hyn fod yn her i golegau sy'n tueddu i ddelio â nifer mwy o drosglwyddiadau a chofrestriadau hwyr yn eu sefydliadau: 'gall y dyddiad cau cynnar lesteirio cofrestru yn y coleg. Mae'n haws i ysgolion'.

7.7 Canfu'r gwaith maes fod y dulliau a ddefnyddir ar draws canolfannau Seren i nodi a dethol cyfranogwyr yn amrywio'n fawr:

- Yn GCA, roedd myfyrwyr gyda 6A* mewn TGAU yn cael mynediad gwarantedig i Seren, gyda rhywfaint o hyblygrwydd wedyn mewn perthynas â'r rhai y credwyd eu bod yn 'wych mewn maes neu bwnc penodol' a rhywfaint o ddisgresiwn, os oedd digon o leoedd, ar gyfer y rhai sy'n ennill 5A*/A mewn TGAU.
- Ym Mro Morgannwg caiff cymhwysedd ei bennu ar 7 A neu 5 A* (neu gyfuniad o'r ddau) mewn TGAU.
- Yng Nghaerdydd y meini prawf a osodwyd yw 5A* (gan gynnwys pynciau craidd) mewn TGAU.
- Yn Sir y Fflint/Wrecsam y meini prawf yw 5A* mewn TGAU.
- Yn Abertawe, disgwylir i gyfranogwyr gyflawni 7A neu fwy mewn TGAU.
- Yng Ngheredigion mae'n ofynnol i fyfyrwyr gael 5 B neu well mewn TGAU, gan gynnwys graddau A neu A* ar gyfer y pynciau hynny sy'n cael eu hastudio ar gyfer Safon Uwch.
- Yn Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro dyfernir pwyntiau i fyfyrwyr ar gyfer pob gradd TGAU a gyflawnwyd (3 phwynt ar gyfer A*, 2 bwynt ar gyfer A ac 1 pwynt ar gyfer gradd B) ac mae cyfanswm y pwyntiau sydd eu hangen i ymuno â chanolfan Seren yn dibynnu ar y llwybr pynciau y mae myfyrwyr yn dymuno ei ddilyn. Mae angen y canlynol ar y cyfranogwyr:
 - 20 pwynt, gan gynnwys A neu A* mewn pwnc Gwyddonol neu Fathemategol, i ymuno â'r llwybr STEM sy'n canolbwyntio ar Fathemateg, Meddygaeth, Milfeddygaeth, Pensaerniaeth,

Cyfrifiadureg a Gwyddorau Bywyd.

- 16 pwynt, gan gynnwys A neu A* mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf neu bwnc mathemategol, i ymuno â'r llwybr Dyniaethau neu Fusnes. Mae'r llwybr Dyniaethau yn canolbwyntio ar Hanes, Daearyddiaeth, leithoedd Tramor Modern a Chymraeg tra bod y Llwybr Busnes, Diwylliant a Gweinyddiaeth yn canolbwyntio ar Fusnes, TG, Gwyddorau Cymdeithasol, y Gyfraith ac Economeg.
- cyflawniad unigol megis o leiaf Gradd 8 ar gyfer Cerddorion neu bortffolio o dystiolaeth i ddilyn y llwybr Gweithgareddau Creadigol a Chorfforol.
- Yng Nghonwy/Sir Ddinbych, dewisir cyfranogwyr os ydynt yn cyflawni o leiaf 5A* neu fwy mewn TGAU neu'n cyrraedd sgôr Alps cyfartalog o 7.5 wrth ystyried pob canlyniad TGAU. Mae'r sgôr Alps⁵⁰ yn seiliedig ar system bwyntiau lle y dyfernir 8 pwynt am radd A*, dyfernir 7 pwynt am radd A ac ati. Ar gyfer 2017/18 mae'r ganolfan wedi gostwng y meini prawf cymhwysedd i sgôr gyfartalog Alps o 7 ar y sail bod canlyniadau TGAU Mathemateg a Saesneg yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Credwyd bod y dull eang hwn yn caniatáu i ddysgwyr a chanddynt botensial mawr gael eu cynnwys, sef dysgwyr na fyddent o bosibl wedi cael eu graddau disgwyliedig mewn TGAU.
- Yng Nghastell-nedd Port Talbot/Pen-y-bont ar Ogwr/Powys mae'n ofynnol i gyfranogwyr gael cyfanswm o 20 pwynt ar draws eu hwyth gradd TGAU gorau (gydag A* = 3 phwynt, A = 2 bwynt a B = 1 pwynt). Ar gyfartaledd, byddai hyn yn cyfateb i ofyniad i fyfyrwr gael 4A* a 4A.
- Yn Rhondda Cynon Taf/Merthyr, gosodwyd y trothwy ar gyfer dethol ar 4A* mewn TGAU ond cafodd hyn ei ostwng i 3 gradd A* ar gyfer 2017/18 oherwydd cyflawniadau is mewn TGAU yn gyffredinol.
- Yng Ngwynedd/Ynys Môn roedd y trothwy yn 7 A (gydag o leiaf 4 A*). Fodd bynnag, roedd rhywfaint o hyblygrwydd i gynnig lleoedd i ambell fyfyrwr gyda chanlyniadau ychydig yn is na'r trothwy hwn pe bai ysgolion/colegau

⁵⁰ <https://alps-va.co.uk/paper/calculate-average-gcse-with-a-mixture/>

yn gofyn am hyn.

- 7.8 Mae'r disgresiwn a roddir i athrawon nodi cyfranogwyr 'cerdyn gwyllt' yn amrywio - ar draws rhai canolfannau nid oes llawer o hyblygrwydd, ond mewn canolfannau eraill awgrymwyd bod gormod o ryddid a hyblygrwydd bellach yn cael ei roi i ysgolion o ran 'ychwanegu a dethol' cyfranogwyr. Ymddengys fod ysgolion yn arbennig yn awyddus i gynnwys rhai cyfranogwyr a fyddai'n cael eu hystyried yn 'wych' yn eu pynciau Safon Uwch ar ôl ennill graddau A* mewn TGAU yn y pynciau hyn ond a oedd wedi methu â bodloni'r meini prawf trothwy a osodwyd ar gyfer pynciau TGAU eraill.
- 7.9 Mewn un ganolfan, canfu'r gwaith maes fod myfyrwyr yn cael cyfle i ymuno â'r rhwydwaith am y tro cyntaf yn ystod Blwyddyn 13, ar sail canlyniadau da mewn arholiadau UG ym Mlwyddyn 12. Yn yr achos hwn, ymunodd 39 o gyfranogwyr ychwanegol â'r rhaglen am y tro cyntaf ym Mlwyddyn 13 ar ôl ennill graddau UG da. Mewn canolfannau eraill, cafwyd agwedd fwy hyblyg gyda chyfle i ysgolion a cholegau gynnwys disgyblion a oedd yn ymddangos fel pe baent yn 'disgleirio' yn ystod eu cyrsiau Safon Uwch. Mewn un achos, cynigiodd y ganolfan gyfleoedd i hwyrddyfodiaid ymuno â'r Rhwydwaith os oedd unrhyw gyfranogwyr gwreiddiol yn penderfynu gadael.
- 7.10 Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr (yn enwedig y rhai a oedd yn gweithredu o fewn canolfannau) o'r farn ei bod yn briodol bod y meini prawf dethol yn cael eu pennu ar lefel leol, gan fod hyn yn galluogi'r canolfannau i ystyried yr amgylchiadau cyd-destunol ac economaidd-gymdeithasol ehangach yr oeddent yn gweithredu ynddynt. Fodd bynnag, cwestiynodd rhai rhanddeiliaid yr egwyddor sylfaenol o gael meini prawf cymhwysedd gwahanol, gan ychwanegu nad oedd hyn yn cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr ar lefel Cymru gyfan. Awgrymwyd hefyd, yn enwedig gan SAU, bod angen mwy o eglurder a thryloywder ynghylch y gofynion ymuno sylfaenol ar gyfer Seren.
- 7.11 Er bod dealltwriaeth gyffredin bod Seren yn dewis y disgyblion gorau yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad mewn TGAU, awgrymwyd nad oedd hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu ar lawr gwlad, yn bennaf oherwydd y disgresiwn

a roddir i ysgolion ond hefyd oherwydd bod gan bob ysgol a choleg mewn un ganolfan gwotâu i'w cyrraedd. Mewn o leiaf ddwy ardal lle roedd canolfan cyfeiriodd y cyfranogwyr at ddisgyblion eraill a oedd wedi cael canlyniadau academiaidd gwell ar lefel TGAU:

'Dim ond 1 A* sydd gen i ac rwy'n rhan o'r cynllun. Mae hyn yn wir am y rhan fwyaf ohonom o'n hysgol ni - credaf fod yn ffiniau wedi eu gosod ar lefel is. Mae'n ymddangos bod gan bawb arall yn Seren lawer mwy o sêr na ni.'

'Rwy'n gwybod nad yw fy ngraddau cystal â rhai o'r bobl eraill sydd yma. Wn i ddim pam y cefais i gyfle, ac nid eraill.'

Ymuno â Seren

- 7.12 Ar draws yr holl ganolfannau, mae'r cyfranogwyr yn cael gwahoddiad ffurfiol drwy llythyr i ymuno â Rhwydwaith Seren a byddai hyn yn nodi'r manylion ar gyfer y digwyddiad lansio ar gyfer Blwyddyn 12 a gynhelir yn nhymor yr hydref. Adeg ein gwaith maes, dim ond ychydig o ganolfannau a ofynnodd i'r cyfranogwyr ddarparu data cofrestru pan oeddent yn ymuno â'r rhaglen, e.e. drwy lenwi ffurflen gofrestru ac ymwadiad mewn perthynas ag optio i mewn, er ein bod yn deall bod cynlluniau wedi eu rhoi ar waith ers hynny i gyflwyno ffurflen gofrestru gyffredin ar gyfer y fenter at y dibenion hyn.
- 7.13 Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (145 neu 86 y cant) a'r rhieni (22) a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi dod i glywed am Rhwydwaith Seren drwy eu hysgol neu goleg tra bod dros chwarter y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (49 neu 29 y cant)⁵¹ a thros draean y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (13) wedi nodi eu bod wedi clywed amdano ar ôl derbyn llythyr yn eu gwahodd i fynychu'r rhwydwaith. Prin iawn oedd y nifer a oedd wedi clywed am Seren yn uniongyrchol oddi wrth gydlynnydd y ganolfan neu drwy ddulliau eraill megis ffrindiau neu deulu. Roedd yr adborth gan gyfranogwyr a rhieni a gyfwelwyd yn ategu'r farn hon ac, yn gyffredinol, nid oedd ganddynt fawr ddim ymwybyddiaeth o Seren cyn cael y llythyr ar ddechrau Blwyddyn 12. Roedd mwyafrif helaeth y rhai a gyfwelwyd wedi dod i glywed am y fenter am y tro cyntaf ar ôl cael gwahoddiad i ymuno a mynychu'r digwyddiad lansio.

⁵¹ Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

Presenoldeb

- 7.14 Paentiodd cydlynwyr y canolfannau ddarlun cymysg o ran presenoldeb yn nigwyddiadau'r canolfannau. Ystyriwyd bod y nifer a oedd yn cymryd rhan yn ardderchog ar ddechrau Blwyddyn 12 ond mynegodd o leiaf bedwar cydlynnydd canolfan bryder ynghylch y lefelau ymddieithrio wedi hynny. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn pryderu am lefelau presenoldeb yn tynnu sylw at batrwm o lefelau uchel o bresenoldeb ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd ond bod y lefelau'n edwino ar ôl hynny wrth i bobl droi eu sylw at flaenoriaethau eraill. Cafwyd peth awgrym bod cyfradd y rhai nad oeddent yn mynychu (ac yn wir y gyfradd a oedd yn rhoi'r gorau iddi) yn uwch ymysg cyfranogwyr SAB. Dywedodd ambell gynrychiolydd ysgol hefyd fod y cyfranogwyr wedi cael eu dewis i fod yn rhan o Seren, yn hytrach na phenderfynu cymryd rhan ar eu liwt eu hunain, ac y byddai hyn wedi effeithio ar eu presenoldeb mewn digwyddiadau. Awgrymodd y cyfranogwyr a gyfwelwyd a oedd yn cydnabod bod eu lefelau presenoldeb yn wael bod hynny i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith nad oeddent yn gwybod am ddigwyddiadau, neu nad oedd y digwyddiadau a gynlluniwyd yn apelio atynt neu na allent weld y fantais yn sgil eu mynychu.
- 7.15 Ategodd y cyfweliadau gyda chyfranogwyr a rhieni y darlun hwn i ryw raddau gan y gallent gofio mynychu digwyddiad lansio ym Mlwyddyn 12 ond bod eu lefelau ymgysylltu wedi amrywio ar ôl hynny. Roedd nifer bach o'r rhai a gyfwelwyd wedi gwneud ymdrechion mawr i fod yn bresennol ym mhob digwyddiad a dywedodd eraill fod y cyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau a oedd yn berthnasol iddynt hwy yn fach iawn neu nad oedd y digwyddiadau i'w gweld yn berthnasol. Nododd nifer bach hefyd fod rhai sesiynau wedi'u canslo.
- 7.16 Awgryma'r canfyddiadau yn sgil yr arolygon ar y we fod lefelau presenoldeb mewn digwyddiadau Seren ymysg bron i draean o'r cyfranogwyr wedi bod yn wael. Er bod un o bob pump o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (33 neu 20 y cant) wedi bod yn bresennol ym mhob digwyddiad a bod dwy ran o bump wedi bod yn bresennol yn y rhan fwyaf ohonynt (71 o gyfranogwyr neu 42 y cant) roedd 30 y cant (50 o gyfranogwyr) yn cyfaddef mai dim ond mewn un digwyddiad yr oeddent wedi bod yn bresennol, neu

nad oeddent wedi mynychu yr un digwyddiad. Cynigiodd y cyfranogwyr a'r rhieni fel ei gilydd lawer o awgrymiadau ymarferol a fyddai wedi ei gwneud yn haws iddynt fod yn bresennol mewn digwyddiadau Seren lleol, a'r rhai mwyaf cyffredin oedd:

- Mwy o rybudd ymlaen llaw am ddigwyddiadau
- Gwella cyfathrebu rhwng yr ysgol/y ganolfan a'r cyfranogwr a'r rhiant
- Lleihau nifer y digwyddiadau sy'n cael eu gohirio neu eu canslo
- Trefnwyd cludiant i gyfranogwyr e.e. mewn un ardal roedd presenoldeb wedi gwella yn sgil y ffaith bod y ganolfan yn trefnu tacsis i gyfranogwyr
- Cynnal digwyddiadau y tu allan i oriau ysgol (gan ganiatáu digon o amser teithio)
- Cynnal digwyddiadau ar ddiwrnodau gwahanol o'r wythnos
- Trefnu digwyddiadau yn nes at gartrefi neu ysgolion/ colegau'r myfyrwyr.

7.17 Fel y trafodwyd ym Mhennod 6 mae rhai cydlynwyr canolfannau, ond nid pob un, yn cadw cofnod o'r rhai sy'n mynychu digwyddiadau er mwyn gallu monitro lefelau presenoldeb - mewn o leiaf un achos, defnyddiwyd hyn i gael gwared ar gyfranogwyr nad oeddent yn mynychu digwyddiadau o'r fenter. Mewn o leiaf ddwy ganolfan, rhoddir tystysgrifau i gyfranogwyr i'w gwobrwyo am eu hymgysylltiad â Seren a'u presenoldeb - yn achos un canolfan, rhoddir hyn i gyfranogwyr â chofnod presenoldeb o 100 y cant. Awgrymwyd bod cyflwyno'r dystysgrif bresenoldeb wedi arwain at welliant sylweddol mewn cyfraddau presenoldeb a 'phrin iawn oedd y nifer a oedd yn rhoi'r gorau i'r rhaglen' dros y flwyddyn academaidd. Yn unol â hyn, awgrymodd rhai cyfranwyr (yn enwedig SAU) fod angen i Rwydwaith Seren fabwysiadu 'set o ofynion sylfaenol' ar gyfer ei gyfranogwyr a allai gynnwys bod yn bresennol mewn isafswm o ddigwyddiadau neu gymryd rhan am nifer benodol o oriau y flwyddyn.

7.18 Yn fwy cyffredinol, nid oedd y canolfannau'n ymwybodol o gyfraddau cadw cyfranogwyr Seren ar y cynllun - o bosibl oherwydd nad oedd nifer o ganolfannau'n gweithredu polisi ffurfiol o ddad-ddethol cyfranogwyr neu eu galluogi i dynnu'n ôl yn ffurfiol o'r cynllun. Dim ond un ganolfan a allai

ddarparu data ar eu cyfraddau cadw ac yn yr achos hwn adroddwyd bod 95 y cant o'r cyfranogwyr a ddechreuodd yn ystod 2016/17 wedi cwblhau blwyddyn lawn.

- 7.19 Awgrymodd yr arolwg o gynrychiolwyr ysgolion a SAU fod 11 o ymatebwyr o'r farn bod 90 y cant neu fwy o'u disgyblion yn dal i ymgysylltu â'r fenter ar ddiwedd Blwyddyn 12 a nododd 8 ymatebydd arall fod y gyfradd gadw rhwng 75 ac 89 y cant.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

- 7.20 O ran ymwybyddiaeth o'r Rhwydwaith Seren ymhlith darparwyr ôl-16, roedd cyfranwyr a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn y ganolfan ar lefel leol o'r farn bod hyn yn dda yn gyffredinol ac wedi gwella'n sicr gydag amser wrth i'r fenter fagu momentwm a datblygu hunaniaeth. Yn y rhan fwyaf o ganolfannau, gwelwyd bod y mwyafrif helaeth o'r darparwyr ôl-16, os nad bob un ohonynt, yn ymwneud â'r ganolfan bellach er bod y graddau yr oeddent yn gwneud hynny yn amrywio ac yn dibynnu i raddau helaeth ar frwdfrydedd ac ymroddiad y cydlynnydd chweched dosbarth.
- 7.21 Nodwyd dau brif rwysr a oedd yn atal ysgolion a cholegau rhag ymgysylltu â Seren: awgrymwyd bod rhai sefydliadau'n amharod i drefnu i fyfyrwyr fynychu digwyddiadau yn ystod oriau ysgol tra bod eraill yn pryderu ynghylch a oedd Seren yn cynnig unrhyw werth ychwanegol i'r myfyrwyr.
- 7.22 Roedd peth tystiolaeth bod colegau ac ysgolion wedi dechrau cydnabod gwerth cymryd rhan yn Seren wrth ddenu a chadw myfyrwyr Safon Uwch i'w sefydliad. Mewn rhai achosion, roedd Seren yn cael ei hyrwyddo gan golegau fel pwynt gwerthu unigryw i ddenu myfyrwyr - yn wir, esboniodd un cyfranogwr a gyfwelwyd fod rhaglen Seren helaeth y coleg wedi bod yn ffactor pwysig yn ei phenderfyniad i gofrestru gyda' sefydliad.
- 7.23 O ran ymwybyddiaeth ymysg darpar gyfranogwyr a rhieni, datgelodd y gwaith maes lefelau cymharol isel o ymwybyddiaeth cyn iddynt ddechrau ymwneud â'u canolfan. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried y ffaith bod llawer o ganolfannau ond wedi bod yn gwbl weithredol am flwyddyn adeg y gwaith maes a hefyd oherwydd mai dim ond yn ddiweddar y maent wedi dechrau hyrwyddo Seren i fyfyrwyr Blynnyddoedd 9 a 10. Yn fwy cyffredinol,


awgrymodd y gwaith maes fod mwy o ymwybyddiaeth o Seren ymhlith disgyblion ysgol, fel y dangosodd yn un drafodaeth grŵp ffocws:

'Mae tuag ugain allan o wyth deg ohonom [myfyrwyr ysgol Blwyddyn 13] yn rhan o Seren ... rydych yn sylwi pan fyddwn ni wedi bod [i ddigwyddiadau Seren]... mae'r lleill yn ymwybodol iawn nad ydyn nhw'n rhan ohono.

'Dydych chi ddim yn sylwi bod myfyrwyr yma [yn y coleg] ... yn mynd a dod drwy'r amser ... nid oes gan eraill syniad ein bod yn mynd i ddigwyddiadau Seren.'

- 7.24 Roedd y cyfranogwyr yn ogystal â'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth ddigonol o'r cychwyn ynglŷn â pham yr oeddent hwy neu eu plentyn wedi cael eu dewis i gymryd rhan yn Rhwydwaith Seren ac roeddent hefyd yn weddol glir ynghylch pwrpas y rhwydwaith a manteision cymryd rhan ynddo. Fel y dangosir yn Ffigur 7.2, roedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (yn yr un modd â'r rhieni) yn llai gwybodus am yr ymrwymiad amser y byddai'n ei olygu neu natur y ddarpariaeth a fyddai ar gael iddynt sy'n awgrymu bod angen i ganolfannau lleol gyfathrebu'n well ynghylch yr agweddau hyn ar y rhaglen o'r cychwyn.

Ffigur 7.2: Dealltwriaeth y cyfranogwyr o Rwydwaith Seren



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

- 7.25 Yn wir, datgelodd y cyfweiliadau ansoddol fod gan rieni, a chyfranogwyr i ryw raddau, ddisgwyliadau uchel iawn o'r rhaglen pan oeddent yn ymuno â Seren. Dywedodd un cyfrannwr o'r fath ei fod bod safon y prifysgolion a fyddai'n gysylltiedig â'r rhaglen yn 'anhygoel'.
- 7.26 Awgrymodd ystod eang o gyfranwyr, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a chydlynwyr canolfannau, ei bod yn dal i fod yn gynnar o ran ymdrechion ymgysylltu'r canolfannau i dargedu disgyblion ym Mlynnyddoedd 9 i 11 ond bod hyn yn agwedd bwysig iawn ar y fenter ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gan ei fod yn hysbysu darpar gyfranogwyr am bwysigrwydd cael graddau TGAU da er mwyn cael eu hystyried i'w dethol ond hefyd oherwydd y gallai dewisiadau pwnc TGAU atal cyfranogwyr rhag gallu gwneud cais am gyrsiau penodol.
- 7.27 Awgrymodd nifer o gyfranwyr (yn enwedig cynrychiolwyr ysgolion a nifer o gyfranogwyr) y gellid hyrwyddo Seren mewn ffordd lawer mwy gweladwy i fyfyrwyr iau ar draws ysgolion uwchradd, drwy gyfrwng llythyrau at rieni neu yn ystod digwyddiadau fel nosweithiau rhieni neu ddigwyddiadau gwybodaeth am gyrsiau TGAU/Safon Uwch e.e. defnyddio stondinau codi, dolenni i wefannau a deunydd hyrwyddo. O gofio bod ambell i gydlynnydd wedi tynnu sylw at y diffyg gallu ar eu rhan i ymgymryd â'r maes gwaith hwn, efallai y byddai'n briodol ystyried dulliau mwy cost-ffeithiol o ledaenu gwybodaeth am Seren i rieni a darpar gyfranogwyr ym Mlynnyddoedd 9 i 11.

Cyfathrebu

- 7.28 Roedd problemau a heriau yn ymwneud â chyfathrebu lleol rhwng canolfannau, ysgolion, cyfranogwyr a rhieni yn thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwaith maes, ond cydnabuwyd bod rhai gwelliannau wedi'u profi mewn rhai meysydd e.e. mewn un achos gwelwyd gwelliant mewn cyfathrebu o ganlyniad i Benaethiaid Chweched Dosbarth yn hytrach na'r arweinydd MATH yn dod yn brif bwynt cyswllt i'r cydlynnydd.
- 7.29 Y brif feirniadaeth a fynegwyd gan ysgolion, colegau, cyfranogwyr a rhieni oedd bod gwybodaeth am ddigwyddiadau canolfannau lleol yn cael ei chyhoeddi ar fyr rybudd. Er enghraifft, nododd un rhiant o'r fath ei fod wedi cael gwybod am ddigwyddiad Seren 'ychydig ddyddiau' ynghynt ac roedd hynny wedi'i gwneud yn anodd ei fynychu. Roedd cydlynwyr y canolfannau yn gobeithio y byddai'r nifer o hysbysiadau hwyr a roddwyd i'r cyfranogwyr yn lleihau yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol wrth i fwy o ganolfannau gytuno ar amserlen o ddigwyddiadau a rhannu hyn gyda chyfranogwyr a rhieni yn ystod y digwyddiad lansio cychwynnol.
- 7.30 Roedd y cynrychiolwyr Ysgolion/SAB yn feirniadol o'r baich ychwanegol o orfod addasu'r geiriad a ddarparwyd gan eu cydlynnydd er mwyn ei anfon ymlaen at gyfranogwyr a'r amserlenni afrealistig a osodwyd gan gydlynwyr i roi cadarnhad o'r niferoedd a fyddai'n mynychu digwyddiadau.
- 7.31 Roedd cyfranogwyr a rhieni hefyd yn debygol o ddweud nad oeddent wedi'u hysbysu'n ddigonol am gynnwys y sesiynau a gynlluniwyd ac nad oeddent yn gwybod ymlaen llaw beth i'w ddisgwyl. Roedd hyn creu ansicrwydd ymysg rhai cyfranogwyr ynghylch pa sesiynau y dylent fod yn eu mynychu e.e. ar ôl dweud ar ddechrau eu hymwneud â chanolfan Seren bod ganddynt ddiddordeb mewn meysydd pwnc penodol, yna roeddent yn ansicr a ddylent ond mynychu digwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar y rhain ai peidio.
- 7.32 Roedd yr adborth gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn atgyfnerthu'r pwynt bod hwn yn un maes y gellid ei wella, gydag 17 o rieni o'r farn nad oedd y cyfathrebu â rhieni neu ofalwyr yn dda. Cynigiwyd sawl awgrym ymarferol ar gyfer gwella cyfathrebu, ac roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar wella'r wybodaeth a rennir am ddigwyddiadau a chysiau:

'Chefais i ddim gohebiaeth o gwbl! Byddwn yn disgwyl rhestr o gyrsiau o leiaf! '

'O ran mynediad i wybodaeth am ddigwyddiadau a chyfleoedd penodol drwy Seren - dim ond datganiadau cyffredinol iawn a welais ac nid oeddent yn dweud fawr ddim wrthyf'.

- 7.33 Er gwaethaf y problemau hyn a'r baich gwaith ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag ef, ymddengys y byddai'n well gan y rhan fwyaf o ysgolion/SAB barhau i fod yn bwynt cyswllt rhwng cydlynwyr canolfannau a chyfranogwyr, yn hytrach na mabwysiadu model lle y byddent yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cyfranogwyr. Fodd bynnag, mynegodd y cyfranogwyr a'r rhieni bod yn well ganddynt y dewis olaf, i ategu'r cyfathrebu a oedd eisoes yn digwydd drwy ysgolion a SAB.

8. Y ddarpariaeth a sut mae canolfannau lleol yn gweithio

- 8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried natur, ansawdd a defnyddioldeb y ddarpariaeth sydd ar gael drwy ganolfannau Seren ac ar lefel genedlaethol. Mae hefyd yn ystyried rhai o ganfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas â hygyrchedd, amllder ac amseriad y ddarpariaeth.

Natur y Ddarpariaeth


- 8.2 Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael ar draws canolfannau lleol yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr yn ystyried hyn yn gryfder o ran y dull a fabwysiadwyd oherwydd bod gan y canolfannau yr hyblygrwydd i ddylunio rhaglen sy'n diwallu anghenion lleol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod hyn hefyd yn anfantais, yn enwedig o safbwynt SAU ond hefyd gan gyfranogwyr, gan nad yw profiad y cyfranogwyr o'r rhaglen yn gyson o'r naill ardal i'r llall.
- 8.3 Mae'r math o ddarpariaeth a gynigir gan bob canolfan wedi cynnwys:
- Cyflwyniadau gan gynrychiolwyr SAU ar wneud ceisiadau i brifysgolion cystadleuol
 - Darpariaeth uwch-gwricwlaidd megis dosbarthiadau meistr academiaidd yn y pwnc
 - Dyddiau blasu ac ymweliadau â diwrnodau agored SAU
 - Ysgolion haf
 - Trefniadau i fynychu ffeiriau UCAS e.e. Stadiwm Liberty
 - Paratoi ar gyfer profion derbyniadau prifysgol (e.e. y Prawf Mynediad Cenedlaethol ar gyfer y Gyfraith (LNAT) a'r Prawf Mynediad Biomeddygol (BMAT))
 - Gwybodaeth ac arweiniad ar baratoi datganiadau personol
 - Arweiniad ar gyfweiliadau a ffug gyfweiliadau.
- 8.4 Mae ffocws nifer o raglenni'r canolfannau wedi bod ar annog a chefnogi cyfranogwyr i wneud cais i sefydliadau Oxbridge. Yn ystod y gwerthusiad, arsylwyd digwyddiadau a gyflwynwyd gan Dr Jonathan Padley o Brifysgol Caergrawnt a oedd, yn ein barn ni, yn cael eu cyflwyno i safon uchel iawn.

Roedd presenoldeb yn y digwyddiadau hyn yn gymysg (un lle y cafwyd presenoldeb da iawn a'r llall lle roedd nifer y cyfranogwyr yn siomedig) er bod yr adborth gan y rhai a oedd yn bresennol am ansawdd y sesiwn yn gadarnhaol. Yn yr un modd, roedd yr adborth a gasglwyd gan gynrychiolwyr ysgolion/SAB a chydlynwyr canolfannau am ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr o Brifysgol Rhydychen yr un mor gadarnhaol.

- 8.5 Canfu'r gwaith maes hefyd fod darpariaeth nifer o ganolfannau'n canolbwyntio ar lwybrau STEMM, gydag un ganolfan yn canolbwyntio'n benodol ar gyflwyno sesiynau wythnosol ar feddygaeth. Awgryma'r adborth fod y sesiynau o werth i'r rhai a oedd yn dymuno dilyn gyrfa feddygol ond nad ydynt yn berthnasol iawn i eraill.
- 8.6 I ryw raddau, dadleuwyd bod y penderfyniad i ganolbwyntio'r ddarpariaeth ar nifer bach o bynciau, sef gwyddoniaeth, meddygaeth, deintyddiaeth ac astudiaethau milfeddygol, wedi cael ei ddylanwadu gan y galw yn lleol ac anghenion y cyfranogwyr. Fodd bynnag, dadleuodd rhai o'r canolfannau llai nad oedd ganddynt nifer digonol o gyfranogwyr i allu cynnig y math hwn o ddarpariaeth arbenigol.
- 8.7 Roedd yn amlwg bod y canolfannau'n ceisio ymateb i anghenion a oedd yn gysylltiedig â phynciau'r cyfranogwyr orau y gallant ond ar adegau roedd hyn wedi arwain at gynnal digwyddiadau lle roedd niferoedd bach iawn yn bresennol. Efallai mai un enghraifft o'r fath oedd dosbarth meistr mewn drama a drefnwyd i fyfyrwyr mewn un canolfan lle mai dim ond un myfyriwr a oedd yn bresennol. Canfu'r gwaith maes enghreifftiau lle roedd y dull wedi'i deilwra wedi gweithio'n dda fodd bynnag. Er enghraifft, mewn un ganolfan, dyrannwyd grwpiau pwnc i'r cyfranogwyr a oedd yn ystyried eu pynciau Safon Uwch yn ogystal â'r pynciau gradd yr oeddent yn bwriadu ei hastudio. Dywedwyd bod cyfansoddiad y grwpiau'n newid o'r naill flwyddyn i'r llall, e.e. yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelodd y ganolfan ddiddordeb cynyddol mewn pynciau cerddoriaeth a chyfrifiadureg a lleihad yn y diddordeb mewn daearyddiaeth, felly cyflwynwyd grŵp penodol ar gyfer cyfrifiadureg a chyflwynwyd grŵp ehangach yn canolbwyntio ar wyddorau cymdeithasol i gymryd lle daearyddiaeth.

8.8 Pan ofynnwyd iddynt am y math o ddarpariaeth yr oeddent wedi manteisio arni, roedd y cyfranogwyr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod nhw (neu eu plentyn) wedi cael cyflwyniad gan academydd mewn prifysgol flaenllaw (y cyfeiriwyd ato gan 58 y cant neu 97 o gyfranogwyr a 24 o rieni), gyda llai yn dewis opsiynau eraill megis derbyn cymorth mewn perthynas â gwneud cais i'r brifysgol, cyfweiliadau a phrofion derbyn fel y dangosir yn Ffigur 8.1.

Ffigur 8.1: Ymwneud â gweithgareddau Seren



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)


Ansawdd y Ddarpariaeth

8.9 O safbwynt rhieni a chyfranogwyr a gyfwelwyd, ystyriwyd mai cryfder y ddarpariaeth oedd y ddarpariaeth fanwl yr oedd rhai wedi gallu manteisio arni ar draws y meysydd pwnc gwyddoniaeth, meddygaeth, deintyddiaeth ac astudiaethau milfeddygol. Cyfeiriodd nifer hefyd at y cymorth a gawsant i baratoi datganiadau personol a chyfeiriodd ambell un at y gynhadledd genedlaethol a'r ysgol haf fel uchafbwyntiau Seren.

8.10 Fel y dangosir yn Ffigur 8.2, dywedodd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg fod ansawdd ac ystod y siaradwyr gwadd a oedd wedi mynychu amrywiol ddigwyddiadau yn ardderchog neu'n dda. Roedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (yn ogystal â'r rhai a gafodd eu cyfweld) yn eithaf beirniadol o'r ystod o brifysgolion yr oeddent wedi gallu cysylltu â hwy (gyda 35 y cant neu 59 o'r ymatebwyr yn nodi bod hyn yn wael) ac yn gyffredinol byddent wedi croesawu trafod ystod ehangach o bynciau academiaidd mewn

digwyddiadau. Er i'r adborth gan rieni a gymerodd ran yn yr arolwg adleisio safbwyntiau'r cyfranogwyr, roedd rhieni fel arfer yn llai gwybodus i allu mynegi barn.


Ffigur 8.2: Barn y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg am amrywiol agweddau ar ddarpariaeth Rhwydwaith Seren



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

- 8.11 Paentiodd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ddarlun cymysg o ran eu barn am agweddau eraill ar y gefnogaeth a gafwyd drwy Rwydwaith Seren, fel y dangosir yn Ffigur 8.3 isod. Mae'n bwysig nodi bod y data yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan y ffaith bod lleiafrif arwyddocaol o'r rhai a ymatebodd naill ai heb gael mynediad i'r mathau hyn o ddarpariaeth neu nid oedd ganddynt farn. Roedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystyried mai'r cymorth a gawsant i baratoi eu cais UCAS fel yr elfen orau o ran ansawdd ac roeddent yn fwyaf beirniadol (ac felly hefyd eu rhieni) o'r adnoddau dysgu neu'r deunyddiau darllen estynedig (dywedodd 32 y cant o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ac 16 y cant o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg fod y rhain yn wael).

Ffigur 8.3: Ansawdd darpariaeth Rhwydwaith Seren



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

Meysydd i'w gwella

8.12 Codwyd nifer o themâu cyffredin gan y cyfranogwyr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg a'r rhai a gyfwelwyd o ran yr hyn y gellid ei wella yn narpariaeth Seren. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Ymestyn yr ystod o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar bynciau: mewn sawl achos, dadleuwyd bod y ddarpariaeth wedi canolbwyntio'n ormodol ar bynciau meddygol a gwyddonol, e.e. 'gallai ystod ehangach o gyrsgau ar bynciau penodol fod wedi cael eu darparu gan ei fod ond yn ymddangos fel pe bai o fudd i fyfyrwyr meddygaeth' ac 'roedd bron pob un o'r digwyddiadau SEREN a oedd ar gael i mi yn canolbwyntio ar feddygaeth neu wyddoniaeth, sy'n bynciau nad oes gennyf ddiddordeb yn eu hastudio ymhellach.'
- Ymestyn y ffocws i brifysgolion blaenllaw eraill, yn hytrach na phrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn unig. Roedd llawer o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd yn credu y byddent wedi elwa ar fod wedi cael cysylltiad ag ystod ehangach o SAU ac mewn rhai achosion, roedd y pwyslais a roddwyd ar Oxbridge mewn digwyddiadau canolfannau wedi gwneud iddynt benderfynu peidio â mynychu. Ategwyd y farn hon hefyd gan yr SAU a gyfwelwyd.

- Datblygu darpariaeth 'graid' a mwy cyson ar draws y canolfannau fel bod pob canolfan yn cynnig 'mwy' o'r gweithgareddau disgwylidig yn gyffredinol. Nododd rhai o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg y byddent wedi croesawu'r cymorth sydd eisoes ar gael mewn ardaloedd eraill: 'Rwy'n credu y dylem fod wedi cael cynnig mwy o sesiynau. Rwyf wedi sylwi ar flychau mewn adrannau o'r arolwg hwn sy'n sôn am gymorth gyda phrofion derbyn, help gyda chysiau Safon Uwch a chyfle i ymweld â phrifysgolion drwy Rwydwaith Seren. Ni chawsom gynnig dim o'r rhain. '
- Gwella blaengynllunio ar gyfer digwyddiadau Canolfannau Seren a gwella cyfathrebu gyda chyfranogwyr a rhieni ynglŷn â'r gweithgareddau hyn
- Adolygu'r sail resymegol dros gyfyngu Seren i'r rhai a oedd wedi gwneud yn dda mewn TGAU. Nododd un rhiant a gymerodd ran yn yr arolwg 'Dylai hyn fod ar gael i lawer mwy o fyfyrwyr. Mae'r rhai sy'n hwyr yn datblygu, nad ydynt efallai wedi gwneud yn dda yn eu harholiadau TGAU ond sydd â'r potensial i gael graddau Safon Uwch da, ar eu colled gan nad ydynt yn cael cynnig y cyfleoedd sydd ar gael o dan system Seren. Credaf fod hyn yn gynhenid annheg ac yn creu rhwyg.'

Amseriad y Ddarpariaeth

- 8.13 Mae amseriad digwyddiadau canolfannau lleol yn amrywio. Mewn naw ardal, cynhelir digwyddiadau yn bennaf yn hwyr yn y prynhawn/yn gynnar gyda'r nos ar ôl diwedd y diwrnod ysgol. Mewn dwy ardal, cynhelir digwyddiadau yn ystod y diwrnod ysgol.
- 8.14 Ategwyd hyn gan ganfyddiadau'r arolwg. Nododd mwyafrif y cyfranogwyr(112 neu 67 y cant) a'r rhieni (22) a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod fel arfer yn mynychu digwyddiadau Seren lleol ar ôl oriau ysgol, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr sy'n weddill yn mynychu yn ystod oriau ysgol (74 o gyfranogwyr neu 44 y cant, er enghraifft). Yn ôl y disgwyl, roedd yr ymatebion yn amrywio ar draws y canolfannau - roedd pawb a gymerodd ran yn yr arolwg o Geredigion yn mynychu digwyddiadau yn ystod oriau ysgol

ond roedd y rhai o Rondda Cynon Taf/Merthyr Tudful, Gwynedd/Ynys Môn a Chonwy/Sir Ddinbych yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau ar ôl ysgol.

- 8.15 Roedd y cyfranogwyr yn fodlon ag amseriadau eu digwyddiadau Seren Lleol yn gyffredinol, er y byddai'n well gan nifer bach fynychu sesiynau y tu allan i oriau ysgol er mwyn peidio â cholli gwersi. Roedd rhyw ddwy ran o dair o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (109 o gyfranogwyr neu 65 y cant a 25 o rieni) o'r farn bod y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ar amser a oedd yn gyfleus iddynt.

Lleoliad a hygyrchedd

- 8.16 Dywedodd rhai canolfannau fod eu digwyddiadau yn rhai peripatetig ac yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o adeiladau ysgolion a SAB er mwyn lleihau costau. Roedd eraill yn dueddol o ddefnyddio un lleoliad canolog a oedd, mewn rhai achosion, yn lleoliad y talwyd amdano neu'n lleoliad a ddarparwyd yn rhad ac am ddim gan bartner AB. Ni ddatgelodd y gwaith maes unrhyw farn gyson ynghylch a oedd y naill ddull yn gweithio'n well na'r llall. Gwelwyd bod ysgolion mewn nifer bach o ardaloedd wedi bod yn amharod i fynychu digwyddiadau a gynhaliwyd mewn lleoliadau AB, gan ofni y gallent golli disgyblion i'r sefydliadau hynny. Fodd bynnag, nododd ychydig o swyddogion Llywodraeth Cymru ac ysgolion partner/SAB fod Seren wedi helpu i oresgyn problemau o ddiffyg cydweithio rhwng ysgolion a cholegau.
- 8.17 Mewn ymateb i adborth gan gyfranogwyr a phresenoldeb is na'r hyn a fyddai'n ddelfrydol mewn digwyddiadau 'canolog' cychwynnol, dywedodd un ganolfan fod digwyddiadau bellach yn cael eu cynnal ar yr un pryd mewn tri lleoliad gwahanol a bod presenoldeb wedi gwella o ganlyniad i lai o amser teithio i'r cyfranogwyr. Yn yr un modd, mae cael cyfranogwyr i groesi ffiniau awdurdodau lleol wedi bod yn broblem i ddwy ganolfan ac yn y ddau achos mae'r canolfannau bellach yn trefnu dau ddigwyddiad ar wahân.
- 8.18 Mewn o leiaf chwe ardal, darperir trefniadau cludiant i gyfranogwyr a barnwyd bod hyn yn hanfodol i sicrhau presenoldeb da mewn digwyddiadau. Mewn ardaloedd eraill dim ond ar gyfer ymweliadau prifysgol y trefnir cludiant a disgwylir i gyfranogwyr wneud eu ffordd eu hunain i ddigwyddiadau lleol. Dywedodd llawer o ysgolion eu bod yn defnyddio eu


bysiau mini eu hunain i gludo myfyrwyr, gan ei gwneud yn ymarferol i nifer lai o fyfyrwyr gymryd rhan.

- 8.19 Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn fodlon â'r amser teithio er mwyn mynychu gweithgareddau Seren lleol gyda 128 o gyfranogwyr (76 y cant) a 30 o rieni yn rhannu'r farn hon.
- 8.20 Nid oedd yn anghyffredin i gyfranogwyr ddweud eu bod yn gorfod teithio hyd at awr, neu fwy mewn rhai achosion, i fynd i ddigwyddiadau rheolaidd ac awgrymodd y gwaith maes mai'r swm hwn o deithio oedd y 'terfyn uchaf' os nad yn 'rhy bell' os caiff y daith ei gwneud yn rheolaidd. Yn wir, canfu'r cyfweiliadau ansoddol, er bod cyfranogwyr yn llai brwdfrydig ynglŷn â theithio i ddigwyddiadau rheolaidd a gynhaliwyd gryn bellter i ffwrdd, roeddent yn barod i deithio i ddigwyddiadau 'achlysur' ymhellach i ffwrdd pe byddai'n golygu y gallant gael mynediad i sesiynau ar bwnc arbenigol.

Amllder y ddarpariaeth

- 8.21 Mae amllder digwyddiadau'r canolfannau lleol wedi amrywio - mewn un achos fe'u cynhaliwyd yn wythnosol, mewn achosion eraill, fe'u cynhaliwyd yn fisol ac yn yr ardaloedd sy'n weddill maent wedi cael eu darparu'n llai aml, fel arfer bob hanner tymor neu bob tymor academiaidd ond yn yr achosion hyn byddai digwyddiadau 'generig' eraill fel lansiad cychwynnol cyflwyniadau SAU yn cael eu hystyried yn weithgareddau ychwanegol.
- 8.22 Ategir yr amrywiad hwn, fel y dangosir yn Ffigur 8.4, gan ba mor aml y mae'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi ymwneud â Seren. Gellid ystyried bod traean wedi ymwneud â'r fenter yn rheolaidd, a byddai mwy na thraean ond mewn cysylltiad â'u canolfan leol unwaith bob tymor. Roedd y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn cyfleu patrwm tebyg, ond roedd cyfran uwch (15 o ymatebwyr) o'r farn bod eu plentyn wedi ymwneud â Seren yn llai aml nag unwaith bob dau fis. Cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ar draws Conwy a Sir Ddinbych oedd y rhai mwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi mynychu bob wythnos neu bythefnos, y rhai o RCT/Merthyr oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi mynychu bob mis ac roedd y rhai o Gaerdydd a Cheredigion yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi ymwneud â hi'n llai aml.

Ffigur 8.4: Pa mor aml yr oedd pobl yn mynychu digwyddiadau Seren lleol



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

Barn ynghylch sut y rheolwyd y canolfannau

- 8.23 Roedd mwyafrif y cyfranogwyr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystyried bod eu canolfan Seren leol yn cael ei rheoli naill ai'n dda iawn (37 o gyfranogwyr neu 22 y cant) neu'n eithaf da (82 o gyfranogwyr neu 39 y cant)⁵². Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif yn credu bod hyn yn wir gyda 22 y cant (37) o'r cyfranogwyr a 12 o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn nad oedd y ganolfan yn cael ei rheoli'n dda. Roedd y prif resymau a nodwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ynghylch pam nad oeddent yn credu bod y canolfannau'n cael eu rheoli'n dda yn adleisio sylwadau cynharach a wnaed ynghylch pam nad oedd y cyfranogwyr yn gallu mynychu sesiynau ac yn cynnwys diffyg gwybodaeth ymlaen llaw am ddigwyddiadau, cael eu hysbysu'n hwyr am ddigwyddiadau a drefnwyd, digwyddiadau'n cael eu canslo (a'r wybodaeth hon heb gael ei chyfleu i'r cyfranogwyr mewn rhai achosion) a bod digwyddiadau'n ddi-drefn ac yn dechrau'n hwyr.
- 8.24 Dywedodd rhieni a chyfranogwyr a oedd yn cychwyn ar eu taith gyda Seren nad oeddent yn ymwybodol o'r ddarpariaeth y gallent ei disgwyl a'r hyn y byddai'r rhaglen yn ei gynnig. Ymddengys fod disgwyliadau wedi'u codi ar draws sawl ardal ond nad yw'r rhain wedi'u bodloni'n gyson. Nododd nifer o

⁵² Roedd cyfran y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn debyg: Roedd 6 o'r farn bod y ganolfan yn cael ei rheoli'n dda iawn ac roedd 13 o'r farn ei bod yn cael ei rheoli'n eithaf da.

rieni a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi cael eu siomi gyda nifer y gweithgareddau a oedd ar gael:

'Dim hanner digon o weithgareddau o'i gymharu â'r hyn a addawyd ar y dechrau '.

'Wedi cael rhestr o'r holl weithgareddau oedd y rhwydwaith yn gobeithio ei gynnig ar ddechrau'r flwyddyn, ond wnaeth bron iawn ddim un o'r gweithgareddau yma gymryd lle: hynny neu ges i ddim gwadd.'


8.25 Mae'r adborth gan un rhiant a gyfwelwyd hefyd yn ategu hyn:

Roedd gan riant a chanddo ferch a oedd yn awyddus i astudio'r Gyfraith yn un o brifysgolion Grŵp Russell deimladau cymysg am y cymorth a gafwyd. Aeth y ddau ohonynt i ddigwyddiad lansio a oedd yn 'gwneud addewidion mawr ac wedi codi ein disgwyliadau'. Fodd bynnag, cafodd yr unig ddigwyddiad ar y Gyfraith ei ganslo ar y funud olaf gan adael y ddau wedi'u siomi yn y rhaglen. Teimlai'r rhiant hefyd nad oedd y ferch wedi gallu cael mynediad i'r cymorth a addawyd o ran helpu i nodi'r brifysgol orau i'w mynychu yng Nghrŵp Russell a pharatoi datganiad personol.

Pa mor ddefnyddiol oedd y ddarpariaeth

8.26 Y brif agwedd ar y ddarpariaeth Rhwydwaith Seren yr ystyriwyd ei bod fwyaf defnyddiol i'r cyfranogwyr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg oedd cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd mewn digwyddiadau (gyda 72 y cant o'r cyfranogwyr ac 17 o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn eu bod wedi bod yn ddefnyddiol). Ystyriwyd mai'r agweddau lleiaf defnyddiol oedd y cymorth a oedd ar gael i baratoi ar gyfer profion mynediad a darparu adnoddau dysgu estynedig, fel y dangosir yn Ffigur 8.5.

Ffigur 8.5: Pa mor ddefnyddiol oedd darpariaeth Rhwydwaith Seren



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

- 8.27 Un o'r themâu a gododd dro ar ôl tro ar draws y cyfweiliadau â rhanddeiliaid, cydlynwyr a chynrychiolwyr ysgolion/colegau oedd bod canolfan Seren yn cynnig cyfle gwych i gyfranogwyr gwrdd â chyfranogwyr 'o'r un anian'. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o werthfawr i'r cyfranogwyr a oedd yn dod o ysgolion lle nad oedd llawer o'u cyfoedion yn ystyried gwneud cais i SAU neu lle nad oedd gan yr ysgol record o gefnogi disgyblion i fynd i sefydliadau Oxbridge. Er y gallai hyn fod yn wir mewn rhai canolfannau, nid oedd llawer o gyfranogwyr a gyfwelewyd mewn sawl grŵp ffocws yn credu bod y cyfleoedd hyn wedi bod yn berthnasol i'r graddau yr oeddent wedi'i ddisgwyl. Yn hytrach, roedd y cyfle i fod yn rhan o'r rhwydwaith lleol wedi golygu bod rhai yn fwy ymwybodol o'r gystadleuaeth ar gyfer lleoedd SAU ac roedd hynny wedi eu sbarduno i fod yn fwy penderfynol o lwyddo.
- 8.28 Lle yr oeddent wedi gallu cael cymorth o'r fath, rhoddodd y cyfranogwyr a gyfwelewyd adborth da iawn am y cymorth a'r cyngor a gawsant mewn perthynas â pharatoi eu datganiadau personol a sut i baratoi ceisiadau cadarnach i SAU. Cafwyd adborth mwy cymysg gan gyfranogwyr a gyfwelewyd ynglŷn â gwerth dosbarthiadau meistr - er eu bod yn ddiddorol nid dyma yr ystyriwyd oedd yr agwedd fwyaf defnyddiol ar ddigwyddiadau i lawer

o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd yn bennaf gan na allent weld eto sut y byddai'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu o ddefnydd iddynt ond hefyd oherwydd eu bod yn ystyried nad oedd themâu'r dosbarthiadau meistr yn berthnasol iawn i'r meysydd academiaidd sydd o ddiddordeb iddynt.

- 8.29 Roedd o leiaf saith o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd wedi cymryd rhan yn ysgolion haf Seren ym mhrifysgolion Oxbridge. Roedd yr adborth a ddarparwyd am y digwyddiadau hyn yn eithriadol o gadarnhaol ac ystyriwyd bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran helpu myfyrwyr i benderfynu a oeddent yn dymuno bwrw ymlaen â'r broses o wneud cais i'r sefydliad. Mewn rhai achosion, roedd wedi helpu'r cyfranogwyr i benderfynu nad oedd Oxbridge yn addas iddynt hwy.

Y Gymraeg

- 8.30 Er bod y ddarpariaeth ar lefel genedlaethol megis digwyddiadau, cyhoeddiadau a gohebiaeth yn cael eu darparu'n ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf, canfu'r gwerthusiad fod yr ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg yn lleol yn amrywio'n sylweddol. Yng nghadarnleoedd naturiol yr iaith, awgrymwyd bod gan weithgareddau'r canolfannau ddiwylliant dwyieithog naturiol. Mewn un ardal, er enghraifft, adroddwyd bod yr holl adnoddau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac mewn dau faes cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn benodol yn Gymraeg e.e. dosbarth meistr Cymraeg neu siaradwr Cymraeg o SAU. Fodd bynnag, mae nifer o'r canolfannau nad ydynt yn rhoi bron ddim sylw i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, gyda digwyddiadau mewn o leiaf wyth canolfan yn cael eu cynnal yn Saesneg yn bennaf.
- 8.31 Cafwyd barn gymysg ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael yn y canolfannau o ystyried nod Seren o alluogi'r cyfranogwyr i astudio y tu allan i Gymru. Yn wir, dadleuodd nifer o'r cyfranwyr ei bod yn bwysig bod Seren yn cynnig cyfle i gyfranogwyr Cymraeg o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arbennig i drafod eu pwnc drwy gyfrwng y Saesneg, gan y byddai hyn o fudd iddynt wrth addasu i astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn y brifysgol. Roedd eraill yn ystyried ei bod yn bwysig bod y canolfannau'n rhoi sylw dyledus i anghenion siaradwyr Cymraeg. Byddai

cyfranogwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn o leiaf dair ardal wedi croesawu mwy o amlygrwydd i'r 'iaith Gymraeg' mewn digwyddiadau lleol, e.e. dylai'r ohebiaeth yn ymwneud â digwyddiadau fod yn ddwyieithog, gallai gair o groeso a chyflwyniadau mewn digwyddiadau fod yn ddwyieithog ac y dylai'r holl adnoddau a gynhyrchir fod ar gael yn y ddwy iaith. Ymddengys mai cyfyngiadau o natur ariannol (e.e. y costau sy'n gysylltiedig â thalu am gyfieithydd) a'r ffaith nad oedd cydlynwyr y canolfannau mewn naw ardal yn siaradwyr Cymraeg eu hunain oedd y prif gyfyngiadau a oedd yn atal canolfannau rhag bodloni'r gofynion hyn.

- 8.32 Mewn un ardal, gwelwyd bod mwy o ymdrechion wedi'u gwneud gan y ganolfan i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn dilyn adborth gan ysgol cyfrwng Cymraeg am ddiffyg darpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, nododd cyfranwyr o'r ganolfan hon eu siom o ran lefelau presenoldeb gwael er gwaetha'r ffaith iddynt drefnu gweithdy cyfrwng Cymraeg penodol, gan godi cwestiynau ynghylch y galw.
- 8.33 Gan adlewyrchu proffil iaith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, efallai nad yw'n annisgwyl nad oedd ychydig o dan hanner y cyfranogwyr (81 neu 48 y cant) eisiau cymryd rhan yn Rhwydwaith Seren drwy gyfrwng y Gymraeg. O blith y rhai a oedd yn awyddus i wneud hynny, roedd 32 o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (19 y cant) yn gallu cymryd rhan yn Gymraeg bob tro neu weithiau fel rheol ac roedd 30 (18 y cant) yn gallu gwneud hynny weithiau neu byth. Mynegwyd barn gymysg iawn ynghylch y graddau yr oedd Seren wedi gallu bodloni gofynion iaith Gymraeg y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg gyda hanner (51 y cant neu 42 o ymatebwyr) o'r farn ei fod wedi gwneud hynny a 18 y cant (15 o ymatebwyr) yn anghytuno.
- 8.34 Mynegwyd barn gymysg iawn gan y rhai a holwyd pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ymhellach ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn Rhwydwaith Seren:
- 'Doedd bron ddim o'r siaradwyr gwadd yn gallu cyflwyno yn Gymraeg.'
- 'Mae wedi gwneud ryw faint o ddarpariaeth Cymraeg, fodd bynnag, os mai'r prif nod yw cael mwy o fyfyrwyr o Gymru i fynd i brifysgolion Oxbridge a Grŵp Russell, yna nid yw'r prifysgolion hyn yn gweithredu yn Gymraeg.'

'Nid oedd yr un sesiwn rhwydwaith Seren wnes i fynychu ar gael yn Gymraeg'.

Cynhadledd Genedlaethol

- 8.35 Mae Rhwydwaith Seren wedi cynnal dwy Gynhadledd Genedlaethol hyd yma, y naill ym mis Mawrth a'r llall ym mis Rhagfyr 2017. Mynegwyd barn gymysg gan y rhai a gyfwelwyd am y Gynhadledd Genedlaethol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017. Nid oedd pob canolfan wedi cymryd rhan yn y digwyddiad hwn ond roedd y cyfranogwyr a'r athrawon a oedd wedi gwneud hynny yn llawn canmoliaeth. Dadleuodd un athro eu bod wedi elwa'n sylweddol o'r digwyddiad oherwydd eu diffyg profiad blaenorol o weithio gyda myfyrwyr MATH, gan mai dim ond yn ddiweddar yr oeddent wedi ymgymryd â'r rôl hon yn eu hysgol.
- 8.36 Roedd prif bryderon y cyfranwyr am y Gynhadledd Genedlaethol a gynhaliwyd ym mis Mawrth yn ymwneud ag:
- amseriad y gynhadledd gan yr ystyriwyd fod mis Mawrth yn gyfnod eithriadol o brysur o'r flwyddyn academiaidd i fyfyrwyr a oedd yng nghanol eu cyfnod adolygu. Yn gyffredinol croesawyd y ffaith bod y digwyddiad wedi'i symud i fis Rhagfyr yn ystod y flwyddyn academiaidd bresennol, ond roedd gan rai amheuan o hyd ynglŷn â'i amseriad
 - y ffaith bod y gynhadledd yn ddigwyddiad Cymru gyfan gan arwain at amseroedd teithio hir i'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol. Dywedodd sawl cyfrannwr y byddai'n well ganddo weld dwy gynhadledd ranbarthol er mwyn ysgafnhau'r baich teithio ar ysgolion a chyfranogwyr
 - dim digon o rybudd ymlaen llaw am y digwyddiad i ysgolion, colegau a chyfranogwyr
 - y ffaith bod cynnwys y gynhadledd yn dyblygu'r ddarpariaeth a oedd ar gael mewn canolfannau lleol i ryw raddau (e.e. paratoi ceisiadau UCAS a phroffion derbyn prifysgolion).

8.37 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad o Gynhadledd Genedlaethol mis Rhagfyr 2017⁵³ yn awgrymu y bu'r digwyddiad yn llwyddiant. Mynychwyd y gynhadledd gan 950 o fyfyrwyr o bob un o'r 11 canolfan a chwblhaodd 664 o fyfyrwyr holiadur gwerthuso. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y mwyafrif wedi dweud bod y gynhadledd yn rhagorol neu'n dda ac mai'r agwedd fwyaf gwerthfawr o'r digwyddiad oedd cael cysylltiad â phrifysgolion blaenllaw. Mae adborth gan 30 o athrawon, darlithwyr a chydlynwyr canolfannau hefyd yn dweud eu bod wedi cael profiad cadarnhaol o'r digwyddiad ac ystyriwyd mai'r elfen fwyaf gwerthfawr ar y gynhadledd oedd cael cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o brifysgolion blaenllaw'r DU.

⁵³ Adroddiad Gwerthuso Cynhadledd Genedlaethol Rhwydwaith Seren 6-7 Rhagfyr 2017 (heb ei gyhoeddi)

9. Ymgysylltu â SAU

- 9.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar natur ymgysylltiad canolfannau Seren â SAU ac yn defnyddio adborth SAU a gyfwelwyd. Mae'r bennod hefyd yn ystyried barn swyddogion Llywodraeth Cymru, cydlynwyr canolfannau, cynrychiolwyr ysgolion a SAB, cyfranogwyr a rhieni ynghylch sut y dylai Seren ymgysylltu â SAU yn y dyfodol.

Natur yr ymgysylltiad

- 9.2 Mae nifer yr SAU sydd wedi ymgysylltu â chanolfannau Seren hyd yma wedi amrywio o isafswm o bedwar i uchafswm o wyth. Nid oedd yn anarferol i ganolfannau fod â chysylltiad â phrifysgolion yn Lloegr yn ogystal ag ambell sefydliad yng Nghymru. Mae rôl SAU wedi cynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau lansio, darparu sesiynau ar bynciau penodol, cynnig cyngor ar baratoi datganiadau personol a gwneud cyflwyniadau ar wneud cais i brifysgolion.
- 9.3 Prifysgol Caergrawnt, ac yna Brifysgol Rhydychen, oedd y SAU y cyfeiriwyd atynt amlaf fel y rhai yr oedd canolfannau lleol wedi ymgysylltu â hwy. Yn ôl y disgwyl, oherwydd eu hagosrwydd daearyddol, roedd canolfannau yn y gogledd yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi ymgysylltu â SAU dros y ffin (Manceinion a Lerpwl) tra bod gan y rhai yn y de-ddwyrain gysylltiadau cryfach â SAU yn ne-orllewin Lloegr (e.e. Caerfaddon a Bryste).
- 9.4 O safbwynt SAU, roedd sefydliadau Oxbridge yn dadlau eu bod wedi buddsoddi'n drwm yn Rhwydwaith Seren gydag un cynrychiolydd yn amcangyfrif bod eu hymwneud â'r rhwydwaith yn gyfystyr â chyswllt pob pythefnos ar gyfartaledd. Mewn prifysgol arall yn ne-orllewin Lloegr, amcangyfrifwyd bod y sefydliad fel arfer yn mynychu digwyddiad Seren unwaith pob cwpwl o fisoedd.
- 9.5 Fel y trafodwyd eisoes, roedd y cyfranogwyr ac ysgolion/SAB partner a gyfwelwyd yn feirniadol o'r ffaith bod gormod o ffocws wedi bod ar ymgysylltu â sefydliadau Oxbridge ar draul sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithgaredd. Byddai'r cyfranwyr hyn yn croesawu mwy o ymgysylltiad ag ystod ehangach o SAU yn y dyfodol. Er tegwch iddynt, awgrymodd cydlynwyr y canolfannau eu bod, ar adegau, wedi wynebu anawsterau o ran

ymgysylltu â nifer mwy o SAU oherwydd nad oedd yr SAU yn credu bod Cymru'n ardal sydd o ddiddordeb iddynt. Roedd un canolfan o'r fath a oedd ond wedi gallu ymgysylltu ag ambell SAU yn ymwybodol bod canolfannau eraill hefyd yn 'cystadlu' am yr un siaradwyr.

- 9.6 Roedd pob canolfan wedi manteisio ar fewnbwn gan gynrychiolwyr o rai SAU a oedd yn lleol iddynt yng Nghymru ac ystyriwyd bod eu mewnbwn wedi bod yn allweddol o ran galluogi'r canolfannau lleol i ddarparu rhaglen lawn i'r cyfranogwyr. Credwyd bod chwe SAU yng Nghymru wedi bod yn ymwneud â Rhwydwaith Seren hyd yma.

Adborth gan SAU

- 9.7 Yn gyffredinol, roedd yr adborth gan y SAU a gyfwelwyd a oedd eisoes yn ymwneud â Seren yn gadarnhaol iawn gan eu bod yn cydnabod gwerth ymgysylltu â Rhwydwaith Seren ac, mewn sawl achos, roeddent 'wedi buddsoddi'n helaeth iawn yn Seren'. Dywedodd un cyfrannwr o'r fath fod Seren:

'... yn cyd-fynd â'n nodau ni hefyd. Mae gennyf feddwl mawr o'r rhwydwaith, ac mae'n ein helpu ni, gan ei fod yn dod â'n cynulleidfâ darged at ei gilydd '.

- 9.8 Yn wir, roedd yr SAU a gyfwelwyd yn cydnabod y manteision posibl i'w sefydliad yn sgil ymgysylltu â Seren, yn enwedig yng nghyd-destun y farchnad gystadleuol y buont yn gweithredu ynddi a'r angen iddynt ddangos eu bod yn cyflawni allgymorth effeithiol i grwpiau economaidd-gymdeithasol difreintiedig (er nad yw Rhwydwaith Seren yn canolbwyntio ar y grŵp arbennig hwn).

- 9.9 Yn gyffredinol, awgrymodd SAU fod eu cyfraniad i Rhwydwaith Seren yn cynnwys cyflwyniadau mewn digwyddiadau lansio, darparu sesiynau gwybodaeth a chyngor ar wneud cais i brifysgol, a threfnu i staff academiaidd gyflwyno sesiynau ar bynciau penodol. Mae rhai SAU hefyd wedi trefnu i gyn-fyfyrwyr fod ar gael i siarad mewn digwyddiadau.

- 9.10 Gwnaeth cynrychiolwyr SAU nifer o sylwadau am eu hymwneud â Rhwydwaith Seren ac fe'u crynhowyd fel a ganlyn:

- gwahaniaeth rhwng pa mor dda y mae canolfannau gwahanol wedi'u trefnu a'r profiad y mae cyfranogwyr yn ei gael e.e. mewn rhai canolfannau, credwyd bod cyfranogwyr yn cael 'mwy o gymorth, a gwell profiad nag eraill'
- mae'n haws cydweithio â rhai canolfannau nag eraill a'r nodweddion cyffredin yw: 'arweinyddiaeth wych gan gydlynnydd y ganolfan, rhwydweithiau sefydledig, a digwyddiadau lle ceir presenoldeb da'
- nid ystyriwyd bod ambell ganolfan yn gweithio cystal o'u safbwynt hwy, ar ôl cael 'rhai problemau cychwynnol, a gall fod yn anodd cael cysylltiad parhaus â'r arweinwyr'
- amrywiad yn y niferoedd a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau gyda phresenoldeb da o oddeutu 250 o fyfyrwyr mewn rhai digwyddiadau a phresenoldeb gwael iawn mewn digwyddiadau eraill (e.e. mewn un achos, dim ond rhyw chwech o gyfranogwyr a oedd yn bresennol mewn digwyddiad a fynychwyd gan gynrychiolydd y SAU ac roedd un arall yn cofio digwyddiad lle mai dim ond dau gyfranogwr a oedd yn bresennol). Yn yr achosion hyn, tynnodd cynrychiolwyr y SAU sylw at yr anawsterau o ail-ymgysylltu â'r un darlithydd academiaidd i gyflwyno rhagor o ddigwyddiadau Seren gan ofyn tybed a oes angen ystyried gwneud presenoldeb yn orfodol i'r cyfranogwyr.
- barn bod y cydlynwyr wedi bod yn gweithio ar eu pen eu hunain i raddau helaeth o ran cydweithio â SAU ond bod arwyddion mwy diweddar eu bod bellach yn rhannu cysylltiadau a'r hyn a ddysgwyd ymysg ei gilydd
- barn bod cydlynwyr y canolfannau wedi gwella'r ffordd yr oeddent yn cyfleu pa gymorth penodol yr oedd ei angen ar y ganolfan gan yr SAU er bod rhai enghreifftiau o hyd lle nad oedd digwyddiadau posibl wedi dod yn ffaith a lle roedd eraill wedi cael eu gohirio neu eu canslo
- anawsterau i SAU ymdrin â cheisiadau munud olaf gan ganolfannau i ddarparu siaradwyr ar gyfer digwyddiadau
- rhai pryderon nad oedd pob ysgol mewn rhai canolfannau'n ymgysylltu â Seren.

- 9.11 Mae'r adborth cychwynnol yn awgrymu, drwy fod yn rhan o Rwydwaith Seren, bod SAU wedi dyrannu mwy o adnoddau ac amser i waith allgymorth ar draws Cymru yn gyffredinol. Mewn un achos, er enghraifft, cyfaddefodd yr SAU nad oedd wedi ymgysylltu ag unrhyw ysgolion unigol neu SAB ar draws Cymru o'r blaen a bod y gweithgaredd allgymorth a gyflwynwyd drwy Seren yn cael ei ystyried yn ddarpariaeth gwbl ychwanegol.
- 9.12 Er gwaethaf rhai o'r negeseuon cymysg am ganolfannau unigol, ymddengys fod y rhan fwyaf o SAU yn ystyried bod Rhwydwaith Seren yn fodel effeithlon ar gyfer ymgysylltu â'r disgyblion gorau, ac wrth wneud hynny, yn caniatáu iddynt gyrraedd nifer mwy o fyfyrwyr, a hynny'n fwy rheolaidd. At hynny, cyfeiriodd SAU at dystiolaeth bod Rhwydwaith Seren wedi caniatáu iddynt ymestyn eu cyrhaeddiad daearyddol, yn aml oddi wrth yr ysgolion a'r colegau hynny sydd wedi'u lleoli ar hyd coridor yr M4 a thargedu ardaloedd mwy gwledig.
- 9.13 Fodd bynnag, nid oedd yr holl SAU a gyfwelwyd o'r un farn. Mewn un achos, roedd yr SAU wedi penderfynu 'peidio ag ymestyn allan i fwy o ganolfannau' gan nad oeddent yn gweld y gwerth ychwanegol o fod yn gysylltiedig' ag un o'r canolfannau Seren oherwydd y nifer bach o gyfranogwyr a oedd yn y digwyddiadau a gynhaliwyd ganddo.

Adborth gan SAU nad oeddent yn ymgysylltu â Seren

- 9.14 Nid oedd o leiaf dri SAU a gyfwelwyd wedi ymwneud â Seren ac nid oedd un o'r cyfranwyr hyn yn ymwybodol o gwbl o'r fenter. Roedd y ddau arall yn cwestiynu cylch gorchwyl y fenter, gan awgrymu bod diffyg ymgyrch gydgysylltiedig i dargedu holl SAU Grŵp Russell/Ymddiriedolaeth Sutton er mwyn cyfleu pwrpas Seren. Roedd un o'r farn mai pwrpas Seren oedd helpu disgyblion difreintiedig mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru i gael mynediad i gyrsiau a phrifysgolion ac i feddwl am eu dewisiadau gyrfa a dywedodd un arall:

'Dw i ddim hyd yn oed yn siŵr beth yw ei gylch gwaith. Does neb erioed wedi sôn am ei gylch gwaith, fel pe bai disgwyl i mi wybod ... annog plant a phobl ifanc i fynd i Addysg Uwch - dw i ddim yn siŵr iawn".

- 9.15 Awgrymodd SAU nad oeddent wedi bod yn rhan o Seren hefyd eu bod yn betrusgar am 'gamu i diriogaethau SAU eraill' a oedd yn agosach at y farchnad yn ddaearyddol.
- 9.16 Nododd un academydd a gyfwelwyd a oedd wedi cyflwyno dosbarth meistr yn un o ganolfannau Seren fod pwrpas y fenter yn 'dipyn o ddirgelwch' iddo a'i fod wedi tybio ei bod yn canolbwyntio ar annog myfyrwyr difreintiedig i wneud cais i'r Brifysgol. Er bod ei brofiad wedi'i gymharu â phrosiectau allgymorth tebyg eraill, nodwyd bod prosiectau allgymorth eraill fel arfer yn cynnig taliad i academyddion am eu hamser.

Y ffordd ymlaen o ran ymgysylltu â SAU

- 9.17 Un neges bwysig i'w chyfleu gan gynrychiolwyr SAU, yn enwedig y rhai nad oeddent yn cymryd rhan ar hyn o bryd, oedd bod angen i Rwydwaith Seren fabwysiadu dull mwy strategol o gyfathrebu nodau ac amcanion y rhaglen i uwch arweinwyr ar draws SAU, i sicrhau bod ymrwymiad strategol gan sefydliadau targed wedi ei sicrhau o'r cychwyn cyntaf. Dadleuodd un cyfrannwr o'r fath:
- 'byddai'r agenda o gael myfyrwyr o Gymru i fynd i brifysgolion Grŵp Russell o ddiddordeb i'r Brifysgol yn gyffredinol, nid dim ond [y gyfadran hon]. Mae angen datblygu a chyflwyno hyn ar lefel lawer mwy strategol yma. Mae angen trosolwg ar y sefydliad a dylai gynllunio sut i ymwneud â'r rhwydwaith yn llawer mwy strategol, a dylai hynny dreiddio i lawr i bobl fel fi ym mhob cyfadran'.
- 9.18 Ar ben hynny, barn eithaf cyffredin a welwyd ar draws SAU a gyfwelwyd oedd y gellid gwneud mwy i fabwysiadu dull gweithredol cydlynus ar draws Rhwydwaith Seren wrth ymgysylltu â SAU. Mewn un achos roedd cynrychiolydd SAU yn pryderu bod canolfannau gwahanol yn cysylltu â gwahanol aelodau o staff tra bod un arall yn pryderu yn yr un modd am y posibilrwydd o orfod cyd-drafod â nifer o gydlynwyr canolfannau ledled Cymru, o ystyried eu bod ond yn cydweithio ag un ar hyn o bryd. O ran efelychu'r arfer da a oedd eisoes ar waith mewn un SAU, awgrymwyd y gellid ymchwilio i benodi Hyrwyddwyr Seren mewn SAU. Roedd y model hwn eisoes wedi'i fabwysiadu'n llwyddiannus mewn un sefydliad addysg uwch ac

roedd gan gydlynwyr canolfannau un pwynt cyswllt yn y sefydliad hwnnw bellach.

- 9.19 Byddai SAU yn croesawu adborth a data o ganolfannau Seren ar bwy o'r ardal sydd wedi gwneud cais i astudio yn eu sefydliad. Byddai'r wybodaeth hon yn eu helpu i 'gau'r ddolen' a mesur effeithiolrwydd eu hymgysylltiad yn ogystal â gallu nodi cyfranogwyr Seren sy'n gwneud cais ac yn cofrestru i astudio. Dywedodd un cyfrannwr o'r fath y byddai'n ddefnyddiol cael rhestr o enwau cyfranogwyr yn y canolfannau hynny y mae'n ymweld â hwy (a phwy sy'n mynychu eu sesiynau) er mwyn ei pharu â data ar y rhai sy'n gwneud cais i'r brifysgol ac yn cofrestru gyda hi. Awgrymwyd hefyd y dylai rhai SAU ystyried yr ymgeiswyr hynny sy'n dangos eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ehangu cyfranogiad megis Seren ac felly byddai sicrhau bod y data hyn ar gael i SAU o fudd i'r myfyriwr mewn perthynas â'r broses gynnig.
- 9.20 Awgrymodd rhai cyfranwyr y gallai Rhwydwaith Seren edrych ar ddatblygu memoranda cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda SAU a allai nodi prosesau a rolau priodol ar gyfer canolfannau a sefydliadau, gan gynnwys llawer o'r awgrymiadau a wnaed yn y paragraffau blaenorol.

10. Y Gwahaniaeth a Wnaed

- 10.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar y gwahaniaeth y mae Rhwydwaith Seren wedi'i wneud i'r cyfranogwyr a gymerodd ran. Mae'n defnyddio barn cyfranogwyr a rhieni yn bennaf ond mae hefyd yn ystyried yr adborth gan gynrychiolwyr ysgolion a cholegau. Mae'n bwysig nodi y bydd llawer o ffactorau'n effeithio ar benderfyniadau cyfranogwyr mewn perthynas ag Addysg Uwch ac mae priodoli newidiadau i Rwydwaith Seren yn unig yn broblematig oherwydd effaith ffactorau allanol eraill megis cyflawniad mewn arholiadau Safon Uwch, cystadleuaeth am leoedd academiaidd mewn SAU ac amgylchiadau a dewisiadau personol.

Effeithiau cadarnhaol

- 10.2 Awgrymodd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a'r cyfweiliadau fel ei gilydd fod Seren wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at godi eu dyheadau, gwella eu hyder a'u hannog i feddwl yn fwy uchelgeisiol am eu dewisiadau prifysgol, yn enwedig yng nghyd-destun sefydliadau Oxbridge. Gwelwyd bod y fenter wedi 'rhoi hwb ychwanegol i rai disgyblion' – hwb yr oedd ei angen arnynt i wneud cais i brifysgol flaenllaw. Dywedodd un cyfranogwr a gyfwelwyd:

'Un o'r pethau gorau am Seren yw eich bod yn sylweddoli y dylech anelu'n uchel. Rwy'n gwybod ei fod braidd yn ystrydebol pan maen nhw'n dweud wrthyich chi 'mae pob un ohonoch yn seren' ond mae'n rhoi hwb i chi.'

- 10.3 Yn benodol, darganfu ein gwaith maes nifer o fyfyrwyr a anogwyd i wneud cais am le yn Oxbridge o ganlyniad i Seren, fel y dangosir isod:

'Dw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi gwneud cais i Rydychen heb raglen Seren. Mae Seren yn rhoi gwybod i chi eich bod ychydig yn well nag yr oeddech chi'n ei feddwl.'

'Fyddwn i byth wedi gwneud cais am le yn Oxbridge gan nad oeddwn yn deall y posibiliadau.'

- 10.4 Yn yr un modd, roedd ysgolion a arolygwyd yn dechrau gweld effeithiau cadarnhaol menter Seren, fel y mae un enghraifft yn ei ddangos:

'Ym mlwyddyn 13 gyda 30 o fyfyrwyr, rydym newydd gyflwyno 10 cais i UCAS ar gyfer mynediad cynnar (2 ar gyfer Caergrawnt, 3 ar gyfer Rhydychen, 2 ar gyfer Deintyddiaeth, 5 ar gyfer Meddygaeth) sy'n record i ni, felly mae'n amlwg bod Seren yn gweithio.'

- 10.5 Nododd nifer bach o gyfranogwyr fod y rhwydwaith wedi chwarae rhan bwysig o ran darparu amgylchedd diogel iddynt ystyried a thrafod gwneud cais i sefydliadau Oxbridge. Mewn dau o'r achosion hyn, dywedodd y cyfranogwyr a gyfwelwyd fod yr amgylchedd cefnogol hwn yn gwrthgyferbynnu ag agweddau negyddol cyfoedion mewn ysgolion unigol lle yr ystyriwyd bod disgyblion sy'n gwneud cais i Oxbridge yn 'drahaus', 'yn destun sbort' neu'n 'ddim yn ddigon da i fynd'.

- 10.6 Mewn un ganolfan lle y cyfwelwyd cyn gyfranogwyr, cofnododd y gwerthusiad dystiolaeth bod canfyddiad bod Seren wedi gwella siawns cyfranogwyr o fynd i sefydliadau Oxbridge. Dywedodd un cyn gyfranogwyr o'r fath a gyfwelwyd:

'Dw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi mynd yno oni bai am Seren ... rhoddodd wybodaeth ehangach i mi a wnaeth fy helpu yn y cyfweiliad'.

- 10.7 Canfu'r gwerthusiad hefyd fod Seren wedi bod o werth wrth helpu cyfranogwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am y cwrs prifysgol o'u dewis - a oedd o bosibl yn lleihau'r perygl o roi'r gorau iddi neu newid cyrsiau yn nes ymlaen. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd hyn wedi golygu bod cyfranogwyr yn penderfynu peidio gwneud cais i astudio yn un o sefydliadau Oxbridge neu, mewn ychydig iawn o achosion, yn penderfynu, peidio â gwneud cais i fynd i Addysg Uwch o gwbl a dilyn trywydd arall:

'Fe wnes i fwynhau a gwerthfawrogi'r ysgol haf [ym Mhrifysgol Rhydychen] yn fawr ond fe wnes i sylweddoli nad dyma oeddwn i eisiau ei wneud, doeddwn i ddim eisiau astudio meddygaeth.'

'Fe wnaeth Seren newid fy meddwl yn llwyr am yr hyn yr oeddwn i eisiau ei wneud - erbyn hyn dw i'n meddwl am yrfa gwbl wahanol'.

- 10.8 Roedd nifer mawr o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd eisoes yn glir ynglŷn â'u dewis cyntaf o brifysgol pan ddechreusant ymgysylltu â Seren fodd bynnag, gan godi cwestiynau am y gwerth a ychwanegwyd gan y fenter. Mewn un

ganolfan, er enghraifft, roedd y cyfranogwyr a gyfwelwyd yn dadlau eu bod eisoes yn uchelgeisiol o ran eu dewis o brifysgol ac, yn absenoldeb Seren, y byddent wedi gwneud cais am leoedd astudio ym mhrifysgolion Grŵp Russell beth bynnag. Yn y grŵp hwn awgrymwyd bod Seren wedi cyfrannu at gadarnhau bod eu penderfyniadau'n addas.

- 10.9 Neges glir arall gan y cyfranogwyr a gyfwelwyd oedd bod y digwyddiadau wedi gwneud iddynt sylweddoli pwysigrwydd darllen yn eang o amgylch eu maes pwnc er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer gwneud cais i SAU a pherfformio'n dda mewn cyfweiliadau. Cytunodd dau gyfranogwr a gyfwelwyd mewn un ganolfan fod eu cyfranogiad wedi eu hannog i ddarllen yn ehangach am eu pwnc ac mewn un achos dadleuwyd bod hyn wedi ffurfio rhan bwysig o'i datganiad personol. Yn wir, lle roeddent wedi cael cymorth mewn perthynas â'u datganiadau personol, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd yn credu bod Seren wedi eu hannog i ddatblygu'r rhain yn llawer cynt nag a fyddai wedi bod yn wir fel arall, a hefyd wedi eu helpu i lunio datganiadau personol cadarnach. Mewn llawer o achosion, credwyd bod hyn wedi cael sgil-effaith gadarnhaol mewn ysgolion gan fod myfyrwyr bellach yn rhoi ystyriaeth i geisiadau prifysgol yn llawer cynharach:
- 'mae pawb yn fy mlwyddyn i - Blwyddyn 12 - bellach yn trafod dewisiadau Prifysgol, mae'n digwydd yn gynharach - ac mae hynny'n glod i'r cynllun.'

- 10.10 Ychydig iawn o ddata a oedd ar gael adeg ein gwerthusiad ar draws canolfannau Seren er mwyn gallu adrodd ar y gwahaniaeth yr oedd y fenter yn ei wneud o ran y niferoedd sy'n gwneud cais i sefydliadau tariff uwch yn gyffredinol, gan mai 2017/18 oedd blwyddyn lawn gyntaf y rhaglen ar draws Rhwydwaith Seren. Mae'n werth nodi hefyd y byddai'n amhosibl gallu asesu effaith y fenter yn absenoldeb unrhyw ddata gwrthffeithiol cadarn. Mewn llond llaw o achosion, rhannwyd tystiolaeth gyda'r tîm gwerthuso i awgrymu y bu cynnydd yn nifer y ceisiadau a wnaed ar draws yr ardal yn ystod 2017 o gymharu â llinell sylfaen 2016.


- 10.11 Roedd cyfweiliadau ansoddol yn awgrymu bod Rhwydwaith Seren yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd y sector addysg yn fwy eang er mwyn cefnogi disgyblion yn well wrth wneud

cais i brifysgolion. Awgrymwyd mai'r ysgolion hynny nad oedd ganddynt ymgysylltiad cryf blaenorol â phrifysgolion a oedd wedi elwa fwyaf. Mewn rhai achosion, canfu'r gwerthusiad hefyd fod tystiolaeth bod ysgolion a cholegau a chanddynt ymgysylltiad da â phrifysgolion yn flaenorol yn rhannu eu gwybodaeth, eu profiad a'u cysylltiadau â chynrychiolwyr ysgolion eraill.

Y cyfranogwyr a'r rhieni gymerodd ran yn yr arolwg

10.12 Roedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn bod menter Seren wedi gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt o ran eu galluogi i feddwl yn fwy uchelgeisiol am eu dewisiadau prifysgol (gyda 62 y cant neu 104 o gyfranogwyr yn rhannu'r farn hon). Ystyriwyd bod Seren hefyd yn bwysig o ran cyfrannu at godi dyheadau cyfranogwyr (gyda 53 y cant neu 88 o gyfranogwyr yn meddwl bod y fenter wedi gwneud hynny) a rhoi cyfle i weithio gyda myfyrwyr eraill sy'n cyflawni i lefel uchel. Fel y dangosir yn Ffigur 10.1, nid ystyriwyd bod cyfranogiad o fewn Rhwydwaith Seren wedi dylanwadu rhyw lawer ar opsiynau gyrfar cyfranogwyr nac wedi eu newid.


Ffigur 10.1: Y gwahaniaeth yn sgil cymryd rhan yn Rhwydwaith Seren



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 (Sail=168 o gyfranogwyr)

- 10.13 Gofynnwyd i'r cyfranogwr a'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd eu cyfranogiad yn Rhwydwaith Seren yn debygol o'u helpu i wneud cais cadarnach i brifysgol. O ystyried y gyfradd ymateb uwch gan gyfranogwyr, mae Ffigur 10.2 yn cyflwyno'r data a gasglwyd fel rhan o'r arolwg o gyfranogwyr ond mae'n werth nodi bod y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg ychydig yn fwy negyddol yn gyffredinol o gymharu e.e. dim ond chwech a naw o rieni a oedd yn credu y byddai Seren yn helpu eu plentyn i wneud Cais cadarnach i brifysgol Oxbridge neu brifysgol arall yn y drefn honno.
- 10.14 Roedd mwyafrif y cyfranogwyr a arolygwyd yn credu y byddai Rhwydwaith Seren yn eu helpu i wneud cais cadarnach i brifysgolion ac roedd tua thraean o'r farn y byddai'r fenter yn cael effaith bositif ar eu gallu i sicrhau cyfweiliad neu le astudio.

Ffigur 10.2: Barn ynghylch sut y bydd cymryd rhan yn helpu cyfranogwyr



Ffynhonnell: Arolwg dros y we OB3 o gyfranogwyr (Sail: 47 a oedd yn dymuno astudio yn un o brifysgolion Oxbridge a 108 a oedd yn dymuno astudio mewn prifysgol arall)

- 10.15 Roedd cynrychiolwyr ysgolion a SAB a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn y byddai cymryd rhan yn Rhwydwaith Seren yn arwain at newidiadau i nifer o ddisgyblion yn eu hysgol neu goleg a fyddai'n gwneud cais i brifysgolion blaenllaw ac yn mynd ymlaen i astudio ynddynt. O'r rhai a holwyd (23):
- Roedd 13 o'r farn y byddai Seren yn gwneud gwahaniaeth i'r nifer o ddisgyblion o'u hysgol neu goleg sy'n gwneud cais i un o brifysgolion Oxbridge

- Roedd 9 o'r farn y byddai Seren yn gwneud gwahaniaeth i'r nifer o ddisgyblion o'u hysgol neu goleg a oedd yn cael cynnig gan un o brifysgolion Oxbridge ac roedd 8 yn credu y byddai'n gwneud gwahaniaeth i'r nifer a fyddai'n cofrestru yn y prifysgolion hynny.
- Roedd 14 o'r farn y byddai Seren yn gwneud gwahaniaeth i'r nifer o ddisgyblion o'u hysgol neu goleg sy'n gwneud cais i un o brifysgolion Grŵp Russell neu Ymddiriedolaeth Sutton, sy'n derbyn cynnig gan un o'r prifysgolion hynny (13) neu'n cofrestru ynddynt (13).

10.16 Roedd gan y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd eisoes yn y brifysgol farn gymysg ynghylch y graddau yr oeddent yn credu bod cymryd rhan yn Rhwydwaith Seren wedi eu helpu. Rhaid cymryd gofal wrth ystyried y canfyddiadau hyn, o gofio eu bod yn seiliedig ar adborth gan ddim ond wyth o gyfranogwyr a thri o rieni ond yn gyffredinol roedd gan yr ymatebwyr hyn farn wahanol iawn ynghylch a oedd y fenter wedi eu helpu i wneud cais cryf i brifysgol ac yn y pen draw wedi sicrhau lle astudio iddynt.

Effeithiau anfwriadol

10.17 Awgrymodd yr adborth gan gyfranogwyr a chynrychiolwyr ysgolion o o leiaf ddwy ardal lle roedd canolfannau fod cyflwyno Rhwydwaith Seren wedi creu rhai tensiynau mewn nifer bach o ysgolion rhwng y rhai a oedd yn cymryd rhan a'r rhai nad oeddent yn cymryd, gyda'r rhai nad oeddent yn cymryd rhan yn ystyried y cyfranogwyr yn grŵp 'elitaidd'. Nid ystyriwyd bod hyn yn wir ar draws lleoliadau colegau, yn bennaf oherwydd nad oedd y 'grŵp Seren' mor weladwy nac mor hawdd ei adnabod. Cododd hyn mewn o leiaf ddwy ysgol, ac ymdriniwyd â'r mater mewn ffordd sensitif:

'Rwy'n gwybod y gall fod yn dipyn o embaras iddyn nhw ac rwy'n tueddu i ddelio â nhw yn ddisylw'.

10.18 Mewn achosion eraill, gwelwyd bod y cyfranogwyr yn rhannu eu gwybodaeth â chyfoedion nad oeddent yn cymryd rhan yn y fenter:

'rydyn ni'n mynd yn ôl ac yn dweud wrthyn nhw beth ddylen nhw ei roi a beth na ddylen nhw ei roi yn eu datganiadau personol. Drwy fod yn rhan o Seren, rydych yn cael gwybod am y pethau hyn yn llawer cynharach.'

11. Gwerthusiad Terfynol o Effaith

Cyflwyniad

- 11.1 Mae'r bennod hon yn trafod ymarferoldeb cynnal gwerthusiad o effaith Rhwydwaith Seren. Mae'r bennod yn disgrifio'r ffynonellau data ac yn rhoi trosolwg o'r technegau methodolegol a allai hwyluso asesu effeithiolrwydd cyffredinol Rhwydwaith Seren. Gellir ystyried bod cymryd rhan yn rhaglen Seren yn ymyrraeth lle y gallai cyfranogiad myfyrwyr gael effaith ffafrinol ar y nifer a fydd yn mynychu prifysgolion blaenllaw'r DU. Mae unrhyw werthusiad o'r effeithiau hyn yn gofyn am gofnod o'r hyn a fyddai wedi digwydd i'r disgyblion yn Rhwydweithiau Seren pe na baent wedi cymryd rhan yn y rhaglen - y cyfeirir ato fel y sefyllfa wrthffeithiol. Mae'r bennod hon yn disgrifio materion sy'n gysylltiedig â defnyddio technegau ystadegol sy'n gallu asesu effeithiolrwydd Seren drwy gyfrwng technegau Dadansoddiad o Effaith Wrthffeithiol.
- 11.2 Gan fod ehangu mynediad i brifysgolion detholgar iawn yn y DU yn her genedlaethol eang, cydnabyddir bod nifer o wasanaethau wedi eu datblygu gan sefydliadau yn y DU sy'n caniatáu olrhain hanes myfyrwyr sydd wedi cymryd rhan mewn cynlluniau tebyg i Seren. Er enghraifft, mae'r System Orlhain Addysg Uwch (HEAT), yn helpu Sefydliad Addysg Uwch (SAU) sy'n tanysgrifio iddi yn Lloegr i olrhain myfyrwyr sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau allgymorth mewn ysgolion a cholegau, hyd at eu cyfranogiad mewn Addysg Uwch. Mae Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) hefyd yn darparu gwasanaethau dadansoddol (EXACT) sy'n caniatáu i gleientiaid ofyn am setiau data ac allbynnau ystadegol safonol a phwrpasol sy'n caniatáu i gleientiaid archwilio canlyniadau Addysg Uwch disgyblion. Er ei fod yn werthfawr i'r rhai sydd â diddordeb mewn archwilio cyrchfannau myfyrwyr, gwasanaethau disgrifiadol yw'r rhain yn bennaf ac nid ydynt yn hwyluso'r defnydd o dechnegau Dadansoddi Effaith Wrthffeithiol manylach.
- 11.3 Mae enghreifftiau o werthusiadau blaenorol o raglenni tebyg gan ddefnyddio technegau gwrthffeithiol yn cynnwys gwerthusiadau o'r Brilliant Club a Teach First. Nod y Brilliant Club yw cynyddu nifer y disgyblion o gefndiroedd sydd

heb gynrychiolaeth ddigonol i brifysgolion detholgar drwy gynnwys ymchwilwyr PhD mewn gweithgareddau allgymorth mewn ysgolion (y cyfeirir ato fel y Scholars Programme). Awgrymodd gwerthusiad gan UCAS fod y rhaglen ysgolorion yn cael effaith ystadegol arwyddocaol os caiff cynnydd y cyfranogwyr ei gymharu yn erbyn grŵp rheoli gyda nodweddion tebyg ond a oedd heb fod yn rhan o'r rhaglen ysgolorion⁵⁴. Sefydlwyd Teach First fel elusen yn 2002 i ddarganfod a datblygu pobl dalentog i addysgu ac arwain mewn ysgolion mewn ardaloedd incwm isel. Prif nod Teach First yw gwella profiad ysgol disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Addysg⁵⁵ fod ysgolion sy'n gweithio gyda Teach First wedi gwella eu sgoriau TGAU⁵⁶. Roedd ymchwilwyr yn cymharu canlyniadau disgyblion mewn ysgolion partner Teach First â'r rhai mewn ysgolion tebyg. Canfuwyd bod cysylltiad rhwng y rhaglen â chynnydd mewn canlynadau TGAU o tuag un radd yn un o wyth pwnc gorau'r disgyblion ar draws yr ysgol gyfan. Yn yr un modd, roedd yr ymchwil hefyd yn amcangyfrif enillion adrannol o dros 5 y cant o ran graddau pwnc yn sgil rhoi un o gyfranogwr Teach First mewn tîm addysgu o chwe athro.

11.4 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ystyried sut y gellir defnyddio technegau tebyg er mwyn gwerthuso Seren. Mae gweddill y Bennod hon yn cynnwys:

- disgrifiad o'r setiau data hyn, gan amlinellu eu cyfraniad posibl at unrhyw ddadansoddiad
- sut y gellid ffurfio'r setiau data hyn er mwyn dilyn cynnydd addysgol cohortau llwyddiannus o fyfyrwyr, gan gynnwys cyfranogwyr yn Seren
- trosolwg o'r mathau o dechnegau dadansoddol y gellid eu cymhwyso i asesu effeithiolrwydd Seren.

⁵⁴ The Brilliant Club 2017. *Impact Update: UCAS Control Group Evaluation*. Ar gael yn:

<http://www.thebrilliantclub.org/wp-content/uploads/2017/03/UCAS-Impact-Evaluation-1.pdf>

⁵⁵ Allen, R. ac Allnutt, J. (2017) The impact of Teach First on pupil attainment at age 16, *British Educational Research Journal*, 43(4) 627-646. DOI: <http://dx.doi.org/10.1002/berj.3288>

⁵⁶ Teach First. 2017. *Teach First Impact Report*. Ar gael yn: <https://www.teachfirst.org.uk/reports/our-work-and-its-impact>

Ffynonellau Data i Gefnogi'r Gwerthusiad o Seren

- 11.5 Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar wahanol gyfnodau addysg yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys: y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) sy'n cwmpasu'r casgliad ôl-16 (Chweched Dosbarth), Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Mae gan Lywodraeth Cymru fynediad i ddata Record Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer holl fyfyrwyr mewn prifysgolion y DU. O'u dadansoddi gyda'i gilydd, gall y setiau data hyn ddarparu darlun cynhwysfawr o gyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr ôl-16 ymysg myfyrwyr Cymru. Yn ogystal, mae data Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) yn cynnwys gwybodaeth am gefndir myfyrwyr, graddau a ragwelir a'r dewisiadau o gyrsiau AU. Drwy nodi cyfranogwyr Seren yn y setiau data hyn, gallai'r wybodaeth hon fod yn sail i ddadansoddi effeithiolrwydd Rhwydwaith Seren.
- 11.6 **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD):** Cyfrifiad o ddisgyblion a weir ym mis Ionawr bob blwyddyn yw'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r data'n cynnwys gwybodaeth am y categorïau canlynol: dynodwyr ysgolion; manylion a nodweddion cyswllt yr ysgol; manylion llywodraethu; manylion arolwg; data dosbarthiadau; manylion athrawon a staff cymorth; addysgu'r Gymraeg; data recriwtio a chadw athrawon a data disgyblion unigol ar gyfer pob myfyriwr cofrestredig ar gyfer cyfnod y cyfrifiad. Mae data ar ddisgyblion unigol yn darparu gwybodaeth ar lefel unigol ar nodweddion demograffig disgyblion (oedran, ethnigrwydd, rhyw) a gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig (gwahaniaethu statws AAA yn ôl a yw disgyblion yn y categori Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Ddisgybl â Datganiad⁵⁷).
- 11.7 **Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD):** Mae Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn cynnwys cofnodion disgyblion unigol cysylltiedig ar gyfer yr holl blant sy'n rhan o system ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru. Yn ychwanegol at y wybodaeth a gasglwyd gan CYBLD, mae

⁵⁷<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf>

hefyd yn cynnwys manylion eraill sy'n ymwneud â chynnydd addysgol disgyblion, yn bennaf data asesu a phresenoldeb. Mae data asesu yn cynnwys canlyniadau TGAU yn ogystal ag asesiadau o Gyfnodau Allweddol cynharach. Mynegir cyrhaeddiad dysgwyr TGAU o ran eu pwyntiau TGAU penodedig sy'n ymwneud â'r wyth TGAU gorau a gyflawnir gan ddysgwyr. Mae canlyniadau TGAU yn rhagfynegydd arwyddocaol o gyfranogiad dysgwyr mewn addysg ôl-orfodol⁵⁸. Mae'r cyfranogwyr yn dechrau ar raglen Seren cyn i unrhyw asesiadau o gynnydd academiaidd gael eu gwneud yn ystod Blwyddyn 12 (e.e. lefelau UG). Bydd cyrhaeddiad ar lefel TGAU felly yn rhagfynegydd allweddol o geisiadau a wneir i AU a'r nifer a fydd yn mynychu sefydliadau AU yn dilyn hynny.

- 11.8 O ran nodweddion economaidd-gymdeithasol, mae'r wybodaeth a gedwir ar yr NPD wedi'i chyfyngu i a yw disgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ai peidio. Mae disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu rhieni'n cael budd-daliadau sydd wedi'u hanelu'n bennaf at y rhai hynny nad ydynt yn gweithio, megis Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth⁵⁹. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai dim ond cyfran fach iawn o fyfyrwyr a oedd yn cymryd rhan yn Seren a fyddai wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod Blwyddyn 11. Mae amcangyfrifon diweddar ar gyfer Lloegr yn awgrymu mai dim ond 2 y cant o fyfyrwyr ysgolion y wladwriaeth sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (17 y cant o'r cyfranogwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) sy'n mynychu sefydliad statws uchel (fel y'i diffinnir gan ansawdd yr ymchwil a wnaed gan sefydliad) yn 19 neu'n 20 oed o'i gymharu â 10 y cant o fyfyrwyr nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim (32 y cant o'r cyfranogwyr nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim)⁶⁰. O'r herwydd, nid yw bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ddull effeithiol o wahaniaethu rhwng cefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol y disgyblion mewn modd sy'n ddigon manwl i gefnogi

⁵⁸ Chowdry, H., C. Crawford, L. Goodman, L. Dearden, ac A. Vignoles. 2013. "Widening Participation in Higher Education: Analysis Using Linked Administrative Data." *Journal of the Royal Statistical Society: Series A Statistics in Society* 176 (2): 431–457.

⁵⁹ <https://www.gov.uk/apply-free-school-meals>

⁶⁰ Gweler troednodyn 66.

dadansoddiad o effaith benodol ac ychwanegol Seren ar gyfranogiad mewn AU.

- 11.9 **Data y Casgliad Ôl-16:** Data blwyddyn gyfan yw'r casgliad ôl-16 sy'n cael ei gyflwyno yn yr hydref ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd a chanolig ac ysgolion canol a gynhelir. Fel rheol, mae'r disgyblion sy'n aros yn yr ysgol uwchradd lle ceir Chweched Dosbarth yn astudio am ddwy flynedd. Cyfeirir at y rhain fel Blwyddyn 12 (Chweched Isaf) a Blwyddyn 13 (Chweched Uchaf). Mae cofnodion y casgliad ôl-16 yn cynnwys gwybodaeth am bedwar maes cyffredinol: dynodwyr ysgol, data disgyblion unigol (e.e. rhifau unigryw disgyblion/dysgwyr, enwau, dyddiadau geni a rhyw), statws disgybl (e.e. statws cofrestru, dangosydd rhan-amser, grwpiau blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol y disgyblion a chodau post y disgyblion) a llwybrau dysgu a gweithgareddau. Yn y Chweched Dosbarth, mae myfyrwyr yn ymgymryd â chymwysterau Lefel 3 yn bennaf; y mwyafrif ohonynt yn lefelau UG/Safon Uwch. Serch hynny, hyd yn oed o fewn amgylcheddau'r Chweched Dosbarth, mae llawer o fyfyrwyr hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau galwedigaethol megis BTEC neu, NVQ. Mae gweithgareddau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru ôl-16 hefyd yn cael eu cynnwys. Grŵp arall ymhlith y rhai sy'n mynychu'r Chweched Dosbarth yw'r rhai sy'n sefyll arholiadau TGAU.
- 11.10 **Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED):** Mae Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) yn cynnwys gwybodaeth am yr arholiadau y mae myfyrwyr wedi'u sefyll a'r canlyniadau a gafwyd. Mae WED yn rhoi cyfrif manwl o'r arholiadau y mae myfyrwyr yn eu sefyll a'r canlyniadau a gafwyd. Mae'r wybodaeth yn WED yn gymhleth oherwydd natur y gweithgareddau a wneir gan ddysgwyr yn y Chweched Dosbarth fel y disgrifir uchod.
- 11.11 **Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR):** Mae Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn cynnwys cofnodion myfyrwyr unigol ar gyfer pob dysgwr ôl-orfodol yng Nghymru sydd wedi'i gofrestru ar raglenni Addysg Bellach (AB), Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth allweddol sy'n ymwneud â nodweddion dysgwyr ôl-orfodol ac mae'n cynnwys data cyrhaeddiad addysgol manwl, sy'n caniatáu ar gyfer dadansoddi ar lefel y

rhaglen ddysgu gyffredinol, ond hefyd ar lefel dyfarnu/modiwl unigol. Mae'r LLWR yn cynnwys pedair prif set ddata sy'n darparu gwybodaeth am y dysgwr, eu gweithgareddau addysgol, a'u data cyrhaeddiad, sef:

- Set ddata'r Dysgwr (LN), sy'n cynnwys gwybodaeth am y dysgwr megis enw, dyddiad geni, tarddiad ethnig, rhyw ac anabled;
- Set ddata'r Rhaglen Dysgu (LP), sy'n rhoi gwybodaeth am y rhaglen ddysgu gyfredol y mae'r dysgwr yn ei dilyn ac unrhyw nodweddion a all newid dros amser
- Set ddata Gweithgaredd Dysgu (ALI), sy'n casglu data ar y gweithgareddau neu'r cyrsiau unigol a wneir gan y dysgwr ar ei raglen ddysgu
- Set ddata Dyfarniad (AW) sy'n darparu gwybodaeth am y dyfarniadau y mae'r dysgwr yn ymgeisio amdanynt a'r rhai a gyflawnwyd.

11.12 Yn gryno, mae LLWR yn cynnwys cofnodion, rhaglen, gweithgaredd a dyfarniadau unigol ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysgol ôl-orfodol (heb gynnwys Chweched Dosbarth mewn ysgolion neu Addysg Uwch).

11.13 Cyfraniad pwysig LLWR at ddadansoddiad Seren yw ei fod yn cwblhau'r darlun astudiaeth ar gyfer Safon Uwch yng Nghymru. Er y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr Cymru sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch yn gwneud hynny mewn Chweched Dosbarth yn yr ysgol, bydd rhai yn astudio'r cymwysterau hyn mewn amgylchedd AB. Fel gyda'r Chweched Dosbarth, mae mwyafrif y myfyrwyr yn ymddangos yn y data LLWR yn ystod y flwyddyn yn dilyn cwblhau Blwyddyn 11. Dyma'r llwybr 'arferol' neu 'gonfensiynol' (h.y. pontio llinellol o addysg orfodol i addysg ôl-16 mewn coleg AB). Fodd bynnag, mae rhai myfyrwyr hefyd yn ymuno â Choleg AB ar ôl bwlch o flwyddyn yn dilyn cwblhau addysg orfodol. Gall y grŵp hwn gynnwys myfyrwyr sydd wedi gorfod ailsefyll arholiadau, y rhai sydd wedi dechrau mewn Chweched Dosbarth yn yr ysgol ond a benderfynodd drosglwyddo i AB ar ôl eu blwyddyn gyntaf, neu'r rhai sydd wedi mynd i fyd gwaith dros dro ond a ddychwelodd i fyd addysg yn ddiweddarach.

- 11.14 **Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS):** Mae Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) yn casglu ac yn prosesu data sy'n gysylltiedig â cheisiadau israddedig amser llawn i Ddarparwyr Addysg Uwch yn y DU. Mae data a gyhoeddir gan UCAS yn cynnwys ffigurau am geisiadau a derbyniadau fesul gwlad, rhanbarth ac etholaeth, yn ogystal â chyfraddau mynediad a chynigion ar gyfer prifysgolion unigol yn ôl rhyw, oedran a chefnidir yr ymgeiswyr. Yn benodol, mae set ddata UCAS yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr, eu cynigion, eu derbyniadau a'u gwrthodiadau ar gyrsiau. Mae enghreifftiau o rai o'r newidynnau a gynhwysir yn nata UCAS yn cynnwys: oedran, math o ysgol flaenorol, derbyniadau drwy'r system glirio, pwnc, sgoriau Safon Uwch a ragwelir, statws terfyn amser, ymateb darparwr addysg uwch, gwlad breswyl enedigol (y DU yn unig), ethnigrwydd, rhyw a statws economaidd-gymdeithasol.
- 11.15 Mae data UCAS wedi cael ei ddefnyddio i helpu i ateb ystod o gwestiynau ymchwil ynglŷn â cheisiadau a derbyniadau a gwrthodiadau mewn perthynas â chysiau Addysg Uwch yn y DU. Gellir defnyddio'r wybodaeth ddemograffig a gynhwysir yn nata UCAS hefyd i fonitro cyfraddau sy'n derbyn lleoedd mewn Addysg Uwch o grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol sydd o bwysigrwydd arbennig wrth asesu effeithiolrwydd Seren. Er bod data Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ganlyniadau TGAU disgyblion blwyddyn 11, sef y man cychwyn hanfodol i archwilio taith dysgwyr drwy'r llwybr Addysg Uwch, prin yw'r wybodaeth am statws economaidd-gymdeithasol. Byddai ymgorffori data UCAS felly yn hwyluso dadansoddiad mwy trylwyr o effeithiau ffactorau economaidd-gymdeithasol ar ddewisiadau Addysg Uwch dysgwyr o gymharu â defnyddio'r NPD yn unig. Rhaid nodi y bydd cysylltu data blwyddyn 11 yr NPD â data UCAS ond yn gallu dadansoddi trywydd y myfyrwyr sy'n ymddangos yn nata UCAS. Efallai na fydd y myfyrwyr sy'n ymddangos yn nata UCAS yn fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn yr NPD ym mlwyddyn 11. Fodd bynnag, tybir nad prif bwrpas Seren yw gwella cyfranogiad myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig mewn AU.

- 11.16 **Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA):** Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn casglu amrywiaeth eang o wybodaeth am Addysg Uwch yn y DU, sy'n cynnwys myfyrwyr yn y brifysgol a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael, staff prifysgol, cyllid a rheoli ystadau. Mae set ddata HESA yn cynnwys gwybodaeth fanwl am fyfyrwyr unigol sy'n dilyn rhaglenni astudio lle mae lefel y cyfarwyddyd yn uwch na lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae'r Record Myfyriwr yn cwmpasu pawb ac yn nodweddiadol mae'n cynnwys dros ddwy filiwn a chwarter o gofnodion bob blwyddyn. Mae set ddata myfyrwyr HESA yn brif ffynhonnell ddata a ddefnyddir i archwilio newidiadau a thueddiadau ymysg myfyrwyr sy'n mynd i Addysg Uwch. Bu hefyd yn bosibl defnyddio'r set ddata i ddadansoddi cyfrannau o bobl ifanc nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch a defnyddio hyn fel dangosydd amddifadedd yn y mynegeion amddifadedd lluosog yn Lloegr, Cymru a'r Alban.
- 11.17 Mae'r set ddata yn cynnwys gwybodaeth am gyfeiriad cartref y myfyrwyr, eu dyddiad geni, eu hethnigrwydd, eu cymwysterau cyn dechrau'r cwrs, y cwrs a astudiwyd a phrif ffynhonnell gyllid y myfyriwr. Mae data HESA yn bwysig wrth asesu effeithiolrwydd Rhwydwaith Seren gan ei fod yn cofnodi presenoldeb gwirioneddol myfyrwyr mewn SAU. Yn ogystal â chodi dyheadau myfyrwyr i wneud cais am leoedd mewn SAU blaenllaw, mae llawer o'r gweithgareddau a ddarperir gan Seren hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau i wella llwyddiant y ceisiadau hyn, megis paratoi ar gyfer cyfweiliadau mynediad. Mae data HESA hefyd yn cynnwys newidynnau sy'n mesur dilyniant/y nifer sy'n rhoi'r gorau i'w cyrsiau yn y brifysgol a thrwy hynny hwyluso'r broses o archwilio a yw cymryd rhan yn y cynllun Seren yn cyfrannu at ddilyniant mewn AU.

Adnabod Cyfranogwyr Seren mewn Data Gweinyddol

- 11.18 Mae Tabl 11.1 yn dangos llwybr posibl cohortau cynnar o gyfranogwyr Seren drwy addysg ôl-orfodol a'r cysylltiad rhwng hyn ac argaeledd y wybodaeth amdanynt yn y setiau data a ddisgrifir uchod. Mae'r tabl felly'n dangos sut y gellid didoli gwybodaeth am gyfranogwyr Seren a'r rhai nad ydynt yn gyfranogwyr Seren o fewn pob set ddata. Dibenion eglurhaol sydd i'r tabl yn bennaf ac mae'n osgoi'n fwriadol faterion yn ymwneud â chael cydsyniad

myfyrwyr i'w data gael eu cynnwys mewn unrhyw astudiaeth werthuso
(trafodir hyn isod).

Tabl 11.1 Trosolwg o ffynonellau data a manylion cohortau

Canolfannau	Cohortau	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Gweithredol yn 2014 Sir y Fflint/Wreccsam RCT/Merthyr Lliw-Tawe	Cohort 1 (C1)	Blwyddyn 11 (CYBLD)- C1 Blwyddyn 11 (NPD)- C1	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C1	Blwyddyn 13 (CYBLD a LLWR)-C1 Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C1 Blwyddyn 13 (UCAS)-C1 Blwyddyn 13 (HESA)-C1	Prif 1 (HESA)-C1	Prif 2 (HESA)-C1	Prif 3 (HESA)-C1
	Cohort 2 (C2)	-	Blwyddyn 11 (CYBLD)-C2 Blwyddyn 11 (NPD)-C2	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C2	Blwyddyn 13 (CYBLD a LLWR)-C2 Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C2 Blwyddyn 13 (UCAS)-C2 Blwyddyn 13 (HESA)-C2	Prif 1 (HESA)-C2	Prif 2 (HESA)-C2
	Cohort 3 (C3)	-	-	Blwyddyn 11 (CYBLD)-C3 Blwyddyn 11 (NPD)-C3	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C3	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C3 Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C3 Blwyddyn 13 (UCAS)-C3 Blwyddyn 13 (HESA)-C3	Prif 1 (HESA)-C3
Gweithredol yn 2015 Sir Benfro/Sir Gaerfyrddin GCA Caerdydd Castell-nedd Port Talbot, Powys, Pen- y-bont ar Ogwr Gwynedd ac Ynys Môn Conwy/Sir Ddinbych	Cohort 1 (C1)	-	Blwyddyn 11 (CYBLD)-C1 Blwyddyn 11 (NPD)-C1	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C1	Blwyddyn 13 (CYBLD a LLWR)-C1 Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C1 Blwyddyn 13 (UCAS)-C1 Blwyddyn 13 (HESA)-C1	Prif 1 (HESA)-C1	Prif 2 (HESA)-C1
	Cohort 2 (C2)	-	-	Blwyddyn 11 (CYBLD)-C2 Blwyddyn 11 (NPD)-C2	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C2	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C3 Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C2 Blwyddyn 13	Prif 1 (HESA)-C2

					(UCAS)-C2 Blwyddyn 13 (HESA)-C2		
					Blwyddyn 11 (CYBLD)-C3 Blwyddyn 11 (NPD)-C3	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C3	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C3 Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C3 Blwyddyn 13 (UCAS)-C3 Blwyddyn 13 (HESA)-C3
Gweithredol yn 2016							
Ceredigion Bro Morgannwg	Cohort 1 (C1)	-	-	Blwyddyn 11 (CYBLD)-C1 Blwyddyn 11 (NPD)-C1	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C1	Blwyddyn 13 (CYBLD a LLWR)-C1 Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C1 Blwyddyn 13 (UCAS)-C1 Blwyddyn 13 (HESA)-C1	Prif 1 (HESA)-C1
	Cohort 2 (C2)	-	-	-	Blwyddyn 11 (CYBLD)-C2 Blwyddyn 11 (NPD)-C2	Blwyddyn 12 (CYBLD a LLWR)-C2	Blwyddyn 13 (WED a LLWR)-C2 Blwyddyn 13 (UCAS)-C2 Blwyddyn 13 (HESA)-C2
	Cohort 3 (C3)	-	-	-	-	-	-

- 11.19 Byddai argaeledd data o wahanol ganolfannau Seren a sut y gallai'r data hwnnw gyfrannu at yr asesiad effaith terfynol yn dibynnu ar y dyddiad y daethant yn weithredol. Sefydlwyd tair canolfan seren i ddechrau fel cynlluniau peilot (Wrecsam/Sir y Fflint, Lliw-Tawe a RCT/Merthyr) ac maent wedi bod ar waith ers 2014. Ffurfiwyd canolfannau eraill yn ddiweddarach. Byddai angen ystyried hefyd y trefniant o ffurfio canolfannau ar wahanol adegau oherwydd gallai profiad gweinyddwyr canolfannau a'u cyfnod o wasanaeth gael rhywfaint o ddylanwad ar gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Gall y gwahanol rolau a wneir gan bob cydlynnydd canolfan hefyd effeithio ar berfformiad canolfannau penodol. Mewn rhai achosion, cynhelir y swyddogaethau gweinyddol gan ymgynghorydd dan gontract, ond mewn achosion eraill dyrannwyd y cyfrifoldebau i gydlynwyr presennol o fewn yr awdurdod lleol neu Goleg AB e.e. cydlynwyr MATH neu chweched dosbarth. Bydd angen i'r gwerthusiad ystyried yr agweddau/gwahaniaethau hyn wrth adolygu darpariaeth y rhaglen ar lefel leol.
- 11.20 Gallai setiau data cyfatebol yn seiliedig ar ddata CYBLD, casgliad ôl-16, WED, LLWR, UCAS a HESA fod yn werthfawr wrth werthuso effeithiolrwydd Rhwydwaith Seren o ran sicrhau bod dysgwyr mwyaf disglair Cymru yn cael lle ym mhrifysgolion detholgar y DU. O dan delerau amrywiol Hysbysiadau Prosesu Teg, mae'r dysgwyr a gynhwysir yn y setiau data a enwyd eisoes wedi rhoi eu caniatâd i rai sefydliadau gael mynediad i'w cofnodion dysgwyr (gan gynnwys dynodwyr personol megis enwau), megis Adrannau'r Llywodraeth, academyddion neu sefydliadau ymchwil eraill sy'n gweithredu ar ran y llywodraeth at ddibenion ymchwil, megis gwerthusiad ystadegol rhaglen Seren. Rhaid i gyrff o'r fath sicrhau bod unrhyw gyhoeddiadau/adroddiadau sy'n seiliedig ar y dadansoddiad ystadegol a'r ymchwil sy'n defnyddio'r data cysylltiedig yn cynnwys data anhysbys, a bod unrhyw drydydd parti/contractiwr a gyflogir mewn unrhyw ran o'r broses ymchwil yn llofnodi cytundebau cyfrinachedd mewn perthynas â data, a bod rheidrwydd arnynt i ddinistrio eu copïau o ddata ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

- 11.21 Er mwyn i'r data hyn gael ei ddefnyddio wrth werthuso rhaglen Seren, mae angen gallu 'dynodi' cyfranogwyr rhaglen Seren o fewn y setiau data hyn. Y ffordd orau o gyflawni hyn fyddai nodi Seren fel Rhaglen Ddysgu sy'n cynnwys cyfres o Weithgareddau Dysgu yn y cronfeydd data hyn fel unrhyw raglen arall. Er enghraifft, mae gwaith ymchwil diweddar yng Nghymru hefyd wedi ystyried effeithiau Bagloriaeth Cymru wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer Addysg Uwch⁶¹. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau Seren gwblhau ffurflen LLWR fel darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol eraill. Fel hyn byddai'r dysgwyr yn LLWR yn cael eu diogelu gan rybudd preifatrwydd LLWR a'r holl ddatganiadau ynglŷn â defnyddio eu data at ddibenion ymchwil. Gellid dynodi cyfranogwyr Seren sy'n mynychu Chweched Dosbarth yn CYBLD, a thrwy hynny byddent yn cael eu cwmpasu gan Gytundeb Prosesu Teg CYBLD. Fodd bynnag, nid yw hyn yn hanfodol os bydd cyfranogiad y myfyrwyr hyn yn Seren yn cael ei gofnodi ar LLWR. Byddai dull o'r fath yn golygu na fyddai angen sicrhau unrhyw gydsyniad ychwanegol gan fyfyrwyr neu eu rhieni at ddibenion y Gwerthusiad gwrthffeithiol yn seiliedig ar ddadansoddi cofnodion gweinyddol gan y byddai rhybudd preifatrwydd LLWR yn cwmpasu'r defnydd o ddata ar gyfer ymchwil.
- 11.22 Mae'n bwysig ystyried anfanteision posibl gofyn am gydsyniad ar sail gwybodaeth gan gyfranogwyr Seren at ddibenion cefnogi'r gwerthusiad gwrthffeithiol. Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd sy'n dod i rym yn 2018 yn amlinellu'r amodau llym y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn dibynnu ar gydsyniad ar gyfer prosesu data. Mae'r rhain yn cynnwys cadw cofnodion cydsynio cywir, eglurder ac amlygrwydd ceisiadau am gydsyniad, cefnogi gallu cyfranogwyr i dynnu eu cydsyniad yn ôl yn hawdd ac osgoi gwneud cydsyniad yn un o amodau cyfranogi⁶². Byddai dibyniaeth ar gydsyniad gwirfoddol yn arwain at golli gwybodaeth bwysig gan gyfranogwyr Seren nad oedd data ar gael ar eu cyfer. Serch hynny, byddai angen cael manylion personol y rhai a ddewisodd optio allan o unrhyw

⁶¹ <http://gov.wales/docs/caecd/research/130325-relationships-between-welsh-baccalaureate-advanced-diploma-higher-education-cy.pdf>

⁶² <https://ico.org.uk/media/about-the-ico/consultations/2013551/draft-gdpr-consent-guidance-for-consultation-201703.pdf>

werthusiad Seren yn seiliedig ar ddata gweinyddol er mwyn dileu'r myfyrwyr hyn o'r cronfeydd data a ddefnyddir ar gyfer y gwerthusiad. Pe na bai hyn yn digwydd (h.y. pe bai'r myfyrwyr a oedd heb gydsynio yn aros yn y cronfeydd data ond heb gael eu nodi fel cyfranogwyr Seren), gallai hyn arwain at danamcangyfrif effeithiau posibl y cynllun pe bai cyfranogwyr yn cael eu dyrannu i grwpiau rheoli anghywir.

- 11.23 Os na ellir nodi cyfranogwyr Seren drwy ddosbarthu Seren fel Rhaglen Ddysgu, byddai'n rhaid casglu manylion cyfranogwyr Seren gan gynnwys eu henw, eu dyddiad geni, eu rhyw a'u cyfeiriad llawn at ddibenion paru cofnodion. Mae'n debygol bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei chasglu gan ganolfannau SEREN i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r cynllun (e.e. manylion cyswllt rhieni). Fodd bynnag, os oes angen y data hyn at ddibenion cysylltu cofnodion, mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar gasglu gwybodaeth o'r fath i'r safonau uchaf ac mewn fformat cyson ar draws y canolfannau. Mae'n debygol hefyd y bydd angen gwybodaeth am rai o nodweddion eraill y myfyrwyr hefyd i gefnogi gweithrediad y cynllun megis profiad eu rhieni o Addysg Uwch a'u dyheadau o ran pynciau a lleoedd astudio. Er y gallai gwybodaeth o'r fath wneud cyfraniad defnyddiol at unrhyw werthusiad dilynol o'r cynllun, ni fyddai o unrhyw werth i'r gwerthusiad gwrthffeithiol sy'n gofyn am wybodaeth gyson gan y rhai a gymerodd ran a'r rhai na chymerodd ran yn y cynllun. Er ein bod yn cynnig na fydd angen datganiadau cydsynio at ddibenion y gwerthusiad gwrthffeithiol yn seiliedig ar ddadansoddi data gweinyddol, bydd angen cydsyniad cyfranogwyr Seren o hyd ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthuso Rhwydwaith Seren yn y dyfodol, fel cymryd rhan mewn arolwg, cyfweiliadau a/neu grwpiau ffocws.

Asesu Effaith y Cynllun Seren

- 11.24 Mae nifer o gafeatau'n ymwneud â pharatoi ar gyfer gwerthuso effaith derfynol yn dibynnu ar yr hyn yr ystyrir yn ganlyniad ar gyfer Rhwydwaith Seren. Deallwn fod Rhwydwaith Seren wedi'i sefydlu'n wreiddiol i ymateb yn uniongyrchol i'r angen i atal y gostyngiad yn nifer y ceisiadau llwyddiannus a wneir gan fyfyrwyr yng Nghymru i Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Fodd bynnag, ehangwyd y nod cychwynnol yn ddiweddarach i gynnwys cymorth ac arweiniad i'r myfyrwyr Safon Uwch mwyaf disglair yn

academaidd i gael lefelau uwch o gyrhaeddiad mewn arholiadau Safon Uwch a mynd ymlaen i brifysgolion blaenllaw y DU, sef y rhai yng Ngrŵp Russell /30 o brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton. Ystyrir bod amcanion presennol rhwydwaith Seren yn cynnwys cefnogi myfyrwyr mwyaf disglair Cymru i fynd i 'adrannau da' mewn prifysgolion yn y maes Addysg Uwch.

- 11.25 Mae gan yr amwysedd ynghylch nod Rhwydwaith Seren oblygiadau o ran asesu pa mor effeithiol y mae'r cynllun yn cyflawni ei ddiben. Mae mesur a yw'r mentrau a ddarparwyd gan Rhwydwaith Seren wedi hwyluso'r broses i fyfyrwyr fynd i brifysgolion Oxbridge yn gymharol syml. Y canlyniad o ddiddordeb fyddai'r newid yn y tebygolrwydd y byddai myfyrwyr yn gwneud cais i Rydychen neu Gaergrawnt (fel y cofnodir gan ddata UCAS) neu'r newid yn y tebygolrwydd y byddai myfyrwyr yn mynd i un o sefydliadau Oxbridge mewn gwirionedd (fel y cofnodir gan ddata HESA) Gellid ymestyn dadansoddiad o'r fath yn rhwydd i'r nifer sy'n mynychu Prifysgolion Grŵp Russell ac Ymddiriedolaeth Sutton. Yn amodol ar argaeledd data, gellid ymchwilio i effaith Seren ar leihau'r cyfraddau sy'n rhoi'r gorau i'w cyrsiau mewn prifysgolion elitaidd hefyd. Fodd bynnag, mae'r darlun yn fwy cymhleth wrth ymchwilio i effeithiolrwydd Rhwydwaith Seren o ran sicrhau bod myfyrwyr wedi cofrestru mewn 'adran dda' oherwydd bod diffinio beth yw adran dda yn rhywbeth goddrychol.
- 11.26 Gellir ystyried bod cymryd rhan yn rhaglen Seren yn ymyrraeth lle y gallai cyfranogiad myfyrwyr gael effaith ffafriol ar y nifer a fydd yn mynychu prifysgolion blaenllaw'r DU. Mae unrhyw werthusiad o'r effeithiau hyn yn gofyn am gofnod o'r hyn a fyddai wedi digwydd i'r disgyblion yn Rhwydweithiau Seren pe na baent wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Felly, mae effaith wrthffeithiol werth chweil yn diffinio grŵp rheoli neu sampl y mae eu profiadau yn adlewyrchu'n gywir y canlyniadau damcaniaethol, nas gwelwyd ar gyfer y grŵp dan sylw. Yn ddelfrydol, byddai unigolion yn cael eu dyrannu i'r grwpiau rheoli ac ymyrraeth ar hap cyn dechrau cymryd rhan yn rhaglen Seren. Y tu allan i ymchwil feddygol, anaml iawn y cyflawnir y sefyllfa ddelfrydol hon ac felly, yn ymarferol, datblygwyd technegau ystadegol i ddarparu dulliau i ddiffinio grwpiau rheoli a gwerthuso triniaethau yn absenoldeb dyraniad arbrofol delfrydol cychwynnol. Mae dadansoddiad

gwrthffeithiol yn cynnig dull arall o asesu effeithiolrwydd Rhwydwaith Seren o safbwynt yr hyn a fyddai wedi digwydd i'r cyfranogwyr pe na fyddent wedi cymryd rhan. Dau ddull a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer dadansoddiad gwrthffeithiol yw Paru Ystadegol a Dull Atal Atchweliad.


- 11.27 Mae paru ystadegol yn dewis grŵp o bobl nad ydynt yn gyfranogwyr mewn ffordd sy'n gwneud iddynt ymdebygu i'r cyfranogwyr ym mhob ffordd, heblaw am y ffaith nad ydynt yn cael yr ymyriad. Gellir cyflawni hyn drwy amcangyfrif sgôr tueddfryd sy'n deillio o fodel ystadegol sy'n amcangyfrif y tebygolrwydd o fod yn gyfranogwr Seren. O ran gweithredu hyn yn ymarferol, byddai 'marcwyr' ystadegol yn nodi cyfranogwyr Seren yn cael eu cynnwys mewn setiau data gweinyddol sy'n cwmpasu cyfranogwyr posibl y rhaglen Seren. Yna byddai dadansoddiad yn cael ei wneud i amcangyfrif pa nodweddion a gynhwysir am unigolion yn y cronfeydd data hyn sy'n gysylltiedig â thebygolrwydd cynyddol o gymryd rhan yn rhaglen Seren (fel y'i mesurir yn ôl eu sgôr tueddfryd). Yna gellir paru'r rhai sy'n cymryd rhan a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn Seren ar sail eu sgôr tueddfryd: amcangyfrif o'u tebygolrwydd o fod yn rhan o'r rhaglen Seren. Os caiff paru ystadegol ei wneud yn gywir, yna mae'r canlyniad a arsylwyd ar gyfer y grŵp cyfatebol yn amcangyfrif yr effaith wrthffeithiol (h.y. yr hyn y byddai'r cyfranogwyr wedi'i wneud yn absenoldeb Seren), ac amcangyfrifir effaith yr ymyriad yn syml fel y gwahaniaeth rhwng canlyniadau cyfartalog y ddau grŵp.
- 11.28 Yr her o ran defnyddio'r dechneg Paru Sgoriau Tueddfryd wrth asesu effeithiolrwydd Rhwydwaith Seren yw datblygu grŵp rheoli ystyrlon sy'n debyg iawn i nodweddion y dysgwyr mwyaf disglair yng Nghymru ond nad ydynt yn cael eu dethol i fod yn rhan o Rwydwaith Seren am ryw reswm neu sy'n dewis peidio â chymryd rhan. Mae dwy broblem yn hyn o beth. Yn gyntaf, mae'r data am unigolion a gynhwysir mewn setiau data gweinyddol yn brin yn aml. Fel y trafodwyd uchod, gall cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fod yn brocsi gwael ar gyfer mesur statws economaidd-gymdeithasol ymhlith y boblogaeth gyffredinol. Er bod modd mesur statws economaidd-gymdeithasol (e.e. gyda Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol y Swyddfa Ystadegau Gwladol), efallai na fydd ar gael mewn setiau data gweinyddol. Yn ail, bydd datblygu rheolaeth effeithiol hefyd yn

anodd os yw cyfranogwyr Seren yn wahanol mewn ffyrdd sy'n anodd eu mesur. Er enghraifft, bydd disgyblion sydd â'r awydd cryfaf i fynychu un o'r prifysgolion gorau yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y cynllun. Yn yr un modd, efallai y bydd y rhai sy'n cyflwyno'r cynllun yn annog y disgyblion hynny y maent yn credu bod ganddynt y gallu i gael mynediad i un o'r prifysgolion gorau i gymryd rhan. Mae'r ddwy enghraifft hon yn dangos y gall cyfranogwyr yn y cynllun Seren fod yn wahanol o ran nodweddion a bod hynny'n anodd ei gofnodi. Mae'r ddwy broblem hyn yn enghreifftiau o 'ogwydd yn sgil hepgor newidyn'. O dan amgylchiadau o'r fath, gallai defnyddio technegau paru ystadegol arwain at ogwydd at i fyny yng nghynllun Seren. Serch hynny, gall defnyddio technegau o'r fath barhau i roi dealltwriaeth werthfawr cyn belled ag y cydnabyddir y gallai'r amcangyfrifon o effeithiau'r cynllun fod yn rhy uchel; h.y. y gellid ystyried bod dadansoddiadau o'r fath yn darparu amcangyfrifon ar y 'terfyn uchaf' ynghylch effeithiolrwydd y cynllun.

- 11.29 Gallai her arall i ddefnyddio technegau Paru Sgoriau Tueddfryd godi os yw pob un o'r myfyrwyr academiaidd mwyaf disglair yn cael 'pasbort' i ymuno â chynllun Seren. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddai dim myfyrwyr y tu allan i'r cynllun o fewn yr un cohortau o fyfyrwyr i weithredu fel grŵp rheoli ystyrlon. Gallai hyn ddigwydd mewn sefyllfaoedd lle mae meini prawf mynediad penodedig yn cael eu cymhwyso'n unffurf ar draws holl ganolfannau Seren. Gellid lliniaru problemau o'r fath yn rhannol os bydd canolfannau gwahanol yn mabwysiadu gwahanol feini prawf dethol, gan arwain at fyfyrwyr gyda'r un graddau yn cymryd rhan yn y cynllun mewn rhai ardaloedd ond nid mewn ardaloedd eraill. Er enghraifft, os yw canolfan A yn mabwysiadu meini prawf dethol o 5 A* mewn TGAU a bod canolfan B yn mabwysiadu meini prawf dethol o 6 A*, yna gallai myfyrwyr yng nghanolfan B gyda 5 A* mewn TGAU weithredu fel grŵp rheoli ar gyfer myfyrwyr yng nghanolfan A gyda'r un lefelau o gymwysterau sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Fodd bynnag, ni fyddai canolfan B yn gallu darparu grŵp rheoli ystyrlon ar gyfer myfyrwyr â lefelau cyrhaeddiad uwch gan y byddai myfyrwyr o'r fath yn y ddwy ganolfan yn cymryd rhan yn y cynllun.

- 11.30 Gellid ystyried bod Dull Atal Atchweliad yn ddewis amgen addas i baru ystadegol lle ceir anawsterau o ran nodi grwpiau rheoli addas. Gellir defnyddio dull Atal Atchweliad mewn amgylchiadau megis SEREN lle mae nodwedd sylfaenol megis cyrhaeddiad addysgol sy'n effeithio ar y canlyniad o ddiddordeb (e.e. mynediad i brifysgolion neu adrannau blaenllaw'r DU) a dethol ymgeiswyr i dderbyn yr ymyrraeth (e.e. dethol ymgeiswyr i gymryd rhan yng ngweithgareddau Seren). Yn achos Seren, defnyddir gallu academiaidd y myfyrwyr (ar sail sgorau TGAU) i flaenoriaethu ymgeiswyr ar gyfer yr ymyrraeth honno. Er enghraifft, gellid dewis sgôr trothwy o 5 A* mewn TGAU (yn fympwyol fwy neu lai) fel y maen prawf ar gyfer cymryd rhan yn Rhwydwaith Seren. Ar ei ffurf symlaf, mae'r Dull Atal Atchweliad yn defnyddio model atchweliad llinellol gyda data sy'n nodi cyfranogwyr uwchlaw'r isafswm sydd wedi cael yr ymyrraeth (Seren) a chyfranogwyr rheoli islaw'r trothwy nad ydynt wedi cymryd rhan yn y rhaglen.
- 11.31 Mae Ffigur 11.1 yn dangos yr hyn y gellid ei ddisgwyl yn sgil ymyrraeth Seren. Er symlrwydd, yma rydym yn tybio bod cymryd rhan yn rhaglen Seren wedi cael effaith gyson o ran cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pob disgybl cofrestredig yn cofrestru ym mhrifysgolion gorau'r DU. Mae'r llinell doredig yn Ffigur 11.1 yn dangos yr hyn y gallai'r llinell atchweliad fod pe canfuwyd bod Seren yn cael effaith gadarnhaol. Yn y sefyllfa ddamcaniaethol hon, mae naid fawr at i fyny yn y torbwynt yn y berthynas rhwng y siawns o gael eu derbyn i brifysgol a sgoriau TGAU myfyrwyr, os canfyddir bod Seren yn ymyrraeth ddefnyddiol. Yn ymarferol, mae'n bosibl y gall effaith Seren amrywio yn ôl cyrhaeddiad addysgol. Er enghraifft, gallai effaith Seren fod yn fwy i'r myfyrwyr hynny sydd â'r lefelau uchaf o gyrhaeddiad addysgol ac efallai na chânt eu gweld ymhlith y rhai sydd ychydig uwchlaw'r trothwy. Efallai na fydd y berthynas sylfaenol rhwng y dull mesur canlyniadau a chyrhaeddiad addysgol yn llinol ychwaith. Mae angen edrych ar y mathau hyn o faterion wrth ddefnyddio Dull Atal Atchweliad.

Ffigur 11.1 Dull Atal Atchweliad a Gwerthuso Seren



Sylwadau i gloi

- 11.32 Mae defnyddio technegau Asesu Effaith Wrthffeithiol gyda gwerthusiadau blaenorol o fentrau sydd wedi'u hanelu at gynyddu cyfranogiad grwpiau difreintiedig mewn AU yn awgrymu ei bod yn gwbl ymarferol defnyddio technegau tebyg i werthuso Rhwydwaith Seren. Mae'r cynnal dadansoddiadau o'r fath yn fanwl gywir yn dibynnu ar argaeledd data o ansawdd da sy'n olrhain dilyniant addysgol cohortau olynol o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau.
- 11.33 Mae'r gallu i greu grwpiau rheoli cywir ar gyfer cyfranogwyr yn y cynlluniau Seren yn dibynnu ar ddata o ansawdd da am fyfyrwyr. Mae'r setiau data a drafodwyd yn gynharach yn cynrychioli'r sefyllfa 'ddelfrydol' ac efallai y bydd

yn ymarferol cynnal gwerthusiad heb ddefnyddio'r holl ffynonellau hyn. Er enghraifft, cynhaliwyd gwerthusiad o'r fenter Brilliant Club gan ddefnyddio data UCAS yn unig. Manteision cynnwys setiau data ychwanegol yw'r cywirdeb cynyddol mewn perthynas â nodweddion myfyrwyr y gall unrhyw ddadansoddiad ystadegol eu rheoli. Er enghraifft, gall presenoldeb ym Mlwyddyn 11 ddarparu gwybodaeth werthfawr am nodweddion myfyrwyr na fydd yn cael ei chofnodi'n llawn mewn gwybodaeth am gefndir economaidd-gymdeithaol neu ganlyniadau TGAU.

- 11.34 Nid yw'n bosibl bod yn rhagnodol am y fethodoleg y dylai dadansoddwyr ei defnyddio wrth werthuso Seren yn y dyfodol. Gallai Paru Sgoriau Tueddfryd a Dull Atal Atchweliad ill dau fod yn berthnasol. Bydd y dull a ffefrir yn dod i'r amlwg wrth ymchwilio i ddata cyfranogwyr.

12. Casgliadau ac Argymhellion

- 12.1 Sefydlwyd Rhwydwaith Seren fel ymyrraeth ar ffurf cynllun peilot yn ystod 2015/16 gyda'r nod o gefnogi myfyrwyr sy'n cyflawni ar lefel uchel i fynd ymlaen i brifysgolion blaenllaw'r DU. Rydym yn dod i'r casgliad bod y fenter wedi'i hymestyn yn llwyddiannus dros gyfnod cymharol fyr o amser ers hynny er mwyn cynnig rhaglen lawn o ddarpariaeth ar draws Cymru gyfan erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2017/18. Yn ystod ei chyfnod sefydlu, mae'r fenter, yn ei barn ni, wedi mabwysiadu dull gweithredu hyblyg, o'r gwaelod i fyny sydd wedi caniatáu i ganolfannau lleol ddylunio rhaglen o ddarpariaeth i fynd i'r afael ag amgylchiadau ac anghenion cyd-destunol lleol. O ganlyniad, rydym yn dod i'r casgliad bod Seren wedi gallu ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol ac yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, gyda'r lefel uchaf o werth ychwanegol i'w gweld ar gyfer ysgolion nad oedd ganddynt hanes arbennig o gryf o gynorthwyo myfyrwyr i gael lleoedd mewn prifysgolion blaenllaw. Rydym hefyd yn dod i'r casgliad mai un o nodweddion llwyddiannus menter Seren fu'r cyfraniad ar ffurf nwyddau ac ewyllys da a gafwyd gan ysgolion, SAB a SAU.
- 12.2 Rydym yn dod i'r casgliad bod Rhwydwaith Seren wedi'i gynllunio fel ymyrraeth a chanddi'r potensial i wneud cyfraniad tuag at bolisiau Llywodraeth Cymru ar ehangu mynediad i Addysg Uwch a chyfranogiad yn y maes. Fodd bynnag, rydym hefyd yn casglu bod Seren yn tywys polisi Llywodraeth Cymru i gyfeiriad diddorol ac ychydig yn wahanol i bolisiau presennol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ehangu mynediad i Addysg Uwch ymhlith myfyrwyr difreintiedig a chryfhau sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Rydym hefyd yn casglu nad oes llawer o gyfeirio at Rhwydwaith Seren mewn unrhyw un o bolisiau addysg ac Addysg Uwch presennol Llywodraeth Cymru ac y dylid mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol.

Argymhelliad 1

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn egluro nodau ac amcanion Rhwydwaith Seren, yn arbennig yn nhermau prifysgolion targed y

fenter. Argymhellwn ymhellach y dylid adlewyrchu nodau ac amcanion Rhwydwaith Seren yn well ym mholisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg brif ffrwd ac Addysg Uwch yn y dyfodol.

Os canlyniad yr adolygiad hwn yw y dylai Rhwydwaith Seren ganolbwyntio ar yr holl brifysgolion blaenllaw a phob math o gyrsiau academiaidd, yna byddem yn argymhell ymhellach y dylai pob darpariaeth yn y canolfannau gyd-fynd â'r nod eang hwn, a bod y ddarpariaeth ar lefel leol yn adlewyrchu hyn.

Yn gysylltiedig â hyn, dylai Rhwydwaith Seren geisio egluro'r hyn sydd gyfystyr â chanlyniad llwyddiannus i gyfranogwyr a diffinio'r dangosyddion perfformiad (yn nhermau amrywiaeth y ceisiadau i brifysgolion a'r ceisiadau am gyrsiau, y cynigion a'r derbyniadau) sydd o fewn cylch gwaith y fenter ac adrodd arnynt. Yn hyn o beth, byddem yn argymhell y dylid ystyried cytuno'n flynyddol ar restr benodol o brifysgolion, adrannau a chysiau i'w cynnwys yn Rhwydwaith Seren. Gallai hon gynnwys y prifysgolion a'r cyrsiau hynny a nodwyd fel y sefydliadau mwyaf blaenllaw a darpariaeth drwy'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, yn ychwanegol at sefydliadau Grŵp Russell a 30 o brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton, yn ogystal â chynnwys yr holl gyrsiau Meddygaeth, Deintyddiaeth a Milfeddygaeth sydd ar gael mewn Addysg Uwch.

- 12.3 Rydym yn dod i'r casgliad bod y dystiolaeth sy'n ategu'r angen am Rwydwaith Seren yn seiliedig ar duedd ar i lawr ddiweddar yn nifer y ceisiadau a chofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar gyfer sefydliadau Oxbridge yn ogystal â'r rhai sy'n dewis astudio cyrsiau Meddygaeth, Deintyddiaeth a Milfeddygaeth. Mae data a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan UCAS yn cyfeirio at gynnydd diweddar yn nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a wnaeth gais i'r sefydliadau hyn ac am y cyrsiau hyn yn ystod 2017/18. Canfu'r gwerthusiad fod nifer mawr o ganolfannau wedi canolbwyntio eu darpariaeth ar Oxbridge a'r cyrsiau hyn, ond mae disgwyliadau'r cyfranogwyr mewn perthynas â Seren wedi bod yn ehangach o lawer o gofio eu bod wedi cael eu recriwtio ar sail graddau TGAU 'da' yn hytrach na'u bwriad i wneud cais i Oxbridge neu i astudio pynciau gradd

STEMM. Efallai nad yw'n syndod, felly, bod y graddau y mae Seren wedi bodloni disgwyliadau cyfranogwyr a'u rhieni wedi amrywio.

- 12.4 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn cyfeirio at densiwn cynhenid rhwng amcanion Rhwydwaith Seren i annog cyfranogwyr i astudio y tu allan i Gymru ar y naill law ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector Addysg Uwch yng Nghymru ar y llaw arall. Mae diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch rôl SAU yng Nghymru o fewn Rhwydwaith Seren er bod pob canolfan yn dibynnu'n fawr ar eu cyfraniad er mwyn cyflawni eu hamcanion lleol. Yn gysylltiedig â hyn, rydym yn dod i'r casgliad y gallai cyfranogiad SAU yng Nghymru o bosibl leihau llwyddiant Seren, os caiff llwyddiant y fenter ei fesur yn ôl nifer y cyfranogwyr sy'n astudio mewn prifysgolion 'tariff uchel' yn unig.

Argymhelliad 2

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn ffurfiol gyfranogiad a rôl SAU Cymru fel partneriaid cyflawni o fewn Rhwydwaith Seren ac yn ymgysylltu â hwy i archwilio'u rôl er mwyn lliniaru'r tensiwn presennol ar draws y sector Addysg Uwch yng Nghymru.

- 12.5 Rydym yn dod i'r casgliad bod canolfannau Seren yn gwneud defnydd priodol o'r cyllid a ddyrannwyd a bod swm cymharol fach o gyllid blynyddol ar gyfer pob canolfan (£25,000 y flwyddyn) wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol ar ffurf nwyddau yn y fenter gan sefydliadau partner. Er mai bwriad gwreiddiol y cyllid oedd gweithredu fel arian sefydlu ar gyfer y fenter, mae'r adborth yn awgrymu nad yw'r canolfannau'n ddigon cadarn er mwyn tynnu'r cyllid hwn yn ôl ar hyn o bryd. Yn ogystal, nid oes gan y canolfannau ddata ar fynediad i SAU a chofrestru eto er mwyn gallu gwneud penderfyniad hyddysg am effaith y fenter ar geisiadau a chofrestriadau i brifysgolion ar lefel awdurdodau lleol.

Argymhelliad 3

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid sefydlu i ganolfannau lleol am o leiaf bedair blynedd nes y gall gwerthusiad o effaith

ddangos tystiolaeth gadarn o'r gwahaniaeth y mae'r fenter yn ei wneud.

Argymhellwn ymhellach fod y cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru i bob canolfan yn rhoi ystyriaeth ddyledus i:

- a. nifer y cyfranogwyr a gefnogir gan bob canolfan, a
- b. pwysoli gwledig ar gyfer y canolfannau hynny a chanddynt gostau teithio uwch.

At ddibenion cyfrifo symiau'r cyllid byddem yn awgrymu bod nifer y cyfranogwyr fesul canolfan yn cael eu hystyried yn ôl maint band.

Argymhellwn hefyd fod canolfannau Seren yn rhoi proses gyffredin ar waith i gofnodi gwerth blynyddol y cyfraniadau 'ar ffurf nwyddau' a wneir gan ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach i Rwydwaith Seren

- 12.6 Canfu'r gwerthusiad fod y meini prawf a osodwyd ar gyfer cyfranogwyr i ymuno â'u canolfan Seren leol yn aml yn seiliedig ar gyrhaeddiad ar lefel TGAU ond bod amrywiaeth sylweddol o ran pa raddau yr oedd angen i gyfranogwyr eu cyflawni er mwyn ymuno â'r fenter. Roedd y meini prawf yn amrywio o 5 gradd B a phedwar A* ar lefel TGAU ar eu hisaf i 6A* ar draws y canolfannau. Mabwysiadodd dwy ganolfan system bwyntiau i gyfrifo cymhwysedd. Rydym yn derbyn barn y rhai sydd wedi yn ymwneud â'r ddarpariaeth mewn canolfannau lleol y bu'n briodol i ganolfannau Seren lleol sefydlu eu meini prawf cymhwysedd er mwyn ystyried materion cyd-destunol lleol ond rydym yn dod i'r casgliad bod hyn wedi creu mynediad anghyson ar gyfer myfyrwyr ledled Cymru. Mae canolfannau sydd wedi pennu meini prawf cymhwysedd academiaidd uwch wedi gwahardd disgyblion rhag cymryd rhan a dylid mynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol.

Argymhelliad 4

Argymhellwn fod Rhwydwaith Seren yn mabwysiadu meini prawf cymhwysedd sylfaenol cyffredin ar gyfer cyfranogwyr er mwyn iddynt allu ymuno â'r fenter waeth ble y maent wedi'u lleoli. Yn ddelfrydol, byddai'r meini prawf hyn yn seiliedig ar fethodoleg gytûn yn seiliedig ar bwyntiau (fel yr hyn sydd eisoes wedi'i fabwysiadu gan ddwy o'r canolfannau) yn hytrach

na dull o ddefnyddio isafswm o raddau A* neu A.

Ar ôl pennu'r meini prawf hyn, argymhellwn ymhellach fod pob canolfan yn cael rhywfaint o hyblygrwydd a disgresiwn i gynyddu neu ostwng eu pwyntiau yn seiliedig ar drothwy i adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol.

- 12.7 Yn ôl yr adborth gan yr holl gyfranwyr at y gwerthusiad hwn cafwyd profiad cymysg iawn o un ganolfan i'r llall. Er ei bod yn bwysig i bob canolfan allu ymateb i'w hanghenion lleol mewn dull hyblyg, rydym wedi dod i'r casgliad bod cyfranogwyr yn haeddu gallu cael mynediad i 'gynnig' sylfaenol gan Seren a bod eu hymrwymiad i ymgysylltu â'r fenter yn cael ei gydnabod yn ffurfiol mewn rhyw ffordd. Rydym yn dod i'r casgliad bod disgwyliadau'r cyfranogwyr a rhieni mewn perthynas â Seren wedi cael eu codi ar ddechrau Blwyddyn 12 ond nad ydynt o reidrwydd wedi cael eu bodloni ym mhob canolfan.

Argymhelliad 5

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â chanolfannau Seren, yn llunio fframwaith gweithredu cyffredin ar gyfer y fenter yn y dyfodol ond yn cadw rhywfaint o'r hyblygrwydd a'r dull ymatebol a fabwysiadwyd yn lleol hyd yma. Argymhellwn fod fframwaith gweithredu cyffredin yn:

- Nodi'r cyfranogiad a'r ymrwymiad sylfaenol sydd eu hangen ar ran y cyfranogwyr
- Llunio cynnig sylfaenol neu ddarpariaeth graidd y gallai cyfranogwyr eu disgwyl o ran cynnwys a maint
- Monitro presenoldeb mewn digwyddiadau lleol a mabwysiadu prosesau cyffredin ar gyfer ymdrin â phresenoldeb isel a throsiant myfyrwyr
- Cynnig tystysgrif cwblhau'r cynllun i'r cyfranogwyr hynny sy'n 'graddio' o Seren.

- 12.8 Mae'n ddealladwy bod pob canolfan Seren leol wedi canolbwyntio ar sefydlu ei darpariaeth a'i threfniadau llywodraethu unigol hyd yma. Mae'r ymdrechion sylweddol a wnaed gan amrywiaeth eang o bartneriaid lleol, gan

gynnwys ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol yn arbennig i helpu i sefydlu eu canolfan leol a sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael, i'w canmol. Rydym yn casglu bod cydweithio effeithiol ar draws canolfannau yn amlwg mewn rhai achosion ar hyn o bryd a bod cyfle i ddatblygu ac ailadrodd yr arfer da hwn yn y dyfodol. Datgelodd y gwaith maes fod cyfleoedd sylweddol i lawer o ganolfannau ddatblygu eu gwaith cydweithredol ymhellach, gan ddefnyddio cyfarfodydd cydlynwyr Seren fel cyfrwng i wneud hynny.

Argymhelliad 6

Argymhellwn fod Rhwydwaith Seren, drwy gyfarfodydd cydlynwyr Seren, yn nodi cyfleoedd pellach i ganolfannau gydweithio. Byddai hyn yn cynnwys adeiladu ar yr ymdrechion cychwynnol er mwyn datblygu rhaglen gydgyssylltiedig o ddarpariaeth a hyrwyddo'r ddarpariaeth drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd gan gyfranogwyr i fanteisio ar ddigwyddiadau a gynhelir mewn canolfannau cyfagos, yn arbennig dosbarthiadau meistr ar gyfer pynciau penodol.

- 12.9 Yn gysylltiedig â hyn, datgelodd y gwaith maes hefyd fod llawer o gyfleoedd eraill i fenter Seren ledaenu ei hadnoddau a'i darpariaeth gyfredol i gynulleidfaoedd ehangach. Byddai myfyrwyr o Flynyddoedd 12 ac 13 nad ydynt yn cymryd rhan ym menter Seren, yn ogystal â dysgwyr iau, yn elwa ar allu cael gafael ar adnoddau ac edrych ar gynnwys seminarau/digwyddiadau drwy lwyfan digidol.

Argymhelliad 7

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru a chanolfannau Seren yn nodi pa elfennau o ddarpariaeth bresennol y gellid eu cynnig yn gyffredinol i gynulleidfa ehangach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y mynediad i'r wybodaeth a ddarperir drwy'r Rhwydwaith. Byddem yn argymhell, fel man cychwyn, bod nifer bach o seminarau a darlithoedd yn cael eu cynnig ar ffurf gweminarau, a bod technoleg cofnodi darlithoedd yn cael ei defnyddio ac adnoddau ar-lein eraill yn cael eu datblygu er mwyn dosbarthu'r cynnwys drwy amrywiaeth o lwyfannau digidol, gan gynnwys sianelau cyfryngau cymdeithasol Seren a thrwy bartneriaid fel Gyrfa Cymru a llwyfannau SAB.

- 12.10 Neges gyffredin gan gyfranogwyr a rheini fel ei gilydd oedd bod nifer o ganolfannau Seren wedi canolbwyntio ar annog cyfranogwyr i wneud cais i sefydliadau Oxbridge a darparu cymorth mewn perthynas â nifer bach o bynciau gradd cystadleuol, yn bennaf pynciau STEMM fel astudiaethau Meddygaeth, Deintyddiaeth a Milfeddygaeth. Casglwyd adborth cadarnhaol gan y cyfranogwyr hynny sydd â diddordeb yn y llwybrau hyn ond yn amlwg nid oedd pob un o gyfranogwyr Seren eisiau mynd ar drywydd yr opsiynau hyn.

Argymhelliad 8

Argymhellwn fod y canolfannau hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn cynnig amrywiaeth eang o ddosbarthiadau meistr mewn pynciau penodol i'w cyfranogwyr yn ymchwilio i'r cyfleoedd i wneud hynny. Gellid cyflawni hyn drwy ddull mwy rhanbarthol o gynllunio a chyflwyno darpariaeth o'r fath a thrwy gydweithio â chanolfannau cyfagos er mwyn sicrhau nifer digonol o fynychwyr mewn digwyddiadau.

- 12.11 Canfu'r gwerthusiad fod SAU yn darparu adnoddau sylweddol i Rwydwaith Seren. Gan fod 11 o ganolfannau bellach ar waith ac wrthi'n datblygu momentwm o ran creu cysylltiadau â SAU targed a'r ffaith bod y gwerthusiad wedi canfod bod cyfranogwyr eisiau ymgysylltu â nifer ehangach o SAU, gellid disgwyl i'r galw ar SAU targed i ymgysylltu'n fwy â Seren gynyddu. Rydym yn argymhell bod y berthynas â SAB yn cael ei rheoli'n ofalus o ganlyniad i hyn a bod angen ystyried anghenion SAU i allu nodi myfyrwyr Seren pan fyddant yn gwneud cais i'w sefydliad. Byddai cael mynediad i'r wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod SAU yn parhau â'u lefel bresennol o ymrwymiad i Rwydwaith Seren yn y dyfodol.

Argymhelliad 9

Yn nhermau ymgysylltu â SAU, byddem yn argymhell bod Rhwydwaith Seren yn mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig a thryloyw o ymgysylltu â SAU gyda'r bwriad o fabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda SAU partner a fyddai'n amlinellu'r hyn y byddai pob partner yn ei gynnig i'r fenter, gan gynnwys cytundeb ar ran Seren i rannu data gyda SAU am y

cyfranogwyr hynny y mae SAU wedi ymgysylltu â hwy. Byddem yn argymhell, fel isafswm, bod SAU yn cael mynediad i wybodaeth ar lefel cyfranogwyr er mwyn eu galluogi i gofnodi effeithiau Seren ac adrodd arnynt yn fewnol ac i bartneriaid allanol.

- 12.12 Canfu'r gwerthusiad fod cyfranogwyr ar y cyfan yn fodlon ar y ffiniau a bennwyd ar gyfer yr 11 canolfan Seren, ac eithrio'r ganolfan ddaearyddol fawr iawn a oedd yn cwmpasu tri awdurdod lleol, sef Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys. Canfu'r gwerthusiad nad oedd y ganolfan hon yn gweithredu mor effeithiol â rhai o'r lleill, yn bennaf o ganlyniad i'r ardal fawr yr oedd yn ei gwasanaethu. Fodd bynnag, ni ddatgelodd y gwerthusiad ateb delfrydol i ddatrys yr heriau a wynebwyd gan y ganolfan hon.

Argymhelliad 10

Argymhellwn fod Rhwydwaith Seren yn adolygu'r ffiniau ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys. Byddem yn awgrymu cadw canolfan Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr a bod trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer Powys erbyn mis Medi 2018.

- 12.13 Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau Seren wedi dibynnu ar ysgolion a SAB i gyfathrebu ar eu rhan gyda chyfranogwyr a rhieni. O ganlyniad, efallai nad yw'n syndod bod llawer o faterion wedi codi yn ystod y gwaith maes mewn perthynas â chyfathrebu lleol aneffeithiol â chyfranogwyr a rhieni. Rydym yn casglu bod lle i wella'r ffordd y mae canolfannau yn cyfathrebu â'u cynulleidfaoedd targed.

Argymhelliad 11

Argymhellwn fod canolfannau unigol Seren yn gwella'r ffordd y maent yn cyfathrebu â rhieni a chyfranogwyr a lle nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, dylid mabwysiadu dulliau cyfathrebu uniongyrchol â chyfranogwyr a rhieni. Byddem yn argymhell ymhellach y dylid gwneud rhagor o ymdrechion er mwyn dosbarthu gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd wedi'u cynllunio

drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol presennol.

- 12.14 Yn gysylltiedig â hyn, rydym hefyd yn dod i'r casgliad bod lle i wella ansawdd a chysondeb y data y mae canolfannau Seren yn eu casglu ar gyfer cyfranogwyr ac roedd diffyg proses gyffredin ar draws y Rhwydwaith yn nodedig.

Argymhelliad 12

Argymhellwn fel blaenoriaeth fod Rhwydwaith Seren yn rhoi cytundeb rhannu data ar waith ac yn mabwysiadu dull cyffredin o gipio data am gyfranogwyr a phroses adrodd gyffredin, gan gynnwys mabwysiadu gwaith papur safonol i gofnodi manylion cofrestru a chanlyniadau cyfranogwyr.

- 12.15 Wrth lunio asesiad effaith terfynol o Rwydwaith Seren, daw'r gwerthusiad i'r casgliad ei bod yn hollol ymarferol cynnal asesiad o effaith wrthffeithiol ond cydnabyddir y byddai sefydlu grŵp rheoli cywir ar gyfer cyfranogwyr sy'n rhan o gynllun Seren yn dibynnu ar y gallu i gael mynediad i ddata o ansawdd da ar gyfer cyfranogwyr.

Argymhelliad 13

Argymhellwn, felly, fod y cyfranogiad ym menter Seren yn cael ei gofnodi fel rhaglen ddysgu o fewn Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Manta is y dull hwn yw y bydd y data a gesglir am gyfranogwyr Seren yn cael ei gwmpasu gan y protocolau preifatrwydd sy'n rhan o LLWR.⁶³ Ar adeg ysgrifennu'r gwerthusiad hwn, mae Hysbysiad Preifatrwydd LLWR yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)⁶⁴ newydd a chaiff ei ddiweddarau cyn cymhwyso'r ddeddfwriaeth newydd ym mis Mai 2018. Ein dadl yw bod canolfannau Seren, yn unol ag Erthygl 6(1) o'r GDPR newydd sy'n amlinellu'r amodau ar gyfer prosesu data, yn ymgymryd â thasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd. Drwy gynnwys

⁶³ <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170510-llwr-privacy-notice-2017-cy.pdf>

⁶⁴ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32016R0679&from=EN>

Seren o fewn LLWR, bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw brotocolau a weithredir ar gyfer Rhaglen Seren yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd.

- 12.16 Canfu'r gwaith maes er bod darpariaeth Seren ar lefel genedlaethol ar gael yn gyson yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, mae'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ar draws canolfannau Seren. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn cydnabod bod gan Rwydwaith Seren rôl i roi'r sgiliau i gyfranogwyr astudio y tu allan i Gymru. Serch hynny, daw'r gwerthusiad i'r casgliad y gall pob canolfan wneud mwy o ymdrech i fodloni gofynion iaith Gymraeg y cyfranogwyr.

Argymhelliad 14

Argymhellwn y dylai pob canolfan Seren wneud mwy o ymdrech i sicrhau bod gofynion iaith Gymraeg y cyfranogwyr yn cael eu bodloni'n gyson. Byddem yn argymhell bod yr holl ohebiaeth gyda chyfranogwyr a rhieni yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog a bod Rhwydwaith Seren yn datblygu adnoddau penodol i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer arholiadau a chyfweliadau mynediad drwy gyfrwng y Saesneg.

12.17 Rydym yn cytuno â barn llawer o'r cyfranwyr y byddai'n fuddiol hyrwyddo
menter Seren, a'r hyn y mae'n ei olygu, i fyfyrwyr iau mewn ysgolion
uwchradd. Rydym yn cydnabod bod hyn eisoes yn cael ei wneud gan rai
canolfannau ac argymhellir bod gweithgareddau yn y dyfodol yn y maes hwn
yn cael eu darparu yn y dull mwyaf costeffeithiol gyda'r amcan o godi
dyheadau mewn perthynas ag AU ymhlith nifer mawr o fyfyrwyr a'u hysbysu
ymlaen llaw am Rwydwaith Seren a sut y gallent ddod yn rhan o'r fenter.
Rydym yn casglu mai agwedd bwysig ar y gwaith hwn fydd codi dyheadau
ymysg dysgwyr MATH dynodedig yn arbennig a'u perswadio o oedran ifanc
o bwysigrwydd darllen yn eang o gwmpas eu diddordebau pwnc a'u cynnwys
mewn gweithgaredd uwch-gwricwlaidd ychwanegol.

Argymhelliad 15

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â chanolfannau Seren a
phartneriaid eraill fel Gyrfa Cymru, yn ymchwilio i ddulliau costeffeithiol o
dargedu myfyrwyr Cyfnodau Allweddol 3 a 4 gyda'r bwriad o godi dyheadau,
hysbysu darpar gyfranogwyr am Rwydwaith Seren a darparu cyngor i
sicrhau bod dewisiadau addas yn cael eu gwneud mewn perthynas â
phynciau TGAU a Safon Uwch.

Atodiad A Holiaduron Arolwg

Arolwg o Gyfranogwyr

Mae OB3 wedi ei gomisiynu i ymgymryd â gwerthusiad o Rhwydwaith Seren ar gyfer Llywodraeth Cymru. Er mwyn cynnal y gwerthusiad hwn ac i asesu effaith y cynllun, mae angen inni gasglu gwybodaeth oddi wrthyhych am eich cyfranogiad o fewn Rhwydwaith Seren. Gofynnwn yn garedig ichi gwblhau'r arolwg yma, a ddylai gymryd rhwng 10 a 15 munud o'ch amser - er mwyn cynnig adborth am eich profiadau o'r cynllun. Bydd y wybodaeth a gesglir ar gael i Lywodraeth Cymru ac mewn rhai achosion i sefydliadau ymchwil cymdeithasol sydd wedi eu cymeradwyo a fydd, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnal ymchwil, dadansoddiad neu gwaith monitro cyfleoedd cyfartal am waith y Rhwydwaith Seren. Ni fydd y wybodaeth a rennir yn cynnwys unrhyw ddata cyswllt personol megis eich enw neu fanylion cyswllt. Ni chaif eich manylion eu defnyddio at unrhyw ddiben arall heblaw am y gwaith ymchwil hwn.

Mae eich sylwadau yn bwysig er mwyn medru gwella'r ddarpariaeth a gynigir gan Rhwydwaith Seren i fyfyrwyr yn y dyfodol. Os ydych yn dymuno gwybod mwy am y gwerthusiad gallwch gysylltu â ni yn OB3 ar nia@ob3research.co.uk neu ffonio 01558 822922.

Adran A: Amdanoch chi

A1. Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd?

- ☐ Gwrywaidd
- ☐ Benywaidd
- ☐ Hunaniaeth o fath arall
- ☐ Ddim am ddweud

Rhowch fanylion

A2. A fydddech chi'n dweud eich bod:

- ☐ Yn rhugl yn y Gymraeg
- ☐ Yn gallu siarad tipyn o Gymraeg
- ☐ Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg
- ☐ Yn gallu dweud ambell i air
- ☐ Ddim yn gwybod

A3. Pa fath o ysgol ydych/oddech chi'n ei mynychu?

- ☐ Ysgol cyfrwng Cymraeg
- ☐ Ysgol ddwyieithog
- ☐ Ysgol cyfrwng Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
- ☐ Ysgol cyfrwng Saesneg
- ☐ Ddim yn gwybod

A4. Beth oedd y lefel uchaf o addysg a gyflawnodd eich rhiant neu'ch gwarcheidwad?

- ☐ Gradd, lefel sy'n cyfateb â gradd neu'n uwch
- ☐ Cymwysterau islaw lefel gradd
- ☐ Dim cymwysterau
- ☐ Ddim yn gwybod

A5. Sawl gradd A neu A* gawsoch chi yn eich arholiadau TGAU?

Nifer y graddau A*

Nifer y graddau A

A6. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

- ☐ Yn yr ysgol yn astudio Safon Uwch ym Mlwyddyn 12
- ☐ Yn yr ysgol yn astudio Safon Uwch ym Mlwyddyn 13
- ☐ Mewn coleg AB neu ysgol chweched dosbarth yn astudio Safon Uwch
- ☐ Astudio mewn prifysgol
- ☐ Astudio rhywbeth arall mewn coleg AB
- ☐ Cymryd blwyddyn allan
- ☐ Gweithio
- ☐ Ar gynllun prentisiaeth
- ☐ Gwirfoddoli
- ☐ Rhywbeth arall

Rhowch fanylion

A7. Pa bynciau Safon Uwch ydych/oeddech chi'n eu hastudio?

- ☐ Mathemateg
- ☐ English
- ☐ Cymraeg
- ☐ Y Gwyddorau Biolegol
- ☐ Cemeg
- ☐ Ffiseg
- ☐ Daearyddiaeth
- ☐ Hanes
- ☐ Seicoleg
- ☐ Cymdeithaseg
- ☐ Astudiaethau Crefyddol
- ☐ Ffrangeg
- ☐ Astudiaethau Busnes
- ☐ Economeg
- ☐ Arall

Nodwch fanylion y pynciau eraill yma:

A8. [IF A3=1] Ym mha brifysgol ydych chi'n astudio ar hyn o bryd?

A9. [IF A6=4] Pa bwnc gradd ydych chi'n ei astudio ar hyn o bryd?

A10. [IF A1=2] Beth ydych chi am ei wneud ar ôl cwblhau'ch arholiadau Safon Uwch?

- ☐ Astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt neu Rydychen
- ☐ Astudio mewn prifysgol flaenllaw arall (e.e. un o brifysgolion Grŵp Russell neu Sutton Trust 30)
- ☐ Astudio mewn prifysgol arall
- ☐ Gwneud rhywbeth arall

Adran B: Cysylltiad â Rhwydwaith Seren

B1. Pa Ganolfan Seren ydych chi wedi bod ynghlwm wrthi?

- ☐ Sir y Fflint a Wrecsam
- ☐ Conwy a Sir Ddinbych
- ☐ Gwynedd ac Ynys Môn
- ☐ Ceredigion
- ☐ Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin
- ☐ Lliw-Tawe (Abertawe)
- ☐ Castell-nedd Port Talbot, Powys a Phen-y-bont ar Ogwr
- ☐ Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful
- ☐ EAS (Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd a Chaerffili)
- ☐ Bro Morgannwg
- ☐ Caerdydd
- ☐ Ddim yn gwybod

B2. Sut clywsoch am Rhwydwaith Seren yn wreiddiol?

[Dewiswch yr holl flychau perthnasol]

- ☐ Trwy'r ysgol neu'r coleg
- ☐ Trwy gydlynnydd y ganolfan
- ☐ Trwy lythyr yn eich gwahodd i'r rhwydwaith
- ☐ Trwy ffrindiau
- ☐ Trwy rieni/gofalwyr
- ☐ Trwy ddull arall

Nodwch sut y clywsoch chi am Rhwydwaith Seren yn wreiddiol:

B3. I ba raddau ydych chi'n cytuno y cawsoch chi ddigon o wybodaeth am y pethau canlynol ar y cychwyn:

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Pwrpas Rhwydwaith Seren	☐	☐	☐	☐	☐
Pam yr oeddech wedi cael eich dewis i gymryd rhan	☐	☐	☐	☐	☐
Beth y byddai'n ei olygu yn nhermau ymrwymiad amser	☐	☐	☐	☐	☐
Y rhaglen o gymorth oedd ar gael	☐	☐	☐	☐	☐

Sut y gallech elwa o gymryd rhan

☐☐☐☐☐

B4. Beth oeddech chi'n gobeithio ei gyflawni trwy gymryd rhan yn Rhwydwaith Seren?

[Dewiswch yr holl flychau perthnasol]

- ☐ Ennill y graddau gorau posibl yn fy mhynciau Safon Uwch/Uwch Atodol
- ☐ Cael fy herio a'm hymestyn yn y pynciau rwy'n eu mwynhau
- ☐ Cael gweithio gyda myfyrwyr eraill sy'n cyflawni ar lefel uwch
- ☐ Cael rhagor o wybodaeth am y prifysgolion blaenllaw lle gallwn fynd i astudio
- ☐ Cael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau prifysgol y gallwn eu hastudio
- ☐ Cael cymorth i ddewis y brifysgol a'r cwrs gorau i mi
- ☐ Cael rhagor o wybodaeth am ddewisiadau gyrfaol at y dyfodol
- ☐ Cael cymorth i wneud cais i brifysgol Caergrawnt neu Rydychen
- ☐ Cael cymorth i ddiogelu lle ym mhrifysgol Caergrawnt neu Rydychen
- ☐ Cael cymorth i wneud cais am le mewn prifysgol flaenllaw arall
- ☐ Cael cymorth i ddiogelu lle mewn prifysgol flaenllaw arall
- ☐ Doedd dim byd penodol roeddwn i am ei gyflawni
- ☐ Ansicr
- ☐ Rhywbeth arall

Rhowch fanylion

B5. Pa rai o weithgareddau canlynol Rhwydwaith Seren ydych chi wedi bod ynghlwm wrthynt?

[Dewiswch yr holl flychau perthnasol]

- ☐ Dosbarth meistr ar fy mhynciau Safon Uwch
- ☐ Dosbarth meistr ar gwrs prifysgol oedd o ddiddordeb i mi
- ☐ Cael gwybodaeth am ddeunyddiau darllen estynedig ar fy mhynciau Safon Uwch
- ☐ Ymweld â phrifysgol flaenllaw
- ☐ Mynychu ysgol haf neu weithdy prifysgol
- ☐ Cyflwyniad gan academydd o brifysgol flaenllaw
- ☐ Cyflwyniad gan rywun sy'n gweithio ym myd diwydiant
